

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Bil Safonau a Threfniadaeth
Ysgolion (Cymru):
Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor

Hydref 2012



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8101
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorPPL@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Bil Safonau a Threfniadaeth
Ysgolion (Cymru):
Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor

Hydref 2012



Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gan roi iddo'r cylch gwaith o archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cwmpasu: addysg, iechyd a lles plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys gofal cymdeithasol ar eu cyfer.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Christine Chapman
(Cadeirydd)**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



Angela Burns
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Caerfyrddin
a De Sir Benfro



Jocelyn Davies
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Suzy Davies
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Rebecca Evans
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Julie Morgan
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



Lynne Neagle
Llafur Cymru
Tor-faen



Jenny Rathbone
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



Aled Roberts
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru



Simon Thomas
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Crynodeb o'r Casgliadau a'r Argymhellion.....	5
1. Cyflwyniad	9
Cefndir	9
Cwmpas craffu'r Pwyllgor.....	9
Sut aeth y Pwyllgor ati i gasglu tystiolaeth.....	10
2. Cefndir.....	11
Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i wneud y Bil	11
Amcanion polisi'r Bil	11
3. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth.....	15
4. Rhan 2 - Safonau.....	20
Cefndir	20
Pennod 1 - Ymyrryd ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir.....	20
Y ddeddfwriaeth bresennol ynghylch ymyrryd	20
Seiliau dros ymyrryd	25
Pwerau ymyrryd awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir	30
Pennod 2 - Ymyrryd mewn awdurdodau lleol	34
Pennod 3 - Canllawiau gwella ysgolion	38
5. Rhan 3 - Trefniadaeth ysgolion	48
Cefndir	48
Pennod 1 - Y cod trefniadaeth ysgolion	48
Pennod 2 - Cynigion trefniadaeth ysgolion	51
Categoriâu o wrthwynebwyd	54
Panelau dyfarnu lleol	57
Cynigion i gau "ysgolion bach"	63
Pennod 3 - Rhesymoli lleoedd ysgolion	67
Pennod 4 - Darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig.....	69
Pennod 5 - Cynigion i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth	71

6. Rhan 4 - Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg	74
7. Rhan 5 - Swyddogaethau amrywiol ysgolion	79
Brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd	79
Cefndir	79
Pŵer i godi taliadau am brydau	84
Cwmsela mewn ysgolion	88
Cyfarfodydd rhieni	92
8. Rhan 6 - Cyffredinol	97
Adran 98 - Gorchmynion a rheoliadau	97
9. Goblygiadau ariannol y Bil	99
Rhan 2 - Safonau	99
Pennod 3 - Canllawiau Gwella Ysgolion	99
Rhan 3 - Trefniadaeth Ysgolion	102
Pennod 2 - Cynigion trefniadaeth ysgolion	102
Rhan 4 - Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg	104
Rhan 5 - Swyddogaethau Amrywiol Ysgolion	107
Y fenter brecwast am ddim a chwmsela mewn ysgolion	107
Pŵer i godi taliadau am brydau	109
Cyfanswm cost y Bil	111
10. Tystion	114
11. Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	116

Crynodeb o'r Casgliadau a'r Argymhellion

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion:

Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell, lle bo hynny'n briodol, y dylid cynnwys tabl tarddiadau ym Memorandwm Esboniadol pob Bil yn y dyfodol. (Paragraff 36)

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell y dylai'r Bil gynnwys cyfeiriad penodol at y Confensiwn. (Paragraff 38)

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell y dylai'r Cynulliad gefnogi egwyddorion cyffredinol Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru). (Paragraff 39)

Rhan 2 - Safonau

Pennod 1 - Ymyrryd ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir

Seiliau dros ymyrryd

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod y canllawiau statudol ar gyfer ymyrryd mewn ysgolion a gyhoeddir o dan adran 20 yn pennu'r meini prawf a ddefnyddir gan awdurdodau lleol a chan Weinidogion Cymru i benderfynu a oes seiliau dros ymyrryd; yr wybodaeth a ddefnyddir er mwyn asesu'r meini prawf hynny; a sut y disgwylir i awdurdodau bwysoli'r wybodaeth honno wrth asesu. (Paragraff 85)

Pwerau ymyrryd awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell bod y canllawiau statudol ar gyfer ymyrryd mewn ysgolion yn cynnig cyngor clir ynglŷn ag o dan ba amgylchiadau y ceir defnyddio'r pwerau hyn [yn adrannau 9 ac 17] ac

ynglŷn â pha fath o gyfarwyddyd y byddai'n briodol ac/neu yn rhesymol ei roi o dan yr amgylchiadau hynny. (Paragraff 107)

Pennod 2 - Ymyrryd mewn awdurdodau lleol

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog roi canllawiau ar ymyrryd gan Weinidogion Cymru mewn awdurdodau lleol, a bod y rheini'n cynnig esboniad manylach o ystyr y term "digonol" yn sail 3. (Paragraff 123)

Argymhelliad 7. rydym yn argymell diwygio'r Memorandwm Esboniadol i gynnwys esboniad cynhwysfawr am y pŵer sydd yn adran 27 i Weinidogion Cymru gyfarwyddo rhoi swyddogaethau addysg eraill ar waith, ac o dan ba fath o amgylchiadau y gellid yn rhesymol ddefnyddio'r pŵer hwnnw. (Paragraff 125)

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog roi canllawiau i awdurdodau lleol ynglŷn ag ymyrryd gan Weinidogion Cymru mewn awdurdodau lleol, a bod y rheini'n cynnwys esbonio'r pŵer yn adran 27 ac o dan ba fath o amgylchiadau y gellid yn rhesymol ddefnyddio'r pŵer hwnnw. (Paragraff 126)

Pennod 3 - Canllawiau gwella ysgolion

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell diwygio adran 34 er mwyn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ag Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru (neu ag unrhyw gorff cyfatebol yn y dyfodol) ynglŷn â'r canllawiau drafft ar gyfer gwella ysgolion. (Paragraff 167)

Rhan 3 - Trefniadaeth ysgolion

Pennod 1 - Y Cod trefniadaeth ysgolion

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell diwygio adran 39 i gynnwys rhagor o fanylion am y mathau o bobl y dylid ymgynghori â hwy ynglŷn â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, boed hynny yn y fersiwn ddrafft ynteu yn y fersiwn ddiwygiedig. (Paragraff 186)

Pennod 2 - Cynigion trefniadaeth ysgolion

Argymhelliad 11. Nodwn y dystiolaeth a gafwyd a oedd yn amau'r pwysoli a roddwyd i grwpiau penodol o wrthwynebwyr ac a oedd yn awgrymu newid y categorïau mewn rhai achosion. Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried hyn cyn Cam 2. (Paragraff 257)

Argymhelliad 12. Rydym yn argymhell diwygio'r Bil er mwyn sicrhau bod egwyddor annibyniaeth yn cael ei chynnwys yn y ddeddfwriaeth. (Paragraff 266)

Argymhelliad 13. Rydym hefyd yn argymhell diwygio Atodlen 3 er mwyn egluro'n fanwl sut y bydd y Panelau Dyfarnu Lleol yn gweithio'n ymarferol. (Paragraff 266)

Argymhelliad 14. Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog adolygu sut mae'r Panelau Dyfarnu Lleol yn gweithio ar y cyfle cyntaf posibl ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. (Paragraff 267)

Rhan 4 - Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

Argymhelliad 15. Rydym yn argymhell, cyn Cam 2, y dylai'r Gweinidog ystyried sicrhau bod y Bil yn darparu fel y gall Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg gynnwys cynigion awdurdodau lleol ynghylch sut y byddant yn sicrhau bod unrhyw gynnydd yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddiwallu'n ddigonol. (Paragraff 319)

Rhan 5 - Swyddogaethau amrywiol ysgolion

Brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd

Argymhelliad 16. Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gynnwys yn y canllawiau o dan ba amgylchiadau y caiff awdurdod lleol benderfynu bod darparu gwasanaeth brecwast am ddim mewn ysgolion yn "afresymol". (Paragraff 349)

Cyfarfodydd rhieni

Argymhelliad 17. Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog adolygu priodoldeb y niferoedd a'r canrannau y mae gofyn eu cael i sbarduno'r cais am gyfarfod rhieni ac ystyried yr awgrym amgen ynglŷn â chael graddfa lithro. (Paragraff 422)

Goblygiadau ariannol y Bil

Rhan 3 – Trefniadaeth ysgolion

Pennod 2 – Cynigion Trefniadaeth Ysgolion

Argymhelliad 18: Rydym yn argymell bod y Gweinidog, pan fydd yn adolygu sut y gweithredir paneli dyfarnu lleol ac yn cyflwyno adroddiad [i'r Pwyllgor], hefyd yn cyflwyno adroddiad [i'r Pwyllgor] ar gostau gwirioneddol y paneli. (Paragraff 453)

Rhan 4 – Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

Argymhelliad 19: Ym Mhennod 6, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried cynnwys yn y Bil ddarpariaethau i sicrhau bod unrhyw gynnydd yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei fodloni mewn modd priodol. Ar y sail bod y Gweinidog yn derbyn yr argymhelliad hwn, byddem yn argymell hefyd fod yn rhaid iddo sicrhau bod cyllid digonol ar gael at y diben hwn. (Paragraff 465)

1. Cyflwyniad

Cefndir

1. Ar 23 Ebrill 2012, cyflwynodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews AC ("y Gweinidog"), Fil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)¹ ("y Bil") a gwnaeth ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn y diwrnod canlynol.²

2. Yn ei gyfarfod ar 27 Mawrth 2012, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ("y Pwyllgor") er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno'i adroddiad i'r Cynulliad erbyn 12 Hydref 2012.

Cwmpas craffu'r Pwyllgor

3. Cytunodd y Pwyllgor ar y fframwaith a ganlyn ar gyfer craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil:

Ystyried

- i) yr angen am Fil i ddarparu ar gyfer safonau mewn ysgolion a threfniadaeth ysgolion;
- ii) a yw'r Bil yn cyflawni ei amcanion datganedig;
- iii) y damcaniaethau allweddol a amlinellir yn y Bil ac a ydynt yn briodol er mwyn cyflawni'r amcanion;
- iv) rhwystrau posibl rhag cyflawni'r darpariaethau allweddol ac a yw'r Bil yn ystyried y rhwystrau hyn;
- v) a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil.

¹ Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru), sydd ar gael yma:
<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?IId=3633>

² Cofnod y Trafodion, 24 Ebrill 2012, sydd ar gael yma:
<http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-chamber-fourth-assembly-rop.htm?act=dis&id=232892&ds=4%2F2012>

(ON: oni nodir fel arall, mae'r cyfeiriadau dilynol yn yr adroddiad hwn at Gofnod y Trafodion yn cyfeirio at drafodion y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc)

Sut aeth y Pwyllgor ati i gasglu tystiolaeth

4. Bu'r Pwyllgor yn ymgynghori'n eang, gan wneud cais agored am dystiolaeth drwy gyfryngau Cymru ac ar wefan y Cynulliad, a chan wahodd sefydliadau allweddol sydd â diddordeb mewn meysydd pwnc i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i oleuo ein gwaith. Mae rhestr o'r rheini a gyflwynodd dystiolaeth ysgrifenedig ar gael ar ddiwedd yr adroddiad hwn.
5. Cafwyd tystiolaeth lafar hefyd gan nifer o dystion; ceir rhagor o fanylion am y rhain ar ddiwedd yr adroddiad hwn.
6. At hynny, ar ran y Pwyllgor, cynhaliwyd grwpiau ffocws gan Dîm Allgymorth Cyfathrebu Allanol y Cynulliad gyda rhieni a llywodraethwyr i ofyn am eu barn am y Bil. Mae rhagor o wybodaeth am y grwpiau hyn a chrynodeb o'u cyfraniadau ar gael ar wefan y Cynulliad.
7. Wrth gyflwyno ein hadroddiad am y Bil, rydym wedi ystyried barn pawb a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor ac rydym wedi ceisio adlewyrchu'r prif faterion a godwyd yn y dystiolaeth.
8. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a roddodd dystiolaeth. Mae eu cyfraniad drwy gydol ystyried y Bil wedi bod yn amhrisiadwy.
9. Mae'r adroddiad a ganlyn yn cynnwys casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor ar sail y dystiolaeth a gafodd yn ystod ei waith.

2. Cefndir

Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i wneud y Bil

10. Mae'r prif bwerau sy'n galluogi'r Cynulliad i wneud Bil yng nghyswllt safonau a threfniadaeth ysgolion wedi'u cynnwys ym mhwnc 5 (addysg a hyfforddiant) ac ym mhwnc 9 (iechyd a gwasanaethau ieuchyd) Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf Llywodraeth Cymru 2006").

11. Rhennir y Bil yn chwe rhan:

- Rhan 1 - Cyflwyniad;
- Rhan 2 - Safonau, gan gynnwys ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder a chanllawiau ar gyfer gwella ysgolion;
- Rhan 3 - Trefniadaeth ysgolion, gan gynnwys y cod trefniadaeth ysgolion, rhesymoli lleoedd mewn ysgolion, darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig a chynigion ar gyfer ailstrwythuro addysg chweched dosbarth;
- Rhan 4 - Cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg;
- Rhan 5 - Swyddogaethau amrywiol ysgolion, gan gynnwys brecwast am ddim mewn ysgolion, y pŵer i godi tâl am brydau, cwnsela mewn ysgolion a chyfarfodydd rhieni;
- Rhan 6 - Cyffredinol.

Amcanion polisi'r Bil

12. Gyda golwg ar ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder, mae'r Memorandwm Esboniadol³ sy'n cyd-fynd â'r Bil yn dweud:

Bydd y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) yn dwyn ynghyd, am y tro cyntaf, y darpariaethau presennol ynghylch:

- ymyrraeth gan awdurdodau lleol ynghylch materion rhedeg ysgolion a gynhelir sydd wedi'u pennu fel ysgolion sy'n peri pryder;

³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, sydd ar gael yma: <http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=232782&ds=4/2012>

-ymyrraeth gan Weinidogion Cymru ynghylch materion rhedeg ysgolion a gynhelir sydd wedi'u pennu fel ysgolion sy'n peri pryder;

-ymyrraeth gan Weinidogion Cymru mewn awdurdodau lleol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau addysg.⁴

13. Mae'n mynd rhagddo i ddweud:

Yn ogystal â hyn mae'r Bil hwn yn ceisio cryfhau a diwygio'r pwerau ymyrryd hynny lle y bo angen.⁵

14. O ran y canllawiau gwella ysgolion, mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod Llywodraeth Cymru yn pennu gwahanol ddeunyddiau ac adnoddau o safon uchel a fydd yn cynorthwyo athrawon ac yn eu helpu i ddatblygu eu harferion gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol ynghylch llythrennedd, rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad.⁶

15. Mae'n dweud hefyd:

Diben y cymalau a geir yn y Bil hwn ynghylch canllawiau gwella ysgolion yw rhoi sail statudol i ganllawiau o'r fath.⁷

16. Gyda golwg ar Ran 3 o'r Bil, mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud:

Mae'r Bil yn diddymu gwahanol elfennau o'r ddeddfwriaeth bresennol ar drefniadaeth ysgolion yng Nghymru ac yn rhoi un fframwaith deddfwriaethol cynhwysfawr yn eu lle. Mae llawer o'r ddeddfwriaeth bresennol wedi'i hailddatgan, ar ffurf wahanol, lle barnwyd bod hynny'n briodol at ddibenion eglurder neu symlrwydd. At hynny, cynhwysir trefniadau newydd a bwriedir i'r rhain adlewyrchu'r effaith a gaiff y cynigion ar gyfer trefniadaeth ysgol mewn ardal drwy sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar lefel briodol, yn unol â faint o bryder a fynegir gan y rheini sy'n ymwneud fwyaf â'r peth mewn ardal.⁸

⁴ ME 3.13, t11

⁵ ME 3.14, t11

⁶ ME 3.30, t15

⁷ ibid

⁸ ME 3.54, t20

17. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd rhagddo i ddweud y bydd y trefniadau a gynigir yn y Bil "yn sicrhau bod y mwyafrif helaeth o gynigion yn cael eu penderfynu ar lefel leol, ac mewn sawl achos dylai'r broses fod lawer yn gynt."⁹

18. O ran y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud:

Mae'r Bil yn ceisio adeiladu ar sail y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol sydd ar ffurf anstatudol drwy roi sail statudol iddynt. Bydd y Bil yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ymgynghori ynghylch Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, a'i baratoi a'i gyhoeddi i'w gyflwyno i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo a'i fonitro. Cynlluniau 3 blynedd fydd y rhain a byddant yn cael eu hadolygu bob blwyddyn.¹⁰

19. O ran cyfarfodydd rhieni, mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod Llywodraeth Cymru "wedi ystyried sefyllfa'r Cyfarfodydd Blynyddol Rhieni yn ofalus" a'i bod yn bwysig "bod y cyfarfodydd hynny'n amserol a bod y rhieni yn awyddus i'w cael".¹¹

20. Aiff rhagddo i ddweud bod y Bil yn cynnig y canlynol:

- Byddai angen i rieni 10% o ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol uwchradd neu rieni 30 disgybl cofrestredig, pa un bynnag yw'r isaf, neu rieni 10% o ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol gynradd neu rieni 10 disgybl cofrestredig, pa un bynnag yw'r isaf, ofyn i Gadeirydd y Llywodraethwyr am gyfarfod rhieni.
- Ar ôl derbyn cais byddai gofyn i'r corff llywodraethu ysgrifennu at bob rhiant yn eu hysbysu bod cyfarfod i gael ei gynnal ar ddiwrnod penodol i drafod materion yn ymwneud â'r ysgol.
- Bydd gofyn i'r corff llywodraethu roi cyhoeddusrwydd i'r trefniadau newydd yn llawlyfr yr ysgol, a'i gwneud yn glir y caiff rhieni ofyn am hyd at dri chyfarfod y flwyddyn.

⁹ ME 3.54, t20

¹⁰ ME 3.73, t24

¹¹ ME 3.92, t27

- Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau statudol ar y cynigion hyn.¹²

21. O ran yr agweddau eraill ar Ran 5 o'r Bil, sef brecwast am ddim mewn ysgolion, y pŵer i godi taliadau am brydau a chwnsela mewn ysgolion, dywed y Memorandwm Esboniadol:

Yn unol â'r ymrwymiad i symleiddio a lleihau biwrocratiaeth, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i drosglwyddo dwy elfen o'r cyllid grant penodol, sef darparu brecwast am ddim mewn ysgolion a chwnsela mewn ysgolion, i'r Grant Cynnal Refeniw...Drwy reoli'r cyllid ar lefel leol, byddai awdurdodau lleol yn medru gweld faint o alw sydd mewn ysgolion unigol a gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth leol.¹³

22. Mae'n dweud hefyd:

...mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i roi hyblygrwydd i awdurdodau lleol dros bris prydau ysgol. Hefyd, caiff Deddf Addysg 1996 ei diwygio i rwystro awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu rhag codi mwy ar ddisgyblion na'r gost o ddarparu llaeth, prydau neu luniaeth arall.¹⁴

¹² ME 3.92, t27

¹³ ME 3.99, t28

¹⁴ ME 3.113, t32

3. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

Tystiolaeth ymatebwyr

23. Roedd lefel y gefnogaeth i'r Bil yn y dystiolaeth yn amrywio. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr, ar y cyfan, yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil. Roedd y rhesymau a roddwyd o'i blaid yn canolbwyntio'n bennaf ar y ffaith bod angen cydgrynhoi ac egluro'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch ymyrryd, a mireinio a symleiddio gweithdrefnau trefniadaeth ysgolion.

24. Roedd Llywodraethwyr Cymru yn croesawu'r Bil ac yn awgrymu y byddai'n gymorth i wella safonau ysgolion drwyddynt draw ac i leihau biwrocratiaeth, ac y byddai'n mireinio, yn symleiddio ac yn diwygio prosesau statudol presennol.¹⁵

25. Wrth gefnogi'r angen am y Bil, dywedodd Estyn:

We believe that the Bill addresses many issues concerning standards and school organisation, especially with regard to spreading best practice, promoting more efficient ways of working and reducing the effect of child poverty.¹⁶

26. Roedd Comisiynydd Plant Cymru a'r elusen Plant yng Nghymru ill dau'n siomedig nad oedd na'r Bil na'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys cyfeiriad at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).¹⁷ Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

It seems to me that a rights-based approach in relation to school standards is essential, and we have the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, which provides a framework within which Ministers can pay due regard to the UNCRC. So, I am disappointed not to see that in here. I do not in any way mean to say that I do not think that Ministers take account of the UNCRC. I know that they do.

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO10

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO2

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO25, Cofnod y Trafodion, par 7 i 11, 11 Gorffennaf 2012, Tystiolaeth ysgrifenedig SSO23

However, I would like it to be more explicit in relation to the Bill.¹⁸

27. Er eu bod yn cefnogi'r angen am y Bil, roedd Barnardo's Cymru yn poeni nad oedd cyfeiriad at lais disgyblion a rhieni nac at feithrin cysylltiad â hwy ac nad oedd hyn i bob golwg wedi'i ystyried.¹⁹

28. Nid oedd yr un ymatebydd yn gwrthwynebu'r Bil yn uniongyrchol. Serch hynny, roedd yn ymddangos bod rhai o undebau'r athrawon, sef NUT Cymru ac NASUWT Cymru yn llai cefnogol i'r Bil nag yr oedd ymatebwyr yn fwy cyffredinol.²⁰

29. Yn ei dystiolaeth, dywedodd NUT Cymru:

There are aspects within the proposed Bill that are welcomed and acceptable, such as support for Welsh language schemes, proposals around free school breakfasts...However, there are also elements that we are very much opposed to, such as linking intervention to school banding.²¹

30. Roedd NASUWT Cymru yn cydnabod bod rhywfaint o rinwedd yn y cynnig i gyflwyno Bil er mwyn darparu ar gyfer safonau ysgolion a threfniadaeth ysgolion. Aeth rhagddo i gwestiynu honiadau'r Gweinidog ynglŷn â safonau mewn ysgolion ar hyn o bryd yng Nghymru gan fynegi pryder ynglŷn â'r ymagwedd gyffredinol yn y Bil at wella ysgolion.²²

31. Ni waeth beth oedd eu safbwynt cyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn poeni am un o feysydd y Bil, neu am fwy nag un ohonynt. Ystyrir y rhain yn ddiweddarach yn yr adroddiad wrth ymdrin â'r Rhan o'r Bil y maent yn berthnasol iddi.

Tystiolaeth y Gweinidog

32. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, bydd Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) yn:

¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraffau 7 i 11, 11 Gorffennaf 2012

¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO22

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO6 ac SSO7

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO6

²² Tystiolaeth ysgrifenedig SSO7

- darparu proses eglurach ar gyfer ymyrryd mewn ysgolion gyda'r nod o sbarduno gwella ysgolion drwy gyflwyno canllawiau statudol;
- diwygio'r broses statudol ynghylch trefniadaeth ysgolion fel bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn lleol lle y bo'n bosibl;
- diddymu'r gofyniad ar i Gyrff Llywodraethu Ysgolion gynnal Cyfarfodydd Blynyddol i Rieni a chyflwyno hawl newydd i rieni alw cyfarfodydd â Chyrff Llywodraethu Ysgolion;
- rhoi rhagor o hyblygrwydd i awdurdodau ac ysgolion yng nghyswllt prisiau prydau ysgol;
- prif-ffrydio sawl rhaglen a ariennir gan grant er mwyn helpu i symleiddio'r prosesau presennol; a
- gwneud awdurdodau lleol yn atebol am gynllunio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy roi sail statudol i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.²³

33. Wrth sôn am y diffyg cyfeirio at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn y Bil, dywedodd y Gweinidog ei fod yn glir ynghylch sut mae'r Bil yn cydweddu â gofynion y Confensiwn. Aeth rhagddo i ddweud:

We have in any case a duty to comply with the UNCRC, so I am not sure that adding it to the Bill would actually change our obligations in any regard. However, if that is an issue that the committee would like to press, I would be relaxed about that.²⁴

Ein barn ni

34. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth yn gyffredinol yn cefnogi Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) ac rydym yn cydnabod na wnaeth neb a ymatebodd wrthwynebu'r Bil. Nodwn fod Rhan 2 o'r Bil, gan mwyaf, yn cydgrynhoi ac yn ceisio egluro'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch ymyrryd. Rydym yn cydnabod bod cydgrynhoi'r gyfraith ynghylch ymyrryd o fudd nid yn unig er mwyn sicrhau eglurdeb i awdurdodau lleol a chysondeb rhyngddynt, ond hefyd er mwyn hybu gwell dealltwriaeth o broses ymyrryd yn y sector addysg ac yng nghymuned ehangach yr ysgol.

²³ ME 1.1, t7

²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 105, 19 Gorffennaf 2012

35. Yn yr un modd, rydym yn cydnabod bod Rhan 3 o'r Bil yn dwyn ynghyd ddeddfwriaeth sydd ar waith eisoes ynglŷn â threfniadaeth ysgolion, er ei bod yn cyflwyno nifer o ddiwygiadau pwysig. Rydym yn cydnabod, ac mewn ambell achos, yn ategu'r pryder a godwyd yn y dystiolaeth ynghylch rhai o'r darpariaethau yn y Rhan hon, ac rydym yn datgan ein barn am hyn yn fwy manwl ym Mhennod 5 o'r adroddiad hwn. Serch hynny, wedi pwysu a mesur, rydym yn fodlon ar bwrpas a nod Rhan 3 o'r Bil.

36. A chofio bod llawer o'r darpariaethau yn Rhan 2 a 3 yn rhai sydd o ran eu natur yn cydgrynhai deddfwriaeth, byddai wedi bod o gymorth i'r gwaith craffu petai tabl wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol yn dangos tarddiad a ffynonellau'r ddeddfwriaeth y bwriedir eu cydgrynhai yn y Bil. Rydym yn cydnabod bod y Gweinidog wedi rhoi'r wybodaeth hon i Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol pan oedd proses graffu Cyfnod 1 ar ei hanner. **Rydym yn argymhell, lle bo hynny'n briodol, y dylid cynnwys tabl tarddiadau ym Memorandwm Esboniadol pob Bil yn y dyfodol.**

37. Sylwn ar y gefnogaeth eang yn y dystiolaeth ynghylch Rhan 4 sy'n ymwneud â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac ynghylch Rhan 5, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer brecwast am ddim mewn ysgolion, cwnsela mewn ysgolion, taliadau hyblyg am brydau ysgol a chyfarfodydd rhieni. Rydym yn cydnabod bod y Rhannau hyn o'r Bil, ar y cyfan, yn rhoi'r ddarpariaeth anstatudol bresennol ar sail statudol, naill ai er mwyn cryfhau'r trefniadau presennol neu, yng nghyswllt brecwast am ddim mewn ysgolion a chwnsela mewn ysgolion, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau ar ôl trosglwyddo arian o'r grant penodol i'r Grant Cynnal Refeniw. Felly, rydym yn gyffredinol fodlon ar Rannau 4 a 5 o'r Bil.

38. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth a gafwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru a chan eraill am y diffyg cyfeirio yn y Bil at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Rydym yn cydnabod ei bod yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw i'r Confensiwn wrth benderfynu ynglŷn â darpariaethau y cynigir eu cynnwys mewn deddfwriaeth ac rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog am hyn. Serch hynny, er mwyn dangos yn glir bod gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad i'r agenda hawliau plant a phobl ifanc, ac er mwyn bod yn gwbl eglur,

rydym yn argymhell y dylai'r Bil gynnwys cyfeiriad penodol at y Confensiwn.

39. Yn sgîl y dystiolaeth gan ymatebwyr a'r Gweinidog, rydym yn argymhell y dylai'r Cynulliad gefnogi egwyddorion cyffredinol Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru).

4. Rhan 2 - Safonau

Cefndir

40. Mae Rhan 2 o'r Bil:

- yn diwygio'r gyfraith bresennol mewn cysylltiad ag ymyrraeth gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol, ac ymyrraeth gan Weinidogion Cymru ym materion arfer swyddogaethau addysg gan awdurdodau lleol; ac
- yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i benaethiaid, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau er mwyn gwella safonau addysg.

Pennod 1 - Ymyrryd ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir

Y ddeddfwriaeth bresennol ynghylch ymyrryd

Cefndir

41. Mae pŵer presennol sydd gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder wedi'i bennu yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac yn Neddf Addysg 1996.

42. Mae Pennod 1 yn diwygio'r gyfraith bresennol mewn cysylltiad ag ymyrraeth gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir gan awdurdodau. Mae'n dwyn ynghyd holl bwerau ymyrryd awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ac yn rhoi'r un seiliau iddynt dros ymyrryd. Mae'r pwerau i ymyrryd hefyd yn cael eu cryfhau a'u diwygio.

Tystiolaeth ymatebwyr

43. Roedd cefnogaeth eang yn y dystiolaeth o blaid Pennod 1 a'r cam i gydgrynhoi ac egluro'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag ymyrryd.

44. Yn eu dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, awgrymodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg

Cymru (CCAC) fod rhywfaint o amwysedd a dryswch yng nghyswllt y ddeddfwriaeth bresennol.²⁵ Dywedasant:

Consolidating existing legislation outlined in Chapter 1 of the Bill is welcomed by local authorities as it provides a clear framework for intervention in schools and will enable local authorities to support schools causing concern in an appropriate and timely manner.²⁶

45. Mynegwyd barn debyg gan Lywodraethwyr Cymru.²⁷

46. Awgrymodd cynrychiolwyr llywodraeth leol y bydd y Bil o gymorth i awdurdodau lleol, ysgolion a phartion eraill sydd â budd yn hyn ddeall ymyrryd yn well.²⁸

47. Wrth sôn am y ffordd y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio'u pwerau i ymyrryd ar hyn o bryd, dywedodd Estyn:

To date, too few local authorities have used their powers to intervene. The proposed clarification of the position should greatly help local authorities to address more challenging schools.²⁹

48. Er bod cefnogaeth gyffredinol o blaid cydgrynhoi ac egluro'r ddeddfwriaeth bresennol yn y Bil, mynegwyd pryder ynghylch lled y seiliau dros ymyrryd ac ehangder y pwerau ymyrryd a ddarperid. Rhoddir sylw i'r materion hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

49. Awgrymodd nifer o ymatebwyr fod ffactorau ar wahân i gymhlethdod y ddeddfwriaeth bresennol yn effeithio ar allu a/neu ar barodrydd awdurdodau i ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder. Dyma rai o'r ffactorau hynny:

- diffyg monitro effeithiol ar berfformiad ysgolion gan awdurdodau;
- diffyg gallu ac arbenigedd o fewn awdurdodau i ymyrryd yn effeithiol; ac

²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 260, 31 Mai 2012

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO3

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO10

²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 264, 31 Mai 2012, a Thystiolaeth ysgrifenedig SSO26

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO2

- amharoddrwydd awdurdodau i beryglu eu perthynas weithio gydag ysgolion.

50. Yn ei dystiolaeth lafar, esboniodd Estyn fod arolygiadau ar wasanaethau gwella ysgolion awdurdodau lleol wedi canfod bod pump o blith yr un awdurdod ar ddeg a arolygwyd yn "ddigonol" neu'n "anfoddhaol". Dywedodd:

It may be that officers are reluctant to intervene except in extreme circumstances. They may wait for inspections of schools to come along before taking action on low performance. With some officers, there may be issues of capacity or capability. Some officers may not know their schools well enough.³⁰

51. Ar yr un trywydd, dywedodd NAHT Cymru ac ASCL (Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau):

...if there has been a lack of intervention, perhaps that is not just because of a lack of clarity...other factors are responsible for it, such as capacity or the willingness to do it. So, in introducing this Bill, we will not necessarily resolve some of the more structural problems in the system that have meant that there has not been appropriate intervention in the past.³¹

52. Roedd NUT Cymru'n honni bod capasiti awdurdodau i ymyrryd mewn ysgolion yn broblem go iawn ac felly, y gellid gweld pŵer awdurdodau i ymyrryd yn fygythiad gwag.³² Awgrymodd hefyd nad oes gan awdurdodau'r gallu rhagor i fonitro perfformiad ysgolion yn effeithiol a, lle bydd problemau, y gall awdurdodau fod yn gyndyn o ymyrryd am nad oes ganddynt yr wybodaeth angenrheidiol.³³

53. Soniodd sawl ymatebwr am rôl consortia rhanbarthol gwella ysgolion o ran mynd i'r afael â'r diffyg capasiti ac arbenigedd ymddangosiadol hwn mewn awdurdodau lleol. Er bod rhai'n teimlo y byddai consortia'n gymorth i fynd i'r afael â'r materion hyn, roedd eraill, yn enwedig undebau'r athrawon, yn llai cadarnhaol eu hagwedd at y dylanwad a gâi'r consortia ar yr agenda gwella ysgolion.

³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraffau 172 i 173, 31 Mai 2012

³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 23, 13 Mehefin 2012

³² Cofnod y Trafodion paragraff 235, 27 Mehefin 2012, a Thystiolaeth ysgrifenedig SSO6

³³ Cofnod y Trafodion, paragraff 247, 27 Mehefin 2012

54. Ar bwynt gwahanol, dywedodd NUT Cymru:

...no consideration seems to have been given to why local authorities have rarely used their existing powers of intervention, other than potential "confusion"...It may be, as has been shown to be the case in England that local authorities may choose not to use them because of the damage intervention powers may cause to their relationships with an individual school.³⁴

55. Roedd yn amlwg o'u tystiolaeth fod gan NUT Cymru ac NASUWT Cymru bryderon sylfaenol am ddefnyddio ymyrryd i wella safonau mewn ysgolion ac am ddefnyddio'r system genedlaethol ar gyfer bandio i bwysu a mesur a oes sail dros ymyrryd. Roedd NASUWT Cymru yn teimlo'n gryf fod angen agwedd fwy cefnogol at wella ysgolion ac y byddai agwedd o'r fath yn fwy effeithiol o ran codi safonau.³⁵

Tystiolaeth y Gweinidog

56. Un o'r prif ddadleuon a gynigiwyd gan y Gweinidog yn y Memorandwm Esboniadol ac yn y dystiolaeth lafar ar gyfer Pennod 1 yw nad yw awdurdodau lleol yn defnyddio'r pwerau ymyrryd sydd ganddynt eisoes yn ddigon buan er mwyn mynd i'r afael â thanberfformio mewn ysgolion.

57. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, roedd Adroddiad Blynnyddol Estyn ar gyfer 2010/11 yn tynnu sylw at hyn, ac roedd hynny, yn ei dro, yn cefnogi canfyddiadau ei werthusiad yn 2009 ar effaith ymyrryd gan awdurdodau lleol a'r cymorth a roddwyd i ysgolion a oedd yn peri pryder.

58. Ynglŷn â'r pwynt hwn, dywedodd y Gweinidog:

...local authorities themselves do not always understand the process [of intervention] or feel that they have sufficient clarity over whether they should intervene. Given the challenges that we face in respect of school improvement, I think that earlier intervention by local authorities would be more helpful. The process of going through discussions with local authorities,

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO6

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO7

now that we have the school standards unit in place, demonstrates the lack of understanding that existed previously.³⁶

59. Esboniodd y Gweinidog nad oes systemau penodol ar waith ar hyn o bryd i fonitro cyhoeddi hysbysiadau rhybuddio (sef, dechrau'r broses ymyrryd fel rheol) gan awdurdodau lleol nac ychwaith y ffordd y bydd awdurdodau'n defnyddio'u pwerau i ymyrryd na'u heffeithiolrwydd. Serch hynny, aeth rhagddo i sôn am ei fwriad o adolygu'r ddeddfwriaeth bob blwyddyn i weld pa effaith y mae'n ei chael ar lawr gwlad.³⁷

60. Wrth ymateb i'r dystiolaeth y gallai ffactorau ar wahân i gymhlethdod y ddeddfwriaeth bresennol effeithio ar ymyrryd, dywedodd y Gweinidog:

I think that they are less likely to have an impact in future because of the move to reorganise school improvement services on a regional basis.³⁸

61. Aeth rhagddo i gydnabod nad yw pob awdurdod lleol mewn gwirionedd wedi herio ysgolion sy'n wynebu anawsterau gymaint ag y byddai wedi disgwyl iddynt ei wneud o dan y ddeddfwriaeth bresennol a'r cyfrifoldebau sydd ganddynt eisoes.³⁹ Unwaith eto, credai'r Gweinidog y byddai sefydlu'r consortia rhanbarthol gwella ysgolion yn mynd i'r afael â hyn.

Ein barn ni

62. Rydym yn nodi'r dystiolaeth a gafwyd am gyndynrwydd ymddangosiadol awdurdodau lleol i ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder gan ddefnyddio'r pwerau ymyrryd sydd ganddynt eisoes o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog a chynrychiolwyr llywodraeth leol mai un o'r rhesymau dros y cyndynrwydd hwn yw cymhlethdod y ddeddfwriaeth bresennol. Oherwydd hyn, rydym yn croesawu'r cam tuag at gydgrynhoi ac egluro'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch ymyrryd syddyn y Bil.

³⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 9, 9 Mai 2012

³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 109, 19 Gorffennaf 2012

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 111, 19 Gorffennaf 2012

³⁹ *ibid*

63. Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod yr awgrym y gall ffactorau eraill ar wahân i gymhlethdod y ddeddfwriaeth bresennol ddylanwadu ar benderfyniad awdurdod i ymyrryd. Rydym yn deall bod y consortia rhanbarthol gwella ysgolion, sydd i'w sefydlu'n ffurfiol cyn bo hir, yn ddatblygiad newydd, ac, felly, nid oes tystiolaeth ynglŷn â'u perfformiad yn y gorffennol inni lunio barn ynghylch hyn. Serch hynny, rydym yn cydnabod mai nod y consortia yw monitro, cefnogi a herio ysgolion er mwyn gwella perfformiad. Gyda hyn mewn golwg, ac yng ngolwg tystiolaeth y Gweinidog, rydym yn gobeithio, pan roddir y consortia hyn ar waith yn llwyr, y byddant yn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw anawsterau ehangach a allai atal awdurdodau rhag ymyrryd mewn ysgolion lle mae 'na broblemau.

Seiliau dros ymyrryd

Cefndir

64. Mae Adran 2 yn nodi'r wyth sail dros ymyrryd gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru yn y ffordd y rhedir ysgolion a gynhelir. Mae'r rhain yn disodli'r seiliau sydd yn y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion, ynghyd â chyflwyno gwelliannau. Hefyd, seilir seiliau 5 a 6 ar bwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru sydd yn Neddf Addysg 1996.

Tystiolaeth ymatebwyr

65. Roedd y farn ynghylch y seiliau dros ymyrryd (adran 2) yn amrywio. Roedd rhai ymatebwyr yn fodlon ar y seiliau ac yn awgrymu eu bod yn cynnig mwy o eglurder ynghylch yr adegau hynny pan fyddai awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru yn gallu dechrau'r broses ymyrryd.

66. Wrth sôn am y seiliau, dywedodd CLILC a CCAC:

The grounds for intervention as stated in Chapter 1, section 2 provide clarity for local authorities regarding the circumstances in which they can intervene in a school, and the amendments to the legislation which will allow local authorities to intervene in schools where the governing body fail to comply with a duty or

due to its unreasonable action, are welcomed by local authorities.⁴⁰

67. Yn yr un modd, roedd Estyn yn croesawu'r newidiadau i'r seiliau, yn benodol yn sail 1, gan ei fod yn credu ei fod o fwy o gymorth o lawer na'r fersiwn flaenorol.⁴¹

68. Credai ATL Cymru fod y seiliau'n cael eu datgan yn glir ar y cyfan a'u bod yn egluro ac yn tynhau'r ddeddfwriaeth bresennol. Serch hynny, aeth rhagddi i sôn am nifer o bryderon penodol a oedd ganddi yng nghyswllt seiliau 1 i 3.⁴²

69. Roedd rhai o undebau'r athrawon yn poeni y byddai modd dehongli'r seiliau mewn gwahanol ffyrdd ac y gallai hynny arwain at ymyrryd pan fyddai hynny'n ddiangen neu'n amhriodol.

70. Wrth sôn am hyn, dywedodd NUT Cymru:

...local authorities may intervene if performance is low when equated to pupils at comparable schools. The definition of a comparable school in the first instance is not clear. Grounds for intervention could easily be manipulated...A local authority could intervene in schools where it is inappropriate to do so based on some of the vague criteria provided.⁴³

71. Ar drywydd cysylltiedig, ac wrth sôn am sail 1, dywedodd ATL Cymru:

The statement 'the standards previously attained' should not be taken literally to require automatic intervention in school. Intervention should only take place following suitable interrogation of data taking into consideration statistical variation and anomalies which may be due to cohort.⁴⁴

⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO3

⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 188, 31 Mai 2012

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig SSO8

⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO6

⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO8

72. Ategwyd yr uchod gan NAHT Cymru ac ASCL a oedd hefyd yn amheus ynglŷn â defnyddio'r termau "in all circumstances" a "where stastically relevant".⁴⁵

73. Codwyd pryder difrifol gan nifer o undebau'r athrawon ynghylch defnyddio'r system genedlaethol ar gyfer bandio i asesu a yw sail 1 yn bodoli ai peidio. Roedd yn amlwg bod rhai undebau'n gwrthwynebu bandio'n gryf o ran egwyddor.

74. Wrth sôn am ddefnyddio data perfformiad i asesu a oes seiliau dros ymyrryd ai peidio, pwysleisiodd Estyn werth Set Ddata Graidd Cymru Gyfan o ran darparu plattform cyson ar gyfer dadansoddi data a gweld enghreifftiau posibl o danberfformio.⁴⁶

75. At hynny, awgrymodd Llywodraethwyr Cymru y byddai'n bwysig sicrhau bod yr ystod lawn o weithgareddau mewn ysgolion a anelir at wella dysgu a lles disgyblion yn cael eu hystyried wrth asesu.⁴⁷

76. O ran sail 2, dywedodd UCAC ei bod yn "beryglus o benagored" ac nad yw'n "gosod unrhyw fath o drothwy o ran y lefel o ddifrifoldeb a fyddai'n achosi ymyrraeth yn yr ysgol".⁴⁸ Ar drywydd tebyg, awgrymodd ATL Cymru fod angen mwy o eglurdeb ynghylch sut y byddai chwalfa yn y ffordd y rheolir neu y llywodraethir ysgol yn cael ei hasesu.⁴⁹

77. Roedd rhai o undebau'r athrawon yn amau a oedd yn briodol yn sail 3 ddefnyddio ymddygiad rhieni'n sail ar gyfer ymyrryd, a chofio bod hyn yn ffactor sydd y tu hwnt i reolaeth yr ysgol.⁵⁰ Hefyd, ceisiwyd eglurhad ynglŷn ag ystyr y term "rhagfarnu'n ddifrifol" yn y cyd-destun hwn, a'r meini prawf a ddefnyddid at ddiben penderfynu a oedd sail 3 yn bodoli.⁵¹

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO4 a Chofnod y Trafodion, paragraffau 50 i 56, 13 Mehefin 2012

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 199, 31 Mai 2012

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO10

⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO9

⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO8

⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO4 ac SSO8

⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO8

Tystiolaeth y Gweinidog

78. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

Mae'n rhaid pennu'r seiliau dros ymyrryd yn gwbl glir fel y gall awdurdodau lleol ymyrryd yn brydlon ac yn effeithiol. O'r herwydd bydd y Bil yn ailddatgan y seiliau ac yn gwaredu unrhyw orgymhlethdod diangen yn eu cylch.⁵²

79. Mae manylion mwy penodol ynghylch y newidiadau i'r seiliau presennol a'r rhesymwaith dros y newidiadau hynny i'w gweld yn llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor dyddiedig 24 Mai 2012.

80. Yn ei dystiolaeth lafar, esboniodd y Gweinidog y byddai disgwyl i awdurdodau lleol sylweddoli bod ysgol yn destun pryder yn sgîl adroddiadau arolygu Estyn neu wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau rheolaidd i wella ysgolion. Aeth rhagddo i bwysleisio y byddai disgwyl i awdurdodau ystyried ystod eang o ddata wrth benderfynu a oedd sail dros ymyrryd.⁵³

81. Wrth sôn am y pryderon bod y seiliau'n rhy benagored, esboniodd y Gweinidog ei fod wedi mynd ati'n fwriadol i gadw'r manylion ar gyfer y canllawiau statudol. Pwysleisiodd hefyd:

[local authorities] have to operate within a wider legal framework, where they can be challenged in the courts. So, they will want to be very clear themselves about how this will work.⁵⁴

82. Wrth ymateb i gwestiwn am y meini prawf a ddefnyddir i asesu seiliau 2, rhoddodd y Gweinidog sawl enghraifft o'r mathau o wybodaeth y byddai'n disgwyl eu gweld yn cael eu defnyddio i gyfiawnhau hysbysiad rhybuddio. Roedd y rhain yn cynnwys adroddiadau hunanwerthuso, tystiolaeth am ysgol yn llwyddo i gyrraedd targedau gwerth am arian a gallu i wella, adroddiadau estyn a thueddiadau data.⁵⁵

⁵² ME 3.17, t12

⁵³ Cofnod y Trafodion, paragraff 114, 19 Gorffennaf 2012

⁵⁴ *ibid*

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 116, 19 Gorffennaf 2012

83. Wrth ddarparu cyfiawnhad dros sail 3, esboniodd y Gweinidog fod y sail hon yn bodoli o dan y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion. At hynny, dywedodd:

A governing body clearly has a duty to maintain discipline in a school, and the local authority has the responsibility for the safety of staff and pupils. If you had a situation in which the behaviour of parents was having a detrimental effect on educational standards or was compromising safety, you would expect the local authority to intervene.⁵⁶

Ein barn ni

84. Nodwn y gwahanol safbwyntiau a fynegwyd yn y dystiolaeth ynglŷn â'r seiliau dros ymyrryd a roddir yn adran 2. Rydym yn croesawu bwriad y Gweinidog i ddileu'r amwysedd a'r dryswch sydd ynghlwm wrth y seiliau presennol gyda'r nod o sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu ymyrryd yn fuan mewn ysgolion sy'n peri pryder. Serch hynny, er ein bod yn cefnogi bwriad y Gweinidog, mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gafwyd fod dryswch hefyd ynglŷn â'r seiliau newydd, yn enwedig ynglŷn ag ystyr y termau a ddefnyddir yn y seiliau hynny, ac ynglŷn â sut y bydd awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru yn penderfynu a yw'r seiliau'n bodoli.

85. Credwn ei bod yn bwysig sicrhau bod partion budd, gan gynnwys awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a'r gymuned ysgolion ehangach, gan gynnwys disgyblion, yn llwyr ddeall y seiliau dros ymyrryd. Rydym yn cydnabod dystiolaeth y Gweinidog y caiff y manylion ynglŷn â'r seiliau eu cynnwys yn y canllawiau ac rydym yn croesawu hyn. Yn sgîl hyn, **rydym yn argymhell bod y canllawiau statudol ar gyfer ymyrryd mewn ysgolion a gyhoeddir o dan adran 20 yn pennu'r meini prawf a ddefnyddir gan awdurdodau lleol a chan Weinidogion Cymru i benderfynu a oes seiliau dros ymyrryd; yr wybodaeth a ddefnyddir er mwyn asesu'r meini prawf hynny; a sut y disgwylir i awdurdodau bwysoli'r wybodaeth honno wrth asesu.**

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 118, 19 Gorffennaf 2012

Pwerau ymyrryd awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir

Cefndir

86. Mae Pennod 1 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ymyrryd ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir. Mae'r pwerau hyn i raddau helaeth yn disodli'r pwerau sydd eisoes yn y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion ac maent yn symleiddio'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau ac i Weinidogion Cymru. Darperir pŵer newydd hefyd i awdurdodau fynnu bod corff llywodraethu'n sicrhau cyngor neu'n cydweithredu.

Tystiolaeth ymatebwyr

87. Fel y nodwyd eisoes, roedd cefnogaeth gyffredinol o blaid cydgrynhai'r pwerau ymyrryd, yn unol â darpariaethau Pennod 1.

88. Dywedodd CLILC a CCAC:

...the Bill make[s] the powers of local authorities clearer, for both the authorities and schools, and provide[s] a statutory framework which supports local authorities to fulfil their duties regarding schools causing concern.⁵⁷

89. Credai Llywodraethwyr Cymru fod cydgrynhai pwerau yn ffordd gall o fwrw ymlaen.⁵⁸

90. Ychydig o sylwadau manwl a gafwyd am y pwerau ymyrryd sydd yn adrannau 5 i 17 o'r Bil.

91. Teimlai Gwasanaeth Addysg yr Eglwys yng Nghymru y gallai'r pŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol (adran 6) danseilio rôl yr Esgobaeth o ran sicrhau bod llywodraethwyr yn cynnal cymeriad ac ethos ysgolion crefyddol eu naws.⁵⁹

92. Ar drywydd tebyg, roedd Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr poeni nad oedd yn ymddangos y byddai defnyddio pwerau ymyrryd i

⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO3

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO10

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO24

gyfarwyddo cyrff llywodraethu sydd â statws elusennau, o dan rai amgylchiadau, yn gydnaws ag ysbryd parchu annibyniaeth elusennau.⁶⁰

93. O ran rhoi cyfarwyddiadau, roedd UCAC yn poeni y byddai gan awdurdodau a Gweinidogion Cymru gymaint o bwerau i "roi cyfarwyddyd yn benodol i brifathrawon a "chymryd unrhyw gamau eraill at ddiben ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd (adrannau 9 ac 17). Roedd yn amau a oes digon o gamau diogelu ar waith i sicrhau bod y pwerau'n cael eu rhoi ar waith yn briodol a'u bod yn destun craffu digonol.⁶¹

94. O ran pŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd ynghylch ffedereiddio ysgolion (adran 15), holodd UCAC a fyddai gan ysgol yr hawl i wrthod ffedereiddio gydag ysgol a oedd yn peri pryder ac yn destun cyfarwyddyd o dan adran 15.⁶²

95. At hynny, roedd UCAC yn gwrthwynebu'r gryf bŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau (adran 16) ar y sail ei fod yn "afresymol o eithafol". Awgrymodd, unwaith y bydd bygythiad o gau mai'r hyn sy'n digwydd "yw eich bod yn dechrau cael staff yn chwilio am swyddi mewn manau eraill a rhieni yn symud eu plant i ysgolion eraill", a all beryglu safonau eto fyth. Yn hynny o beth, dywedodd UCAC:

Mae perygl, felly, y bydd Deddf o'r fath yn tanseilio gallu ysgol i godi safonau.⁶³

96. Pan ofynnwyd a yw'r pwerau ymyrryd a ddarperir ym Mhennod 1 yn briodol, dywedodd NUT Cymru:

...it would depend on the basis on which the decision [to intervene] was taken. If it was taken on the basis of data that are not entirely reliable, there is an issue there.⁶⁴

97. Wrth sôn am y pŵer newydd a ddarperir yn adran 5 i awdurdodau lleol fynnu bod cyrff llywodraethu'n sicrhau cyngor neu'n cydweithredu, dywedodd NUT Cymru:

⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO18

⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO9 a Chofnod y Trafodion, paragraff 20, 27 Mehefin 2012

⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig SSO9

⁶³ Cofnod y Trafodion, paragraff 32, 27 Mehefin 2012

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 261, 27 Mehefin 2012

Unless the Welsh Government or local government is willing to provide funds to ensure people are able to collaborate, collaboration, on any basis, will be difficult.⁶⁵

98. Gofynnodd NAHT Cymru ac ASCL am eglurhad ynglŷn ag o dan ba amgylchiadau y gall Gweinidogion Cymru roi eu pwerau ymyrryd ar waith (adran 11), gan awgrymu y dylid cyfeirio at y meini prawf y byddai'r Gweinidogion yn seilio'u penderfyniad arnynt.⁶⁶ Yn eu tystiolaeth lafar, aethant rhagddynt i awgrymu y byddent yn fodlon i'r canllawiau ymdrin â hyn.⁶⁷

99. Holodd NAHT Cymru ac ASCL a ddylai fod gan ysgolion yr hawl i apelio petaent yn credu bod awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru wedi gweithredu'n afresymol wrth roi eu pwerau ymyrryd ar waith.⁶⁸ Mynegwyd barn debyg gan Lywodraethwyr Cymru.⁶⁹

100. Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru, bwysigrwydd sicrhau bod disgyblion a rhieni'n cael gwybodaeth gyson a chyflawn, naill ai pan fyddai bygythiad o ymyrryd, neu pan fyddai ymyrryd wedi digwydd.⁷⁰

Tystiolaeth y Gweinidog

101. Yn ei lythyr at y Pwyllgor esboniodd y Gweinidog mai pwerau ymyrryd cymharol lym yn unig sydd gan awdurdodau lleol o dan y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion. Yn groes i hynny, o dan Ddeddf Addysg 1996, mae gan Weinidogion Cymru bŵer cyffredinol i roi cyfarwyddyd i gyrff llywodraethu os ydynt yn fodlon bod y corff llywodraethu wedi gweithredu, neu ei fod yn bwriadu gweithredu'n afresymol neu wedi methu â chyflawni ei ddyletswydd.

102. Aeth y Gweinidog rhagddo i esbonio y byddai awdurdodau lleol, o dan y Bil, yn cadw'u pwerau presennol ac y byddai ganddynt bwerau ychwanegol i roi cyfarwyddyd i gyrff llywodraethu, ac i fynnu bod cyrff llywodraethu'n sicrhau cyngor neu'n cydweithredu.

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 261, 27 Mehefin 2012

⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO4 a Chofnod y Trafodion, paragraffau 73 i 80, 13 Mehefin 2012

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraffau 73 i 78, 13 Mehefin 2012

⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO4

⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO10

⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO9, SSO22 ac SSO25, a Chofnod y Trafodion, paragraffau 16 i 17, 11 Gorffennaf 2012

103. Dywedodd y Gweinidog:

The addition of these new powers will allow local authorities to differentiate their responses according to circumstances, so that they do not hang back from engaging with the school until the problem becomes critical.⁷¹

104. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog:

The important thing about all of this provision is that a range of interventions may be appropriate, so we want to maintain flexibility for local authorities. When we bring together powers of intervention, people will focus on the powers of the Welsh Ministers, because they are seen as rather more draconian and centralist. However, to put it bluntly, those are backstop powers and it is pretty rare for them to be used. We are actually interested in local authorities carrying out their responsibilities.⁷²

105. Roedd tystiolaeth y Gweinidog yn ei gwneud yn amlwg nad oedd yn credu ei bod yn briodol nac yn angenrheidiol i'r Bil gynnwys hawl i ysgolion apelio.⁷³

Ein barn ni

106. Rydym yn cydnabod bod y pwerau ymyrryd ym Mhennod 1, i raddau helaeth, yn ailddatgan y pwerau sydd eisoes ar gael i awdurdodau lleol ac i Weinidogion Cymru yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac yn Neddf Addysg 1996. Rydym yn derbyn bod angen sicrhau bod gan awdurdodau a'r Gweinidogion yr ystod angenrheidiol o bwerau i'w galluogi i ymyrryd yn effeithiol mewn ysgolion sy'n peri pryder. Felly, rydym yn gyffredinol fodlon ar y pwerau ymyrryd a ddarperir.

107. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd yn y dystiolaeth ynghylch pŵer cyffredinol awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd a chymryd y camau y darperir ar eu cyfer yn adrannau 9 ac 17. Nodwn mai pŵer newydd i awdurdodau lleol yw hwn a'i fod yn estyniad ar bŵer presennol Gweinidogion Cymru o dan adrannau 496 a

⁷¹Tystiolaeth ychwanegol - llythyr gan y Gweinidog, 24 Mai 2012

⁷² Cofnod y Trafodion, paragraff 24, 9 Mai 2012

⁷³ Cofnod y Trafodion, paragraff 120, 19 Gorffennaf 2012

497 o Ddeddf Addysg 1996. Rydym yn derbyn y byddai awdurdodau a Gweinidogion yn gorfod gweithredu'n rhesymol wrth roi'r pŵer cyffredinol ar waith. Serch hynny, yn sgîl y dystiolaeth a gafwyd, **rydym yn argymhell bod y canllawiau statudol ar gyfer ymyrryd mewn ysgolion yn cynnig cyngor clir ynglŷn ag o dan ba amgylchiadau y ceir defnyddio'r pwerau hyn ac ynglŷn â pha fath o gyfarwyddyd y byddai'n briodol ac/neu yn rhesymol ei roi o dan yr amgylchiadau hynny.**

108. Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o wrthwynebiad i'r pwerau yn adran 16 i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i gau ysgol. Nodwn fod y pŵer hwn yn disodli'r pŵer sydd eisoes yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Rydym yn nodi hefyd nad yw'r pŵer i gyfarwyddo bod ysgol i gau ond yn berthnasol i sail 8, h.y. lle bydd ysgol o dan fesurau arbennig, ac felly na fyddai ond yn bosibl ei roi ar waith mewn achosion eithafol.

109. Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog mai anaml y byddai rhywun yn rhoi'r pwerau cyfarwyddo a ddarperir yn y Bil ar waith, gan gynnwys y pŵer i roi cyfarwyddyd i gau ysgol. Rydym yn cydnabod nad yw'r pŵer presennol i gyfarwyddo bod ysgol i'w chau wedi cael ei defnyddio yn y gorffennol ac rydym yn tybio na wnaiff hyn newid o dan y Bil oni fydd gwir angen. At y diben hwn, rydym yn cytuno ei bod yn rhesymol i Weinidogion Cymru gadw'r pŵer hwn ac, felly, yn fodlon ar adran 16.

Pennod 2 - Ymyrryd mewn awdurdodau lleol

Cefndir

110. Mae Pennod 2 yn egluro o dan ba amgylchiadau y caiff Gweinidogion Cymru ymyrryd yn y ffordd y mae awdurdod lleol yn rhoi ei swyddogaethau addysg ar waith ac mae'n rhoi pwerau ymyrryd i Weinidogion Cymru.

Tystiolaeth ymatebwyr

111. Ychydig o ymatebwyr a gynigiodd sylwadau am Bennod 2. Roedd y rheini a wnaeth hynny'n cefnogi'r darpariaethau'n gyffredinol.

112. Wrth groesawu Pennod 2, dywedodd CLILC a CCAC:

[it] provides local authorities with clarity regarding the circumstances in which a Welsh Minister may intervene in the education of a local authority. It is useful that existing powers have been consolidated into a single piece of legislation.⁷⁴

113. Wrth sôn am ba mor briodol oedd y pŵer i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn awdurdodau lleol, esboniodd CLILC a CCAC eu bod yn derbyn mewn egwyddor bod angen y pwerau ond aethant rhagddynt i ddweud:

...we will have a lot of interest in discussions about how the guidance will be developed. I would expect the Ministers to use these powers only in exceptional cases and not on a daily or regular basis.⁷⁵

114. Gan groesawu'r pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn awdurdodau lleol, dywedodd ATL Cymru:

The ethos of the Bill is a restorative approach to address what many judge to have been systematic under-performance in local authorities, especially in regard to their lack of challenge and support.⁷⁶

115. Gofynnodd rhai o undebau'r athrawon am eglurhad ynglŷn ag ystyr y term safon ddigonol yn sail 3 o'r seiliau ar gyfer ymyrryd (adran 21).⁷⁷ Dywedodd ATL Cymru:

The subjective description of 'an adequate standard' to define the requirement for intervention is unsuitable. To ensure transparency and clear objectivity it will be necessary for criteria to be expanded upon.⁷⁸

116. Roedd UCAC yn poeni ynglŷn â hyd a lled y pŵer o dan adran 27 a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i'r sawl a benodwyd i gyflawni swyddogaethau addysg awdurdod ac yr oedd y pŵer ymyrryd yn ymwneud â hwy, gyflawni swyddogaethau addysg eraill hefyd. Dywedodd:

⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO3

⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO3, a Chofnod y Trafodion, paragraff 288, 31 Mai 2012

⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO8

⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO4 ac SSO8

⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO8

Pryderwn fod y cymal hwn yn llawer rhy benagored o ran y grym y mae'n ei roi i Weinidogion Cymru; yn y bôn, mae'n caniatáu i'r bobl sydd wedi'u hapwyntio gan y Gweinidogion i gyflawni swyddogaethau addysg, i ymgymryd ag unrhyw agwedd o'r swyddogaethau hyn, swyddogaethau y gallent fod yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r 'seiliau dros ymyrryd' a enwyd yn yr hysbysiad [rhybuddio]. Credwn y dylai bod hyd a lled y grymoedd fod wedi'u diffinio'n gliriach.⁷⁹

Tystiolaeth y Gweinidog

117. Esboniodd y Gweinidog fod pwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru mewn awdurdodau lleol y darperir ar eu cyfer yn y Bil yn eu hanfod yn ailddatgan pwerau sydd eisoes ar gael o dan Ddeddf Addysg 1996. Dywedodd mai anaml y defnyddid y pwerau i ymyrryd mewn awdurdodau lleol ac mai pwerau rhag ofn oedd y rhain yn eu hanfod.⁸⁰

118. Datganodd y Gweinidog fod y seiliau dros ymyrryd yn adran 21 yr un fath â'r rheini y darperid ar eu cyfer yn Neddf Addysg 1996. Aeth rhagddo i esbonio y byddai'r ystod lawn o ddata ansoddol a meintiol yn cael ei defnyddio i bwysu a mesur a oedd seiliau dros ymyrryd.⁸¹

119. Wrth sôn am ystyr y term "digonol" yn sail 3, esboniodd bod y term wedi'i ddiffinio ar gyfer adroddiadau Estyn, ond ei fod hefyd wedi'i ddiffinio mewn deddfwriaeth. Dywedodd y Gweinidog:

There is an understanding that it means that an authority is not necessarily failing but is borderline in the level and quality of the service that it is giving to pupils and parents.⁸²

Ein barn ni

120. Fel sy'n wir am Bennod 1, rydym yn cydnabod bod y pwerau a restrir ym Mhennod 2 i Weinidogion Cymru ymyrryd ag awdurdodau lleol, wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau addysg, i raddau helaeth yn ailddatgan pwerau sydd eisoes ar gael o dan Ddeddf Addysg 1996. Rydym yn cydnabod bod angen sicrhau bod gan Weinidogion y pŵer i ymyrryd pan na fydd awdurdodau'n cyflawni eu swyddogaethau

⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO9

⁸⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 33, 9 Mai 2012

⁸¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 123, 19 Gorffennaf 2012

⁸² Cofnod y Trafodion, paragraff 125, 19 Gorffennaf 2012

addysg yn effeithiol. Rydym yn cydnabod dystiolaeth y Gweinidog na fwriedir i'r pwerau hyn gael eu defnyddio ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol. Felly, rydym yn gyffredinol fodlon ar y pwerau ymyrryd a ddarperir.

121. Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod y pryder a godwyd yn y dystiolaeth ynglŷn ag ystyr y term "digonol" yn y seiliau dros ymyrryd a ddarperir yn adran 21.

122. Rydym yn derbyn bod y seiliau a ddarperir yn y Bil yn disodli'r seiliau presennol sydd yn Neddf Addysg 1996 ac yn nodi awgrym y Gweinidog bod yr hyn a olygir wrth y term "digonol" yn cael ei ddeall yn gyffredinol. Serch hynny, credwn ei bod yn bwysig sicrhau bod awdurdodau lleol a phartion eraill â buddiant yn gwbl glir ynghylch hyn.

123. Felly, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog roi canllawiau ar ymyrryd gan Weinidogion Cymru mewn awdurdodau lleol, a bod y rheini'n cynnig esboniad manylach o ystyr y term "digonol" yn sail 3.

124. Rydym ninnau hefyd yn poeni am y pwynt a godwyd yn y dystiolaeth ynglŷn â hyd a lled y pŵer yn adran 27 i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd ynglŷn â rhoi unrhyw un o swyddogaethau addysg awdurdod lleol ar waith, ac nid dim ond y rheini y mae'r pwerau i ymyrryd yn berthnasol iddynt. Er ein bod yn derbyn nad yw hyn yn bŵer newydd, ac er ein bod yn cydnabod y rhesymwaith a gynigiwyd gan y Gweinidog o blaid cynnwys y pŵer hwn, credwn fod angen esboniad manylach ynglŷn ag o dan ba amgylchiadau y gellid ei ddefnyddio.

125. Rydym yn nodi'r diffyg gwybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol ynglŷn â phŵerau Gweinidogion Cymru i ymyrryd mewn awdurdodau lleol. Felly, a chyda golwg ar y dystiolaeth a gafwyd, **rydym yn argymhell diwygio'r Memorandwm Esboniadol i gynnwys esboniad cynhwysfawr am y pŵer sydd yn adran 27 i Weinidogion Cymru gyfarwyddo rhoi swyddogaethau addysg eraill ar waith, ac o dan ba fath o amgylchiadau y gellid yn rhesymol ddefnyddio'r pŵer hwnnw.**

126. Yn sgîl hyn, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog roi canllawiau i awdurdodau lleol ynglŷn ag ymyrryd gan Weinidogion Cymru mewn awdurdodau lleol, a bod y rheini'n cynnwys esbonio'r pŵer yn adran 27 ac o dan ba fath o amgylchiadau y gellid yn rhesymol ddefnyddio'r pŵer hwnnw.

Pennod 3 - Canllawiau gwella ysgolion

Cefndir

127. Mae Pennod 3 yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau gwella ysgolion i "awdurdodau ysgolion" ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau er mwyn gwella safonau addysg. Mae'n esbonio hefyd y weithdrefn y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn cyn dyroddi canllawiau gwella ysgolion, gan gynnwys ymgynghori a gosod copi ohonynt gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

128. At hynny, mae'n esbonio'r broses y mae'n rhaid i awdurdod ei dilyn os yw am wyro oddi wrth y canllawiau ac mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd iddo gydymffurfio â'r canllawiau.

Tystiolaeth ymatebwyr

129. Roedd mwyafrif y rheini a gynigiodd sylwadau'n cefnogi mewn egwyddor y canllawiau statudol ar gyfer gwella ysgolion. Rhai o'r rhesymau a roddwyd o blaid y canllawiau statudol oedd bod angen sicrhau bod yr arferion gorau o ran gwella ysgolion yn cael eu lledaenu a bod angen mynd i'r afael ag anghysonderau rhwng ysgolion o ran eu perfformiad.⁸³

130. Wrth sôn am y canllawiau gwella ysgolion, dywedodd Estyn:

We agree that it is right that the proposals focus strongly on improving the dissemination and use of best practice. Our evidence shows that many schools achieve very well and these schools can provide useful models to others of what works best. Our new inspection arrangements identify where there is excellent practice and we provide descriptions of this practice

⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO2, SSO3, SSO5, SSO10, SSO13, SSO17, SSO19, SSO23, SSO25 ac SSO26

in a new part of our website. The proposals here will complement what we are doing.⁸⁴

131. Yn ei dystiolaeth lafar, aeth Estyn rhagddo i bwysleisio bod angen rhoi sail statudol i'r canllawiau. Dywedodd:

...our recent inspection of the use of the skills framework has proved to us that non-statutory guidance is not very effective. Therefore, in principle, we are very much in favour of having guidance that is statutory.⁸⁵

132. Roedd Grŵp Addysg GL yn cefnogi cyflwyno canllawiau statudol gan ddweud:

Where standards are variable, or where adoption of particular practices would be beneficial to schools, we expect Minister's school improvement guidance to be a valuable tool.⁸⁶

133. Credai'r elusennau plant y dylai'r canllawiau gydnabod y cysylltiad rhwng tloedi a chyrrhaeddiad a rhoi sylw penodol ar wahân i hyn.⁸⁷ Awgrymodd Comisiynydd Plant Cymru y dylai'r canllawiau ystyried gwella'r canlyniadau i ddysgwyr agored i niwed.⁸⁸

134. Roedd undebau'r athrawon yn ochelgar eu safbwynt at y canllawiau statudol ar gyfer gwella ysgolion. Er nad oedd mwyafrif yr undebau'n gwrthwynebu'r canllawiau'n uniongyrchol, roedd yn amlwg bod ganddynt amheuan difrifol ynglŷn â'u rhoi ar sail statudol, ac ynglŷn â sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol.

135. Wrth ymateb ynglŷn ag a oes angen canllawiau statudol, dywedodd ATL Cymru:

...in certain circumstances, there would be a need to issue more statutory guidance to schools. Our concern would be that you could get a model where you are told that there is only one way to teach certain disciplines or areas. We think that that would impugn the integrity and professionalism of staff and would possibly not take full account of local contexts. We

⁸⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO2

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 220, 31 Mai 2012

⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO17

⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO19 ac SSO23

⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO25

would rather see a suite of measures so that you tell schools, on numeracy, for example, that certain things are proved to have worked and have raised standards in similar schools. Schools could then choose which one they think is best.⁸⁹

136. Ar drywydd tebyg, dywedodd NAHT Cymru ac ASCL:

We accept that there is an argument for preparing statutory school improvement guidance to be used in some cases.⁹⁰

137. Aethant rhagddynt i gymharu hyn â'r strategaethau llythrennedd a rhifedd cenedlaethol gorfodol yn Lloegr gan esbonio bod y dull hwn i bob golwg wedi arwain at godi safonau yn y tymor byr ond ei fod wedi arwain hefyd at ganlyniadau.⁹¹ Gan ymhelaethu ar hyn yn eu tystiolaeth lafar, dywedodd NAHT Cymru ac ASCL:

Ultimately, the fact that England concentrated so much on the strategies and pushing children through tests may have had an unfortunate effect on its Programme for International Student Assessment results. So, we want to ensure that introducing statutory guidance in schools is not a deadening thing and that it does not stop schools from continuing to make progress by using the strategies they currently have in place if they are going in the right direction.⁹²

138. Awgrymodd UCAC mai Pennod 3 ar y canllawiau gwella ysgolion oedd "adran wannaf y Bil efallai, a'r adran lle mae'r lleiaf o eglurder ynglŷn â'r bwriad." Aeth rhagddo i ddweud:

Nid yw'n glir i ni ai un set o ganllawiau fydd ynteu a fydd pob set ychydig yn wahanol i bob ysgol. Mae rhyw fath o mismatch rhwng natur y canllawiau - mae'r memorandwm yn awgrymu mai casgliad o arfer da a phethau sydd wedi gweithio mewn ysgolion eraill ydynt - a'r sail statudol. Nid yw'r ddau beth yn eistedd yn gyffyrddus iawn gyda'i gilydd.⁹³

139. Roedd NASUWT Cymru ac NUT Cymru ill dau'n herio honiad y Gweinidog yn y Memorandwm Esboniadol fod "rhai ysgolion yn gyndyn

⁸⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 48, 27 Mehefin 2012

⁹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 102, 13 Mehefin 2012

⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO4

⁹² Cofnod y Trafodion, paragraff 102, 13 Mehefin 2012

⁹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 52, 27 Mehefin 2012

o newid eu dulliau gweithredu" ac nad yw'r arferion gorau'n lledu'n ddigon cyflym.⁹⁴

140. Gwnaeth NUT Cymru hi'n glir ei fod yn cefnogi rhannu'r arferion gorau ac roedd yn cydnabod y gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar wella safonau ysgolion. Dywedodd:

...sharing best practice is always welcomed by the teaching profession. It is important to improving standards and ensuring that teachers across Wales are aware of innovative and effective teaching practices, and that those practices are made available.⁹⁵

141. Serch hynny, aeth NUT Cymru rhagddo i godi pryderon difrifol am osod canllawiau gwella ysgolion ar sail statudol. Honnodd:

...we should not be seeking to force or foist certain elements of practice upon a school in a particular area if it does not suit that school.⁹⁶

142. Pan holwyd NUT Cymru a oedd yn derbyn bod angen canllawiau statudol, dywedodd:

Significant caveats would have to be placed on it and we would want some real input into how [the guidance] would be drawn up.⁹⁷

143. Gwnaeth NASUWT Cymru hi'n glir nad oedd yn credu y dylid rhoi canllawiau gwella ysgolion ar sail statudol. Honnodd fod cael trefn bedagogaid haearnaidd yn un cam yn rhy bell.⁹⁸

144. Ni waeth am eu safbwynt ar ganllawiau statudol, pwysleisiodd ymatebwyr fod angen sicrhau eu bod yn ddigon hyblyg i ddiwallu gwahanol anghenion ysgolion. Mynegwyd yn glir hefyd yn y dystiolaeth na ddylai'r canllawiau fygu creadigrwydd ac arloesi, yn enwedig mewn ysgolion sy'n gwneud yn dda.

145. Wrth sôn am y materion uchod, dywedodd Estyn:

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO6 ac SSO7

⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO6

⁹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 296, 27 Mehefin 2012

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 308, 27 Mehefin 2012

⁹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO7

[guidance] will need to be based on recognised and effective best practice and to be flexible enough to allow any requirements to be matched to the particular needs and stage of development of a school. We agree that the proposals should allow schools with 'leading edge' practice to be able to continue to develop and innovate.⁹⁹

146. Yn yr un modd, dywedodd Llywodraethwyr Cymru:

Whilst we endorse the guidance we hope that it will not be too prescriptive and will not inhibit teachers' own creativity and innovation. The guidance will also need to be flexible to cater for future needs.¹⁰⁰

147. Roedd pryderon eraill a godwyd yn y dystiolaeth yn canolbwyntio ar sut y byddai canllawiau gwella ysgolion yn gallu ymaddasu yn sgîl datblygiadau a thueddiadau addysgol.¹⁰¹

148. Wrth gyfeirio at hyn, dywedodd y cyfreithiwr Michael Imperato:

The educational landscape changes regularly. Such guidance will need to be updated and therefore consulted upon almost as a continuous process, particularly if it is going to include technical guidance on teaching and management techniques.¹⁰²

149. Yn yr un modd, pwysleisiodd Grŵp Addysg GL:

Inherently, best practice is not static: it should be constantly evolving, with teachers learning new approaches, developing their technique, adapting to new resources and technologies, and building on current best practice in order to improve educational outcomes over time.¹⁰³

150. Ceisiodd nifer o ymatebwyr eglurhad ynghylch sut a chan bwy y byddai'r canllawiau'n cael eu llunio.

151. Wrth sôn am yr uchod, roedd Michael Imperato yn amau pa mor hawdd fyddai hi, o safbwynt ymarferol, i'r Gweinidog (a swyddogion yr Adran Addysg a Sgiliau) lunio canllawiau sydd wedi'u teilwra ar gyfer

⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO2

¹⁰⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO10

¹⁰¹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO3

¹⁰² Tystiolaeth ysgrifenedig SSO5

¹⁰³ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO17

anghenion ysgolion unigol.¹⁰⁴ Yn yr un modd, roedd yn amau rôl y Cynulliad o ran llunio'r math hwn o ganllawiau.¹⁰⁵

152. Ar drywydd tebyg, dywedodd GL Learning Group:

...the right interventions need to be decided within the specific context of its socio-economic environment, leadership, teachers and pupils. Determining the effective practice to prescribe requires in-depth knowledge of the particular circumstances of the school and its peers, and understanding of the causes of under-performance.¹⁰⁶

153. Ar yr un trywydd, holodd UCAC a oedd digon o arbenigedd a chapasiti ar gael yn yr Adran Addysg a Sgiliau i ddatblygu canllawiau effeithiol.¹⁰⁷

154. Roedd cefnogaeth gyffredinol o blaid cynnwys ymarferwyr ac arbenigwyr addysgol eraill yn fuan yn y broses wrth ddatblygu'r canllawiau.¹⁰⁸ Hefyd, roedd y rheini a oedd yn cynrychioli llywodraeth leol yn pwysleisio bod angen ymgynghori ag awdurdodau lleol ynghylch canllawiau drafft.¹⁰⁹ Yn yr un modd, dywedodd NASUWT Cymru y byddai undebau'r athrawon yn dymuno cael eu cynnwys yn yr ymgynghori.¹¹⁰ Dywedodd Grŵp Addysg GL y dylid cynnwys sefydliadau cyflenwyr adnoddau ac ymchwil wrth lunio'r canllawiau.¹¹¹ Yn olaf, gofynnodd Estyn am gael ei enwi'n ymgynghorai statudol.¹¹²

155. Roedd Michael Imperato ac UCAC ill dau'n amau pa mor gyflym y byddai canllawiau ar gael i ysgolion lle'r oedd angen ymyrryd ac ystyried y weithdrefn a bennir yn y Bil ar gyfer llunio a chymeradwyo'r canllawiau ac ar gyfer gwro oddi wrthynt.¹¹³

¹⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO5

¹⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO5 a Chofnod y Trafodion, paragraffau 175, ac 185 i 186, 13 Mehefin 2012

¹⁰⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO17

¹⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO9, a Chofnod y Trafodion, paragraff 54, 27 Mehefin 2012

¹⁰⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO17, a Chofnod y Trafodion, paragraff 63, 27 Mehefin 2012

¹⁰⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO3, SSO13 ac SSO26

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 300, 27 Mehefin 2012

¹¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO17

¹¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 220, 31 Mai 2012

¹¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO5, a Chofnod y Trafodion, paragraff 176, 13 Mehefin a Chofnod y Trafodion, paragraff 55, 27 Mehefin 2012

156. Roedd CLILC a CCAC yn croesawu'r hyblygrwydd yn adran 35, sy'n galluogi awdurdod ysgol i wyro oddi wrth y canllawiau o dan rai amgylchiadau penodol.¹¹⁴ Yn yr un modd, awgrymodd Grŵp Addysg GL fod y ddarpariaeth hon yn agwedd arbennig o werthfawr ar y Bil. Aeth rhagddo i ddweud:

...the most effective interventions are likely to be those where the school analyses the educational improvement required, tailors its response to its specific circumstances, and commits to implementing and evaluating the impact. In this way, the Minister's guidance may well be used directly, but it should also be seen as an impetus for schools to lead improvement measures. To be effective, school authorities will need the assurance that they can formulate their own policy statements, with such assurance being balanced by understanding that Ministers and Estyn will monitor for the required improvements.¹¹⁵

157. Roedd rhai o'r undebau'n gwrthwynebu'r gryf y pwerau yn adran 37 i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod ysgol i gymryd camau'n unol â'r canllawiau.

158. Dywedodd NUT Cymru:

...the idea of Welsh Ministers having the power to compel schools against their wishes, and potentially against the ethos and focus of the school, to adopt specific strategies, initiatives or methods would not be acceptable.¹¹⁶

159. Yn yr un modd, roedd NASUWT Cymru yn dweud ei fod yn amau'n ddifrifol a ddylai fod gan y Gweinidog y pwerau i fynnu bod ysgolion yn mabwysiadu agwedd benodol at addysgeg.¹¹⁷

Tystiolaeth y Gweinidog

160. Yn ei dystiolaeth lafar, gwnaeth y Gweinidog hi'n glir ei fod yn credu bod angen canllawiau statudol ar gyfer gwella ysgolion a bod galw amlwg amdanynt. Aeth rhagddo i ddweud:

¹¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig SS03

¹¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig SS017

¹¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig SS06

¹¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig SS07

There are proven techniques that have improved performance and the overall tackling and support of pupils. There are a whole series of things that we want to make available and putting it on a statutory footing will put the onus on local authorities' school improvement services and head teachers themselves to demonstrate that they are looking at this. It will also be clearer to school governors: there will be a resource to which they can turn to support their work.¹¹⁸

161. Dywedodd y Gweinidog y byddai disgwyl i awdurdodau ysgolion ("awdurdodau") fabwysiadu'r arferion gorau neu gyfiawnhau pam nad ydynt yn gwneud hynny. Serch hynny, esboniodd fod y Bil yn cynnig hyblygrwydd i awdurdodau wyro oddi wrth y canllawiau os ydynt yn gallu dangos bod ganddynt ddull amgen o wneud pethau,¹¹⁹ a'i fod yn cynnig yr hawl i awdurdodau ddewis penderfynu a fyddai'n afresymol iddynt ddilyn y canllawiau.¹²⁰

162. Gwrthododd y Gweinidog yr awgrym yn y dystiolaeth y gallai cyflwyno canllawiau statudol ddadbroffesiynoleiddio athrawon ac esboniodd fod ymarferwyr eisoes yn ymwneud ag adnabod yr arferion gorau. Dywedodd:

We are undertaking academic research in respect of the high reliability resources for publishing, we have a practitioners' panel that I have established, we have serving head teachers involved in the development of best practice, and we have located that best practice and will be publishing it on our website and it draws directly on what is going on within the classroom.

[...]

...these best practice examples are coming from the profession, they are not coming from the Minister. However, on the basis of the academic research that is available to us, we have to identify which of those practices really are leading edge

¹¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 47, 9 Mai 2012

¹¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 46, 9 Mai 2012

¹²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 59, 9 Mai 2012

and are delivering improvements within real school situations.¹²¹

163. Wrth sôn am sicrhau bod y canllawiau'n amserol, esboniodd y Gweinidog fod gwaith datblygu'r canllawiau wedi dechrau ym mis Chwefror 2011, ond mai dyma'r cyfle cyntaf i ddeddfu a oedd wedi codi i'w rhoi ar waith.¹²² Esboniodd eto fod y gwaith paratoi ar yr arferion gorau wedi dechrau, gan gynnwys cynnal digwyddiadau rhanbarthol gyda phenaethiaid.¹²³

164. O ran diweddarau'r canllawiau, esboniodd y Gweinidog y bydd yn ddyletswydd arno i sicrhau bod y canllawiau statudol yn gyfoes.¹²⁴

165. Wrth sôn am ymgynghori ar y canllawiau drafft, dywedodd y Gweinidog ei fod yn disgwyl ymgynghori ag Estyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, undebau'r athrawon, a'r panel ymarferwyr a sefydlwyd ganddo.¹²⁵ Nid oedd y Gweinidog yn credu bod angen cynnwys rhagor o fanylion ar wyneb y Bil yn y cyswllt hwn.¹²⁶

Ein barn ni

166. Nodwn fod mwyafrif y rheini a roddodd dystiolaeth yn cefnogi mewn egwyddor gyflwyno canllawiau statudol ar gyfer gwella ysgolion. Rydym yn cydnabod mai nod y canllawiau yw cyflymu'r broses gwella ysgolion ac rydym yn croesawu hyn. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog bod angen mynd i'r afael â'r ffaith bod safonau ysgolion yn amrywio ledled Cymru. Lle bydd yr arferion gorau ar waith mewn ysgolion, mae'n iawn defnyddio'r rheini er budd ehangach disgyblion, a lle bo hynny'n briodol. Felly, rydym yn gyffredinol fodlon ar y pŵer a roddir yn adran 33 i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau gwella ysgolion.

167. Rydym yn cytuno â barn yr ymatebwyr y bydd cynnwys y proffesiwn addysgu ac arbenigwyr addysgol eraill wrth lunio'r canllawiau gwella ysgolion yn allweddol er mwyn sicrhau eu llwyddiant. Mae'n amlwg, yn sgîl tystiolaeth y Gweinidog, mai dyma'i fwriad, ac rydym yn croesawu hyn. Er ein bod yn cydnabod bod adran

¹²¹ Cofnod y Trafodion, paragraffau 142 i 143, 19 Gorffennaf 2012

¹²² Cofnod y Trafodion, paragraff 149, 19 Gorffennaf 2012

¹²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 151, 19 Gorffennaf 2012

¹²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 151, 19 Gorffennaf 2012

¹²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 130, 19 Gorffennaf 2012

¹²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraffau 131 i 138, 19 Gorffennaf 2012

34 yn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ag "awdurdodau ysgolion" ynglŷn â'r canllawiau drafft, a chofio rôl ehangach Estyn, sef hybu lledu arferion da mewn addysg, credwn ei bod yn bwysig ei gynnwys a'i enwi'n ymgynghorai statudol. At y diben hwn, **rydym yn argymhell diwygio adran 34 er mwyn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â Phrif Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi (neu ag unrhyw gorff cyfatebol yn y dyfodol) ynglŷn â'r canllawiau drafft ar gyfer gwella ysgolion.**

168. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd yn y dystiolaeth ynglŷn â bod angen sicrhau bod y canllawiau'n ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau lleol. Rydym yn cydnabod tystiolaeth y Gweinidog fod adran 35 yn rhoi'r gallu i awdurdodau ysgolion wyro oddi wrth y canllawiau, ar yr amod eu bod yn cyhoeddi datganiad polisi amgen. Mae'r adran hon hefyd yn golygu nad oes yn rhaid i awdurdodau gydymffurfio â'r ddyletswydd i ddilyn y canllawiau os yw'n "afresymol" iddynt wneud hynny. Rydym yn croesawu'r hyblygrwydd a ddarperir drwy'r darpariaethau hyn.

169. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd yn y dystiolaeth am y pwerau yn adran 37 i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdod ddilyn y canllawiau. Er bod gennym rywfaint o gydymdeimlad â'r pryderon hyn, rydym yn derbyn y rhesymwaith dros gynnwys y pŵer.

5. Rhan 3 - Trefniadaeth ysgolion

Cefndir

170. Mae Rhan 3 o'r Bil:

- yn diwygio ac yn dwyn ynghyd mewn un lle y gyfraith sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion ar gyfer Cymru;
- yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi Cod newydd am Drefniadaeth Ysgolion; ac
- mae'n creu fframwaith newydd ar gyfer penderfynu ar gynigion sy'n derbyn gwrthwynebiadau, gan gynnwys sefydlu panelau penderfynu lleol a phroses symlach ar gyfer cynigion i gau ysgolion sydd â llai na deg disgybl.

Pennod 1 - Y cod trefniadaeth ysgolion

Cefndir

171. Mae'r Bennod hon yn darparu ar gyfer Cod statudol am Drefniadaeth Ysgolion ("y Cod"). Mae'n esbonio hefyd y weithdrefn y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn cyn dyroddi'r Cod, gan gynnwys ymgynghori ynghylch y Cod a gosod copi ohono gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Tystiolaeth ymatebwyr

172. Roedd y sawl a gynigiodd sylwadau'n croesawu'r Cod fel ffordd o sicrhau eglurdeb a chysondeb i bawb sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion.

173. Wrth sôn am y Cod, dywedodd Estyn:

Agreeing a comprehensive code of practice should remove much of the inconsistency and unnecessary bureaucracy from all aspects of this work.¹²⁷

174. Dywedodd CLILC a CCAC:

¹²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO2

...local government welcomed the consolidation of existing guidance into one school organisation code and also the publishing of guidance regarding consultation [on school organisation proposals]. Clear guidance in both these areas will make the process easier to administer at a local level and also simpler to understand for stakeholders involved in the process, including parents and members of the public.¹²⁸

175. Roedd ATL Cymru yn croesawu'r Cod hefyd ac yn cefnogi'r cam i esbonio a symleiddio gweithdrefnau sy'n berthnasol i drefniadaeth ysgolion.¹²⁹ Serch hynny, yn ei dystiolaeth lafar, cododd bryderon ynghylch diffyg manylion yn y Bil ynglŷn â'r Cod a'i gynnwys.¹³⁰

176. Er na chyfeiriodd Michael Imperato at y Cod yn ei gyfanrwydd, dywedodd ei bod yn hen bryd ac yn hanfodol cael canllawiau ar ymgynghori ynglŷn â chynigion trefniadaeth ysgolion, a fyddai'n rhan o'r Cod.¹³¹

177. Pwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr bwysigrwydd ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol ynglŷn â'r Cod.

178. Wrth gyfeirio at hyn, tynnodd ATL Cymru sylw at y ffaith bod angen ymgynghori'n llawn ac yn briodol gan ddweud y byddai'n disgwyl gweld ymgynghori ag undebau'r athrawon.¹³²

179. Yn yr un modd, dywedodd UCAC:

Byddem yn teimlo'n fwy cyffyrddus petai diffiniad cliriach o'r personau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â nhw ynghylch y cod. ...Mae'r cod yn mynd i fod yn ddogfen eithriadol o bwysig, a bydd mewnbwn rhanddeiliaid yn greiddiol wrth ei lunio, hoffem gael cadarnhad y bydd undebau'r athrawon ar y rhestr o ymgynghoreion.¹³³

180. Yn gysylltiedig â'r uchod, pwysleisiodd Michael Imperato fod angen i'r Gweinidog ymgynghori'n ehangach ar y Cod drafft a mynd

¹²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig SS03

¹²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SS08

¹³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 27 Mehefin 2012

¹³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig SS05, a Chofnod y Trafodion, paragraff 195, 13 Mehefin 2012

¹³² Tystiolaeth ysgrifenedig SS08

¹³³ Tystiolaeth ysgrifenedig SS09

ati'n frwd i geisio barn grwpiau ac unigolion sydd â phrofiad uniongyrchol o gynigion trefniadaeth ysgolion.¹³⁴

181. Galwodd Comisiynydd Plant Cymru am gael nodi hawliau plant yn glir wrth ddatblygu'r Cod. Aeth rhagddo i sôn ei fod yn poeni bod awgrymiadau anecdotaidd cychwynol wedi dangos bod ymgynghori â phlant a phobl ifanc ynglŷn â chynigion ar gyfer trefniadaeth ysgolion wedi bod yn anghyson, a theimlai fod y Cod yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â hyn.¹³⁵

Tystiolaeth y Gweinidog

182. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro y bydd y Cod yn "ymdrin ag ymgynghori a threfniadau eraill, [ynglŷn â chynigion trefniadaeth ysgolion] a hwnnw'n seiliedig ar yr arfer gorau." Mae'n mynd rhagddo i ddweud:

Mantais llunio Cod yw y byddai dogfen o'r fath yn gallu esbonio'r gyfraith yn glir, gan wneud hynny mewn ffordd a fyddai'n hwylus i'r hyrwyddwyr ac i'r cyhoedd, gan hybu dealltwriaeth a hyrwyddo cydymffurfiaeth. Bydd yn gosod safonau ar gyfer gweithdrefnau a byddai gofyn cydymffurfio â'r rheini. Ar hyn o bryd, dim ond "ystyried" y canllawiau statudol y mae'n rhaid i hyrwyddwyr ei wneud. Byddai cyflwyno Cod y byddai'n rhaid i hyrwyddwyr gydymffurfio ag ef yn ffordd fwy grymus o sicrhau bod hyrwyddwyr yn dilyn y gweithdrefnau cywir.¹³⁶

183. Yn ei dystiolaeth lafar, esboniodd y Gweinidog fod y Cod yn adeiladu ar y canllawiau trefniadaeth ysgolion presennol ac y bydd yn pennu sut y bydd y panelau dyfarnu lleol yn gweithio.¹³⁷

184. Mewn tystiolaeth atodol i'r Pwyllgor, mae'r Gweinidog yn sôn am rywfaint o gynnwys disgwylidig y Cod, gan gynnwys gofynion ymgynghori y bydd gofyn i'r rheini sy'n cyflwyno cynigion yn gorfod

¹³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO5, a Chofnod y Trafodion, paragraff 199, 13 Mehefin 2012

¹³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO25

¹³⁶ ME 3.55, tudalennau 19 i 20

¹³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 61, 9 Mai 2012

cydymffurfio â hwy, a'r gofynion sy'n berthnasol i weithrediad y panelau dyfarnu lleol.¹³⁸

Ein barn ni

185. Nodwn y gefnogaeth yn y dystiolaeth o blaid Cod statudol ar drefniadaeth ysgolion ac, felly, rydym yn fodlon ar adran 38. Rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am gyflwyno rhai o'r materion y mae'n bwriadu rhoi sylw iddynt yn y Cod drafft ac yn croesawu ei ymrwymiad i sicrhau bod y Cod drafft ar gael i'r Pwyllgor cyn i drafodion Cam 2 y Bil fynd rhagddynt.

186. Rydym yn cydnabod y gofyniad yn adran 39 ar i Weinidogion Cymru ymgynghori â phwy bynnag ag y gwelont yn dda ynglŷn â'r Cod drafft. Rydym yn cytuno â barn yr ymatebwyr ynglŷn â phwysigrwydd ymgynghori'n llawn ac mewn ffordd ystyrlon ynglŷn â'r Cod. Felly, **rydym yn argymhell diwygio adran 39 i gynnwys rhagor o fanylion am y mathau o bobl y dylid ymgynghori â hwy ynglŷn â 'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, boed hynny yn y fersiwn ddrafft ynteu yn y fersiwn ddiwygiedig.** At hyn, nodwn fod drafft cyntaf y drafft wrthi'n cael ei baratoi ac rydym yn ceisio sicrwydd gan y Gweinidog bod pob parti perthnasol wedi cael ei gynnwys yn ystod camau cyntaf ei baratoi.

Pennod 2 - Cynigion trefniadaeth ysgolion

Cefndir

187. Mae Pennod 2 yn ymwneud â chynigion trefniadaeth ysgolion Mae'n creu trefniadau newydd ar gyfer penderfynu ynglŷn â chynigion, sy'n cynnwys categoreddio gwrthwynebwyr a sefydlu panelau dyfarnu lleol, ac mae'n darparu proses fyrrach ar gyfer penderfynu ynglŷn â chynigion i gau "ysgolion bach".

Tystiolaeth ymatebwyr

188. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gynigiodd sylwadau o blaid newid y trefniadau presennol ar gyfer penderfynu ynglŷn â chynigion trefniadaeth ysgolion ac roeddent yn cefnogi'r nod o sicrhau, lle bo modd, bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar lefel leol.

¹³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig - gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog, 21 Awst 2012

189. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Estyn:

The school organisation provisions in this Bill correctly address many of the current obstacles to efficient practice in school organisation.¹³⁹

190. Yn yr un modd, a chan sôn am y darpariaethau trefniadaeth ysgolion, dywedodd CLIL a CCAC:

[it] responds positively to many concerns that have been voiced by local authorities regarding the current system of school organisation. The aim of the Bill is to simplify and shorten the process for school organisation and this principle is supported by the WLGA and ADEW. There is also widespread support in local government for ensuring that the responsibility for planning and provision of school places rests with the local authority and that in the vast majority of cases decisions regarding school organisation should be made at a local level.¹⁴⁰

191. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, NAHT Cymru, ASCL ac UCAC i gyd yn cefnogi'n gyffredinol y cam i egluro a symleiddio gweithdrefnau yng nghyswllt cynigion trefniadaeth ysgolion.

192. Yn groes i hynny, roedd NASUWT Cymru a Michael Imperato yn gryf o blaid cadw'r trefniadau presennol ar gyfer penderfynu ynglŷn â chynigion trefniadaeth ysgolion.

193. Wrth sôn am y trefniadau presennol, dywedodd NASUWT Cymru eu bod yn:

...provide a structure that is democratic, affords sufficient time for schools, governing bodies, local communities and other interested parties to consider carefully any such proposals and to formulate detailed responses, and allows sufficient time for the proper consideration of proposals and objections by those charged with making decisions.¹⁴¹

¹³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SS02

¹⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig SS03

¹⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig SS07

194. Credai Michael Imperato fod disodli'r trefniadau presennol â'r rheini y darperir ar eu cyfer yn y Bil yn gynnig diffygiol iawn.¹⁴² Aeth rhagddo i holi:

Why introduce a quasi legal process to replace a distinct and easily manageable administrative process?¹⁴³

195. Ni waeth beth oedd eu safbwynt cyffredinol at Bennod 2, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn mynegi pryder ynglŷn â'r categorïau o wrthwynebwyr, y panelau dyfarnu lleol a'r gweithdrefnau ar gyfer cau ysgolion bach, neu'n ceisio cadarnhad yn eu cylch. Rhoddir sylw mwy manwl i'r rhain yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Tystiolaeth y Gweinidog

196. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

Mae angen i ymyrraeth lwyddiannus mewn ysgolion a chanllawiau statudol sy'n ceisio gwella safonau gael eu hategu gan systemau priodol sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion. Mae angen i'r broses gyfredol o benderfynu ynghylch cynigion yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion gael ei diwygio fel bod y systemau hynny'n cael eu llunio a'u penderfynu ar lefel leol.¹⁴⁴

197. Dywed y Gweinidog mai un o'r prif feirniadaethau ar y system bresennol yw bod un gwrthwynebydd nad oes ganddo fuddiant uniongyrchol o gwbl yn yr ysgol yn gallu achosi i'r cynnig gael ei gyfeirio at Weinidogion Cymru er mwyn cael penderfyniad.

198. Dywedodd:

At the present time, around 50% of school organisation decisions come to Ministers for determination. I do not think that the system was ever intended to be like that...this introduced significant delay to the system...

[...]

¹⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig SS05

¹⁴³ *ibid*

¹⁴⁴ ME 3.40, t17

It is better, bluntly, for the locality when that happens. There is less uncertainty and more clarity in the system, and people can move on quickly to whatever the new for of organisation is.¹⁴⁵

199. Gan bwysleisio eto bod angen diwygio'r system drefniadaeth ysgolion bresennol, dywedodd y Gweinidog:

...surplus places in schools are costing local authorities money...Every surplus place in a school is a tax on the head of pupils within the system, and that needs to be recognised. Indeed, we are heading towards 20% surplus places in certain areas, so there are significant challenges that must be addressed by most local authorities...¹⁴⁶

200. Yn olaf, gan sôn am y ffordd newydd o benderfynu ynglŷn â chynigion trefniadaeth ysgolion y darperir ar eu cyfer yn y Bil, esboniodd y Gweinidog:

What we are trying to do is to put in place a determination process that allows these decisions to be taken locally, that recognises that there are different categories of objector that may have issues to raise, and that we need to ensure effective local discussion of proposals such as this. Is what we are proposing perfect? No. However, we have an existing situation that is clearly imperfect and we are trying to rectify that.¹⁴⁷

Categoriâu o wrthwynebwyr

Cefndir

201. Mae Adran 50 yn golygu y caiff unrhyw berson wrthwynebu cynnig, ond p'un a yw person yn dod o fewn un o'r tri chategori o wrthwynebwyr, (a nodir yn adran 51), ai peidio, a fydd yn pennu ai Gweinidog Cymru, panel dyfarnu lleol, ynteu'r cynigydd a fydd yn penderfynu ynglŷn â'r cynnig.

¹⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraffau 66 i 67, 9 Mai 2012

¹⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 65, 9 Mai 2012

¹⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 79, 9 Mai 2012

Tystiolaeth ymatebwyr

202. Roedd y rheini a gynigiodd sylwadau am gategoreiddio gwrthwynebwy'r ar y cyfan yn cefnogi'r dull a gynigiwyd. Gwelwyd hyn yn ddewis amgen da yn lle'r trefniadau presennol lle y byddai un gwrthwynebiad yn achosi i'r cynnig trefniadaeth ysgolion gael ei gyfeirio at y Gweinidog am benderfyniad.

203. Esboniodd CLILC a CCAC fod nifer o achlysuron wedi bod o dan y trefniadau presennol lle'r oedd gwrthwynebiadau gan unigolyn nad oedd ganddo fuddiant uniongyrchol yn y cynnig trefniadaeth ysgolion wedi sbarduno atgyfeirio'r achos i'r Gweinidog, gan achosi oedi a phryder ac anniddigrwydd mewn cymunedau lleol.¹⁴⁸

204. Wrth sôn am y mater uchod, dywedodd ATL:

We are content with the categorisation outlined in the Bill. All too often school reorganisation proposals have been thwarted or seriously delayed by objectors with motives other than those concerned with children's education.¹⁴⁹

205. Mynegwyd barn debyg gan NAHT Cymru ac ASCL yn eu tystiolaeth lafar a chan Adran Addysg Dinas a Sir Abertawe.¹⁵⁰

206. Wrth sôn am y sefyllfa bresennol, lle bydd un gwrthwynebiad yn gallu sbarduno cyfeirio cynnig at y Gweinidog, dywedodd Michael Imperato:

I agree that it does, on the face of it, seem absurd that one person, potentially with no link to the school, can be able to trigger a conflict process.¹⁵¹

207. Yn hynny o beth, roedd yn tueddu i gytuno â'r cynigion ynglŷn â chategoreiddio gwrthwynebwy'r.¹⁵²

208. Yn groes i farn yr ymatebwyr a roddir uchod, roedd NASUWT Cymru yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw ddarpariaeth a fyddai'n rhoi

¹⁴⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 335, 31 Mai 2012

¹⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO8

¹⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO27

¹⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO5

¹⁵² *ibid*

mwy o hawliau i rai gwrthwynebwy'r nag i eraill, a mwy o bwys ar eu barn.¹⁵³

209. Er bod cefnogaeth gyffredinol yn y dystiolaeth o blaid defnyddio categorïau o wrthwynebwy'r, roedd nifer o ymatebwy'r yn amau'r pwysoli a roddid i grwpiau penodol o wrthwynebwy'r neu'n awgrymu newidiadau i'r categorïau hynny.

210. Teimlai NUT Cymru ac NASUWT Cymru yn gryf y dylid rhoi'r un pwys i wrthwynebiadau gan staff a rhieni ag a roddid i wrthwynebiadau gan gyrrff llywodraethu neu gynghorau ysgol.¹⁵⁴

211. Codwyd rhywfaint o bryder am briodoldeb y trothwy ar gyfer gwrthwynebwy'r categori 3, yn enwedig o ran disgyblion a rhieni. Yn y cyswllt hwn, awgrymodd NUT Cymru y dylid ystyried gwneud y trothwyon yn gymesur â maint yr ysgol.¹⁵⁵

212. Yn gysylltiedig â'r uchod, roedd Comisiynydd Plant Cymru yn croesawu cynnwys cynghorau ysgol yn wrthwynebydd categori 2 ond roedd yn poeni bod disgyblion presennol neu ddarpar ddisgyblion yn cael eu cynnwys yng nghategori 3 ac y byddai felly gofyn cael 10 gwrthwynebydd cyn y gellid cyfeirio'r cynnig at Banel Dyfarnu Lleol i geisio'i gymeradwyaeth. Dywedodd:

For those who may not be involved with the school council but have strong opinions and are affected by the proposals, mobilising a group of peers may be difficult.¹⁵⁶

213. Roedd UCAC yn poeni, o dan adran 53(b) na fyddai deiseb ond yn cyfrif fel un gwrthwynebiad at ddiben cyfrifo a oes gwrthwynebiad wedi dod gan 10 neu fwy o wrthwynebwy'r categori 3.¹⁵⁷

Tystiolaeth y Gweinidog

214. Gan sôn am gategoreiddio gwrthwynebwy'r, eglurodd y Gweinidog:

¹⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig SS07

¹⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig SS06 ac SS07

¹⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig SS06

¹⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig SS025

¹⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig SS09

What we are trying to do in this legislation is to establish a situation whereby we give appropriate weighting to different categories of objector. Clearly, if people are going to object, that is fair enough, but there also need to be some balance – that is, is there really substantial local support for that objection?¹⁵⁸

215. Cafwyd rhagor o eglurhad gan y Gweinidog am y categorïau ac fe ddywedodd:

...if there were objections from those that we have identified as category 1 objectors, they would trigger a reference of the particular proposal to the Minister. That category is fairly easy to understand. These are objections that would come from outside an existing local area, so would signify a concern that is likely to be beyond that of one local authority...

In respect of categories 2 and 3, objectors in category 2 would trigger immediately a reference to the local determination panel. In the case of category 3, there would need to be 10 objectors for a reference to the local determination panel. We are right in the level of weight that we are giving here. We have to recognise that the LDP process should be triggered when there is a genuine level of local concern. That is what we are trying to signify here through the determination of particular categories.¹⁵⁹

216. O ran bod angen 10 gwrthwynebydd yng nghategori 3 i sbarduno cyfeirio'r achos at Banel Dyfarnu Lleol, gwnaeth y Gweinidog hi'n glir nad oedd yn meddwl bod hynny'n faich arbennig o drwm.¹⁶⁰

Panelau dyfarnu lleol

Cefndir

217. Mae Adran 53 yn golygu y caiff awdurdod lleol benodi panel dyfarnu lleol i benderfynu ynglŷn â chynigion lle nad oes dim gwrthwynebwyr categori 1, pan fydd o leiaf un gwrthwynebydd categori 2 a/neu o leiaf ddeg gwrthwynebydd categori 3. Mae Atodlen

¹⁵⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 79, 9 Mai 2012

¹⁵⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 156, 19 Gorffennaf 2012

¹⁶⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 159, 19 Gorffennaf 2012

5 yn cynnig fframwaith ar gyfer aelodaeth a gweithdrefnau'r panelau dyfarnu lleol ac ynglŷn â materion perthnasol eraill.

Tystiolaeth ymatebwyr

218. Roedd y gefnogaeth o blaid cyflwyno panelau dyfarnu lleol i benderfynu ynglŷn â chynigion ad-drefnu ysgolion yn amrywio. Ar y cyfan, roedd y rheini a gynigiodd sylwadau'n cefnogi defnyddio panelau dyfarnu lleol mewn egwyddor fel dull amgen yn lle'r trefniadau presennol, ond, roedd ganddynt amheuan difrifol.

219. Awgrymodd CLILC a CCAC fod defnyddio Panelau Dyfarnu Lleol yn well na chyfeirio achosion yn awtomatig at Weinidogion Cymru neu greu dyfarnwr ysgolion.¹⁶¹ Dywedasant:

We recognise that we need some kind of independent process of arbitration, and this is as good as we can get while recognising that there are potential flaws there.¹⁶²

220. Roedd Llywodraethwyr Cymru yn awgrymu bod defnyddio panelau dyfarnu lleol yn ddull call, ond aethant yn eu blaen i sôn am eu pryderon ynglŷn ag annibyniaeth y panelau hynny.¹⁶³

221. Roedd tystiolaeth Estyn ac UCAC yn awgrymu eu bod yn cefnogi'r panelau dyfarnu lleol mewn egwyddor, ond roedd y ddau'n poeni am gyfansoddiad a gweithrediad y panelau, neu roeddent yn gofyn am eglurhad ynghylch hynny.¹⁶⁴

222. Y brif ystyriaeth i'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr gan gynnwys NAHT Cymru ac ASCL, UCAC, Llywodraethwyr Cymru a Barnardo's Cymru oedd bod angen i'r panelau dyfarnu lleol fod yn annibynnol ar awdurdodau lleol a'u bod yn gallu gwneud penderfyniadau diduedd a fyddai'n gallu gwrthsefyll craffu cyhoeddus.

223. Yn gysylltiedig â mater annibyniaeth, codwyd pryder difrifol am y diffyg manylion ynglŷn â'r panelau dyfarnu lleol, yn enwedig am sut y byddai aelodau'r panel yn cael eu dethol a'u penodi ac am

¹⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO3

¹⁶² Cofnod y Trafodion, paragraff 327, 31 Mai 2012

¹⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO10

¹⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO2, a Chofnod y Trafodion, paragraff 238, 31 Mai 2012, a Thystiolaeth ysgrifenedig SSO9

gyfansoddiad y panelau a sut y byddent yn debygol o weithredu'n ymarferol.

224. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Estyn:

There needs to be clearer regulation in relation to the make-up and work of the panels. This will help to create credibility in relation to the objectivity and consistency of their decision making.¹⁶⁵

225. Yn yr un modd, dywedodd Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:

...there is need for clearer guidance surrounding Terms of Reference, appointments, membership, remit, decision making and accountability of this Panel.¹⁶⁶

226. Yn olaf, dywedodd Adran Addysg Dinas a Sir Abertawe:

...there is clearly a need for more clarity on the proposed make up of a local determination panel as this surely should not be a 'political' panel involving Councillors.¹⁶⁷

227. Y cyfan yr oedd rhai ymatebwyr yn ei geisio oedd eglurhad am y materion y cyfeiriwyd atynt uchod. Roedd eraill yn awgrymu y dylid darparu rhagor o fanylion yn y canllawiau (neu yn yr achos hwn, yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion). Serch hynny, dywedodd ATL Cymru:

We believe strongly that the Bill should include clear provisions on: how these panels will be set up; who is and is not eligible to sit on them; the limits of their jurisdiction; and crucially, their method of selection.¹⁶⁸

228. Awgrymodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Llywodraethwyr Cymru ac ASCL y gellid tynnu aelodau'r panelau o blith consortia rhanbarthol, ac y byddai hynny'n fodd o helpu i fynd i'r afael â phryderon ynglŷn ag annibyniaeth.¹⁶⁹

¹⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO2

¹⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO13

¹⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO27

¹⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO8

¹⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO10, a Chofnod y Trafodion, paragraff 129, 13 Mehefin 2012

229. Gan sôn am y mater uchod, credai ATL Cymru y byddai dull consortia'n gweithio mewn egwyddor. Aeth rhagddo i esbonio:

The problem...about very local areas is that people get caught up in being either for or against proposals. If you have a broader perspective, which would come from within a consortium, that would give you perhaps more of a balanced view. So, there could well be a role for the consortia there.¹⁷⁰

230. Roedd Michael Imperato yn gryf ei wrthwynebiad i ddefnyddio panelau dyfarnu lleol, ac, fel y crybwyllwyd eisoes, dadleuai y dylid cadw at y trefniadau presennol ar gyfer ymdrin â gwrthwynebiadau. Fel ymatebwyr eraill, roedd yn poeni am annibyniaeth y panelau dyfarnu lleol a dywedodd:

Any kind of administrative or legal process which seeks to resolve challenges between persons or organisations has to be seen to be fair and independent. This can never be the case with an LDP.

[...]

There is an inherent contradiction in seeking to have an independent decision-making panel whilst at the same time; such panel is close to the local decision...It's going to be virtually impossible to find an able person, with knowledge of the education system, in the immediate locality to sit on the LDP without some sort of link to the school in question or the LEA.¹⁷¹

231. Roedd hefyd yn amau a fyddai'r lefel angenrheidiol o gymorth ac arbenigedd ar gael i'r panelau dyfarnu lleol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol a bod eu penderfyniadau gallu gwrthsefyll craffu.

232. Mater arall a oedd yn gysylltiedig â hyn oedd bod Michael Imperato yn credu y byddai'r panelau dyfarnu lleol yn anochel yn arwain at nifer fwy o heriau ar ffurf adolygiad barnwrol nag sy'n digwydd o dan y trefniadau presennol. Dywedodd:

¹⁷⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 90, 27 Mehefin 2012

¹⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO5

There will be lots of fertile ground for challenges, on the composition of the panel, on how it runs a case, and on its decision letter.¹⁷²

233. Yn olaf, gwrthododd Michael Imperato awgrym y Gweinidog y byddai'r panelau dyfarnu lleol yn arwain at benderfyniadau cyflymach ac yn arbed costau. Yn groes i hynny, awgrymodd fod y costau'n debygol o fod yn uwch wrth ddefnyddio'r panelau dyfarnu lleol. Rhoddir sylw i gostau'r panelau'n ddiweddarach ym Mhennod 9 o'r adroddiad.¹⁷³

234. Roedd NASUWT Cymru yn gwrthwynebu defnyddio Panelau Dyfarnu Lleol ar y sail eu bod yn annemocrataidd.¹⁷⁴

235. Awgrymodd Barnardo's Cymru ac NASUWT Cymru ill dau y dylai'r Bil ddarparu ar gyfer mecanwaith apelio er mwyn i bobl allu apelio yn erbyn penderfyniad panel dyfarnu lleol cyn herio'r drefn ar ffurf adolygiad barnwrol.¹⁷⁵

236. Roedd NUT Cymru'n gwrthwynebu'n gryf y ddarpariaeth o dan adran 55 a oedd yn galluogi cynigwyr i benderfynu ynglŷn â chynigion nad oedd gofyn i Weinidogion Cymru neu Banelau Dyfarnu Lleol eu cymeradwyo. Roedd yn poeni am allu cynigwyr i wneud penderfyniadau diduedd ac aeth rhagddo i awgrymu y dylai Gweinidogion Cymru, neu'r panel penderfynu annibynnol lleol, archwilio'r sail dros bob gwrthwynebiad.¹⁷⁶

Tystiolaeth y Gweinidog

237. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro y bydd Panelau Dyfarnu Lleol "yn cynnwys pum person a fydd naill ai'n aelodau o'r awdurdod lleol a heb gysylltiad blaenorol â'r cynnig, neu'n bersonau lleyg annibynnol." Mae'n mynd rhagddo i ddweud:

Y panel dyfarnu lleol, yn unol â'r Cod, fyddai'n penderfynu a ddylid caniatáu i'r cynnig fynd rhagddo neu beidio â chyhoeddi ar ba sail y gwnaeth ei benderfyniad. Byddent yn lefel

¹⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig SSO5

¹⁷³ *ibid*

¹⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraffau 313 a 316, 27 Mehefin 2012

¹⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO22, a Chofnod y Trafodion, paragraff 327, 27 Mehefin 2012

¹⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO6

ychwanegol o graffu ar lefel leol gan unigolion a fyddai'n gyfarwydd â'r amodau lleol.¹⁷⁷

238. Gan ymateb i'r pryderon a godwyd yn y dystiolaeth am y panelau dyfarnu lleol, dywedodd y Gweinidog:

Our overwhelming desire here is that, where decisions are genuinely local, they should be taken at a local level. However, let me say that this is not a tribunal process like an employment tribunal. This is not a process like a public inquiry on a planning appeal. This is a determination process, and the process that will be followed by the local determination panel will be the same, in a sense, as would be followed by me if I were making the determination. The papers will come to that panel, which will consider the papers and make a decision on the basis of those.¹⁷⁸

239. O ran annibyniaeth y panelau dyfarnu lleol, dywedodd y Gweinidog:

We want these to be independent; there will be officers within local authorities already who have legal responsibility for ensuring that persons who have conflicts of interest are not appointed to such panels. I have heard the evidence given to you by a number of people including a prominent lawyer in the field, but I do not share their concerns.¹⁷⁹

240. Esboniodd hefyd y bydd yn egluro manylion y broses benodi [ar gyfer aelodau'r panelau] mewn canllawiau statudol.¹⁸⁰

241. Yn ei dystiolaeth atodol i'r Pwyllgor, soniodd y Gweinidog am y materion y mae'n bwriadu rhoi sylw iddynt yn y Cod drafft am Drefniadaeth Ysgolion, yn benodol yng nghyswllt sut y bydd y panelau penderfynu lleol yn gweithio. Mae'r materion hyn yn cynnwys recriwtio ar gyfer y Panelau a'u cyfansoddiad, hyfforddi aelodau'r Panelau,

¹⁷⁷ ME 3.55, t20

¹⁷⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 162, 19 Gorffennaf 2012

¹⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 162, 19 Gorffennaf 2012

¹⁸⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 168, 19 Gorffennaf 2012

Clercod i'r Panelau a chyngor cyfreithiol, ynghyd â'r dystiolaeth y caiff y Panelau ei hystyried.¹⁸¹

242. O ran tynnu aelodau'r panelau o'r consortia rhanbarthol, dywedodd y Gweinidog:

Under what we are proposing, local authorities could work with others in their regional consortia, for example, to determine the membership of local determination panels. That is entirely open to them to do.¹⁸²

243. At hynny, esboniodd mai ei fwriad oedd cynnwys yn y Cod drafft yr awgrym y gallai awdurdodau lleol gydweithredu er mwyn datblygu cronfeydd rhanbarthol ar y cyd, ond y dylent, ar yr un pryd, geisio sicrhau bod gan rai aelodau, o leiaf, wybodaeth leol benodol.¹⁸³

244. Gwnaeth y Gweinidog hi'n glir nad oedd yn credu bod cael mecanwaith apelio ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad gan Banel Dyfarnu Lleol nac yn briodol nac yn angenrheidiol.¹⁸⁴

Cynigion i gau "ysgolion bach"

Cefndir

245. Mae Pennod 2 yn cynnig proses fyrrach ar gyfer cau "ysgolion bach" (y rheini lle mae llai na 10 disgybl wedi'u cofrestru) heb fod gofyn ymgynghori cyn cyhoeddi hysbysiadau statudol, ac, ni waeth a ddaw gwrthwynebiad neu beidio, y cynigydd a fydd yn penderfynu ynghylch y cynnig.

Tystiolaeth ymatebwyr

246. Ychydig o sylwadau a gafwyd am y weithdrefn ar gyfer ymdrin â chynigion i gau ysgolion bach. Roedd y rheini a gynigiodd sylwadau, i bob golwg, yn derbyn y rhesymwaith ond nid oeddent o reidrwydd yn mynd cyn belled â chefnogi'r darpariaethau.

¹⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog, 21 Awst 2012 - y Cod Trefniadaeth Ysgolion

¹⁸² Cofnod y Trafodion, paragraff 195, 19 Gorffennaf 2012

¹⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog, 21 Awst 2012 - y Cod Trefniadaeth Ysgolion

¹⁸⁴ Cofnod y Trafodion, paragraffau 164 i 168, 19 Gorffennaf 2012

247. Roedd CLILC a CCAC yn amlwg yn cefnogi'r darpariaethau ynglŷn â chau ysgolion bach a'u hawgrym oedd y byddai hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau call ynghylch hyfywedd ysgolion bychain iawn.¹⁸⁵

248. Roedd Michael Imperato yn poeni y gellid gweld y cynigion yn rhai a oedd yn llyffetheirio dewis, ac y gallai hyn fod yn sail ar gyfer her ar ffurf adolygiad barnwrol. Yn ei dystiolaeth lafar, aeth rhagddo i esbonio:

...if you are grouping all small schools by a threshold...you are then not allowing due credence to those kinds of individual quirks or particular points. That is the danger of any threshold point.¹⁸⁶

249. Roedd NUT Cymru yn teimlo y dylai penderfyniadau gan gynigwyr i gau ysgolion bach gael eu gwneud o fewn y cyd-destun ehangach ac na ddylent ddibynnu'n unig ar nifer y disgyblion a oedd ar y gofrestr. Dywedodd:

No school should be closed without an examination of the implications of doing so. This proposal essentially gives guidance to proposers to close schools with fewer than 10 pupils irrespective of the reasons behind that number. It could be that a school has this amount of children because travelling to a different school is unfeasible. The socio-geographic nature of the school must also be considered, not just a decision by headcount. It is also important to look at the potential for growth at the school.¹⁸⁷

250. Yn gysylltiedig â'r uchod, awgrymodd NASUWT Cymru y dylid asesu effaith cynigion ar gydraddoldeb a'u hasesu ar sail buddiannau'r gymuned.¹⁸⁸

251. At hynny, roedd NUT Cymru yn amau a oedd cynigwyr yn debygol o ymdrin â gwrthwynebiadau mewn ffordd ddiduedd wrth iddynt benderfynu ynglŷn â'u cynigion hwy eu hunain i gau ysgolion bach. Yn

¹⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO3

¹⁸⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 263, 13 Mehefin 2012

¹⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO6

¹⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO7

hynny o beth, awgrymodd y byddai hyn yn golygu na fyddai gwrthwynebu o unrhyw fudd.¹⁸⁹

Tystiolaeth y Gweinidog

252. Wrth sôn am y broses ar gyfer cau "ysgolion bach", dywedodd y Gweinidog:

We have to have a mechanism that enables decisions to be taken more swiftly.¹⁹⁰

253. Roedd yn amlwg o dystiolaeth y Gweinidog nad oedd yn credu bod "ysgolion bach" yn hyfyw.¹⁹¹

Ein barn ni

254. Rydym yn cydnabod bod y dystiolaeth o blaid diwygio'r trefniadau presennol ar gyfer penderfynu ynglŷn â chynigion trefniadaeth ysgolion. Nodwn y rhesymwaith a gynigiwyd gan y Gweinidog dros y diwygio hwn, gan gynnwys aneffeithlonrwydd y system bresennol sy'n gallu creu ansicrwydd i ddisgyblion, i rieni ac i staff. Yn hynny o beth, rydym yn derbyn bod angen diwygio.

255. Fel llawer o'r rheini a roddodd dystiolaeth, credwn ei bod yn amhriodol i un gwrthwynebydd nad oes ganddo fuddiant uniongyrchol mewn cynnig, achosi iddo gael ei gyfeirio at Weinidogion Cymru. Felly, rydym yn croesawu'r cam i fynd i'r afael â'r mater hwn drwy gyfrwng Pennod 2.

256. Rydym yn cydnabod y gefnogaeth gyffredinol yn y dystiolaeth o blaid categoreiddio gwrthwynebwyd fel dewis amgen hyfyw yn lle'r system bresennol lle ceir gwrthwynebwyd unigol. Rydym yn derbyn y rhesymwaith a gynigiwyd gan y Gweinidog o blaid categoreiddio gwrthwynebwyd ac yn cytuno bod mynd ati fel hyn yn briodol ac yn rhesymol. At y diben hwn, rydym yn gyffredinol fodlon ar adrannau 50 a 51.

257. Nodwn y dystiolaeth a gafwyd a oedd yn amau'r pwysoli a roddwyd i grwpiau penodol o wrthwynebwyd ac a oedd yn awgrymu

¹⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SS06

¹⁹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 205, 19 Gorffennaf 2012

¹⁹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 205, 19 Gorffennaf 2012

newid y categorïau mewn rhai achosion. Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried hyn cyn Cam 2.

258. Rydym yn cydnabod y gefnogaeth gyffredinol sydd ymhlith ymatebwyr o blaid gwneud penderfyniadau ynglŷn â chynigion trefniadaeth ysgolion ar lefel lleol lle bo modd. Rydym yn derbyn y rhesymwaith a gynigiwyd gan y Gweinidog dros benderfynu'n lleol ac, mewn egwyddor, rydym yn cytuno â'r ymagwedd hon.

259. Wedi dweud hynny, mae gennym amheuan difrifol ynghylch defnyddio panelau dyfarnu lleol i wireddu'r polisi hwn. Mae defnyddio panelau o'r fath yn golygu newid sylfaenol i'r trefniadau presennol ac, felly, mae'n dod â chryn ansicrwydd yn ei sgîl ac elfen o risg am nad oes dim tystiolaeth i awgrymu y bydd panelau o'r fath a ddefnyddir yn y cyd-destun hwn yn effeithiol.

260. Credwn yn gryf, er mwyn i system penderfynu lleol weithio, ei bod yn rhaid iddi fod yn deg, a'i bod yn cael ei gweld felly, rhaid iddi fod yn annibynnol a rhaid iddi alluogi penderfyniadau diduedd sy'n gallu gwrthsefyll craffu cyhoeddus. Rydym ninnau'n cytuno â'r rhai a roddodd dystiolaeth a oedd yn poeni nad yw'r Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yng nghyswllt panelau dyfarnu lleol, yn darparu'n ddigonol ar gyfer y rhain.

261. Nodwn dystiolaeth y Gweinidog ynglŷn â sut mae'n bwriadu i'r Panelau Dyfarnu Lleol weithredu'n ymarferol, ond rydym yn poeni y gall hyn fod wedi'i orsymleiddio braidd, ac ystyried natur y penderfyniadau y bydd angen eu gwneud.

262. Gyda golwg ar yr uchod, nid ydym wedi ein hargyhoeddi eto ynghylch defnyddio Panelau Dyfarnu Lleol, fel y darperir ar ei gyfer yn y Bil.

263. Serch hynny, a chofio na chawsom dystiolaeth ynglŷn â dewis amgen hyfyw, ac os digwydd i'r Gweinidog benderfynu bwrw ymlaen â model y Panelau Dyfarnu Lleol, cynigiwn y sylwadau a ganlyn.

264. Rydym yn cydnabod tystiolaeth y Gweinidog y bydd rhywfaint o'r manylion ynglŷn â sut y bydd y panelau dyfarnu lleol yn gweithio'n cael eu cynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Rydym yn croesawu'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog yn sôn am y materion y

mae'n bwriadu eu cynnwys yn y Cod drafft yng nghyswllt Panelau Dyfarnu Lleol.

265. Rydym yn cytuno â barn ymatebwyr y gellid mynd i'r afael â rhai o'r pryderon ynglŷn ag annibyniaeth Panelau Dyfarnu Lleol drwy dynnu'r aelodau o gronfa ranbarthol. Mae'n amlwg o dystiolaeth y Gweinidog y caniateid hyn o dan delerau'r Bil a'r Cod, ac mae hyn i'w groesawu.

266. Er bod hyn yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at dawelu ein pryderon ynglŷn ag annibyniaeth Panelau Dyfarnu Lleol, nid oes dim ar wyneb y Bil sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn. Oherwydd hyn, ac oherwydd nerth y dystiolaeth a gafwyd, **rydym yn argymhell diwygio'r Bil er mwyn sicrhau bod egwyddor annibyniaeth yn cael ei chynnwys yn y ddeddfwriaeth. Rydym hefyd yn argymhell diwygio Atodlen 3 er mwyn egluro'n fanwl sut y bydd y Panelau Dyfarnu Lleol yn gweithio'n ymarferol.**

267. At hyn, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog adolygu sut mae'r Panelau Dyfarnu Lleol yn gweithio ar y cyfle cyntaf posibl ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

268. Ar wahân i hyn, rydym yn cydnabod rhesymwaith y Gweinidog dros ddarparu proses fyrrach ar gyfer ymdrin â chynigion i gau "ysgolion bach". Rydym yn nodi bod y dystiolaeth yn gyffredinol yn derbyn y rhesymwaith hwn. Felly, rydym yn fodlon ar y darpariaethau ynglŷn â'r cynigion ar gyfer cau "ysgolion bach".

Pennod 3 - Rhesymoli lleoedd ysgolion

Cefndir

269. Yn Adrannau 58 i 64, nodir pwerau Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu i wneud cynigion i resymoli lleoedd ysgolion, ac i gyflwyno'u cynigion hwy eu hunain i resymoli lleoedd os bydd yr awdurdod lleol yn methu â gwneud hynny. Os cyflwynir gwrthwynebiadau i gynigion Gweinidogion Cymru, rhaid cynnal "ymchwiliad lleol".

Tystiolaeth ymatebwyr

270. Ychydig o sylwadau penodol a gafwyd am Bennod 3.

271. Gan sôn yn gyffredinol am resymoli lleoedd ysgolion, dywedodd ATL Cymru:

We accept that there is an oversupply of school places in Wales. This means that funding is not best used and that children's education suffers as a result. We welcome measures that will speed up decision making in this area.¹⁹²

272. Roedd UCAC yn poeni am y diffyg manylion yn y Bil am "ymchwiliadau lleol" (adran 62) a cheisiodd eglurhad ynglŷn â'r rhain a sut y byddent yn gweithredu'n ymarferol. At hynny, roedd yn gwrthwynebu'r ddarpariaeth o dan adran 63(2) a oedd yn golygu na fyddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru gychwyn ymchwiliad lleol petai'r cynigion yn gynigion pellach i wneud iawn am ormod o leoedd neu ddiffyg lleoedd mewn ysgol.

Tystiolaeth y Gweinidog

273. Yn ei dystiolaeth lafar, esboniodd y Gweinidog mai ailddatgan pwerau sy'n bodoli eisoes yw'r pŵer i Weinidogion resymoli lleoedd mewn ysgolion yn y Bil, a bod angen y rhain rhag ofn.

274. Wrth sôn am y diffyg manylion yn y Bil am "ymchwiliad lleol", esboniodd y Gweinidog fod y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion eisoes yn darparu ar gyfer proses sefydlu "ymchwiliad lleol".¹⁹³

275. Yn ei dystiolaeth atodol, rhoddodd y Gweinidog fanylion am y gweithdrefnau craffu a fyddai'n berthnasol i gynigion pellach gan Weinidogion Cymru i resymoli lleoedd mewn ysgolion o dan adran 60 yn unol ag adran 63(1)(c). Esboniodd:

Petai Gweinidogion Cymru yn defnyddio'u pŵer i wneud rhagor o gynigion o dan a63(1)(c), byddai hynny'n ddigwyddiad eithriadol o brin...mae'n debyg y buasai'r broses a arweiniodd at gyhoeddi cynigion yn un hirfaith iawn. Felly, mae'n ymddangos yn briodol, os bydd Gweinidogion Cymru, ar ôl

¹⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig SS08

¹⁹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 208, 19 Gorffennaf 2012

iddynt ystyried canlyniad yr ymchwiliad lleol, yn penderfynu bod gofyn cael rhagor o gynigion...y gellir cwblhau'r broses hon cyn gynted ag y bo modd.¹⁹⁴

276. Aeth y Gweinidog rhagddo i esbonio y byddai angen cyhoeddi cynigion pellach a wnaed o dan adran 63(1)(c) ac y byddai cyfle i gyflwyno gwrthwynebiadau. Byddai Gweinidogion Cymru yn dal i orfod rhoi sylw i'r gwrthwynebiadau hynny cyn penderfynu mabwysiadu'r cynigion neu beidio.¹⁹⁵

Ein barn ni

277. Nodwn mai ychydig o dystiolaeth a gafwyd ynglŷn â rhesymoli lleoedd mewn ysgolion. Rydym yn cydnabod bod y pwerau hyn i raddau helaeth yn ailddeddfu Atodlen 7 i'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion. Felly, rydym yn fodlon ar Bennod 3.

Pennod 4 - Darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig

Cefndir

278. Mae Adrannau 65 i 71 yn nodi pwerau Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdodau lleol i ystyried gwneud darpariaeth ranbarthol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig, neu i gyfarwyddo awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu i wneud trefniadau neu gynigion ar gyfer darpariaeth ranbarthol neu i wneud eu cynigion eu hunain ar gyfer darpariaeth ranbarthol.

Tystiolaeth ymatebwyr

279. Ychydig o sylwadau a gafwyd am Bennod 4. Roedd y rheini a gynigiodd sylwadau braidd yn amheus ynglŷn ag ymdrin â darpariaeth addysg arbennig drwy drefniadau rhanbarthol, ac eithrio NUT Cymru a awgrymodd fod hyn yn gam cadarnhaol ymlaen.¹⁹⁶

280. Esboniodd CLILC a CCAC fod enghreifftiau o ddarpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig ar gael eisoes ond

¹⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog, 21 Awst 2012

¹⁹⁵ *ibid*

¹⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO6

aethant rhagddynt i awgrymu y byddai angen ystyried yn ofalus cyn mynd ati i gyflwyno darpariaeth ranbarthol ar lefel fwy eang.¹⁹⁷

281. Roedd Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn poeni am ddarpariaeth addysg arbennig ranbarthol, a chofio y byddai'r cyfrifoldebau a'r atebolrwydd cyfreithiol yn parhau ar lefel awdurdod lleol unigol.¹⁹⁸

282. Roedd y dystiolaeth arall a gafwyd yn canolbwyntio'n bennaf ar yr effaith bosibl a gâi darpariaeth anghenion addysg arbennig ranbarthol ar les disgyblion, yn enwedig effaith negyddol amserau teithio hwy i ddisgyblion ac ar ymweliadau gan y teulu petai'r ddarpariaeth ranbarthol ymhellach oddi wrth gartref disgybl.¹⁹⁹

Tystiolaeth y Gweinidog

283. Yn ei dystiolaeth lafar, esboniodd y Gweinidog fod y pŵer yn y Bil yng nghyswllt darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig i raddau helaeth yn ailddatgan yr hyn sydd yn Neddf Addysg 2002.²⁰⁰

Ein barn ni

284. Nodwn y dystiolaeth a gafwyd am ddarpariaeth ranbarthol ar gyfer addysg arbennig, gan gynnwys y dystiolaeth am effaith bosibl darpariaeth ranbarthol ar les disgyblion. Rydym yn cydnabod nad oedd gwrthwynebiad uniongyrchol i'r pwerau yn adrannau 66 a 67 i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i ystyried gwneud darpariaeth ranbarthol neu wneud cynigion i sicrhau darpariaeth ranbarthol. Rydym yn cydnabod bod y pwerau hyn yn ailddatgan y pwerau sydd eisoes yn Neddf Addysg 2002. Felly, rydym yn fodlon ar Bennod 4.

¹⁹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO3

¹⁹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO13

¹⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO14 ac SSO22

²⁰⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 93, 9 Mai 2012

Pennod 5 - Cynigion i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth

Cefndir

285. Mae Adrannau 72 i 78 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud cynigion a phenderfynu ynghylch cynigion i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth mewn unrhyw ysgol bresennol a gynhelir.

Tystiolaeth ymatebwyr

286. Ychydig o ymatebwyr a gynigiodd sylwadau am y cynigion i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth.

287. Roedd UCAC yn poeni bod y pŵer a roddid i Weinidogion Cymru o dan adran 72 i gyflwyno cynigion i derfynu'r ddarpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion uwchradd yn mynd y tu hwnt i'r hyn a ddarperid yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000.²⁰¹

288. Gan wrthwynebu ehangu'r pŵer hwn, awgrymodd UCAC ei bod yn well gwneud penderfyniadau fel hyn ar lefel leol. Aeth rhagddo i ddweud bod y chweched dosbarth yn aml yn "rhan greiddiol ac annatod" o ysgolion uwchradd ac felly y gallai eu cau gael effaith negyddol ar yr ysgol drwyddi draw. Roedd yn poeni'n benodol hefyd am effaith cau dosbarthiadau chwech Cymraeg eu cyfrwng.²⁰²

289. Yn gysylltiedig â'r uchod, awgrymodd NAHT Cymru ac ASCL y dylai penderfyniadau ynglŷn ag ailstrwythuro addysg chweched dosbarth gael eu gwneud yn lleol a thynnwyd sylw at yr anghysondeb rhwng y ffordd yr ymdrinnir â gwneud penderfyniadau ym Mhennod 5 ac ym Mhennod 2 (cynigion trefniadaeth ysgolion).²⁰³

290. Gan sôn am fater arall, esboniodd Barnardo's Cymru yr anawsterau y bydd pobl ifanc anabl yn eu hwynebu wrth geisio cael addysg bellach ac roedd yn amau a fyddai creu ysgolion chweched dosbarth arbennig, yn unol â'r hyn y darperir ar ei gyfer yn adran 72(1) yn help i ddatrys yr anawsterau hyn ynteu'n eu gwneud yn waeth.²⁰⁴

²⁰¹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO9

²⁰² Tystiolaeth ysgrifenedig SSO9

²⁰³ Cofnod y Trafodion, paragraffau 138 a 141, 13 Mehefin 2012

²⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO22

Tystiolaeth y Gweinidog

291. Yn ei dystiolaeth lafar, esboniodd y Gweinidog fod y pŵer yn y Bil sy'n ymwneud ag ailstrwythuro addysg chweched dosbarth mewn gwirionedd yn ailddatgan pwerau sydd ar gael eisoes yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000.²⁰⁵ Aeth rhagddo i ddweud:

Clearly the dispersal of post-16 education across Wales, institutionally, is uneven. It is not simply delivered through sixth forms; it is also delivered through further education colleges. We need to have an ability to look nationally at the provision of post-16 education, so I think it is right that Welsh Ministers, given our funding role and our strategic role, be involved in that.²⁰⁶

292. Dywedodd y Gweinidog fod y pwerau i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth yn y Bil a'r rheini yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 yr un fath yn eu hanfod. Aeth rhagddo i esbonio:

The one difference is that the Learning and Skills Act requires that the power to make proposals is exercised with a view to achieving several general objectives relating to improved educational achievement, participation rate increase and broadening of the range of opportunities. We have not put these in the Bill, but they will be set out in the school organisation code.²⁰⁷

293. Wrth sôn am yr angen i benderfyniadau i gau chweched dosbarth ddigwydd o fewn cyd-destun lleol ac ar lefel leol, dywedodd y Gweinidog:

We would clearly need to take local factors into account, but one of the issues that you have to make a judgment on in respect of sixth forms is the balance between sixth-form provision in an area and further education provision. Obviously, further education provision is separate from school organisation. There is a difference in that, essentially, we determine the funding for sixth forms, just as we determine the

²⁰⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 97, 9 Mai 2012

²⁰⁶ *ibid*

²⁰⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 212, 19 Gorffennaf 2012

funding for further education colleges. So, there is a strong central element in the planning of post-16 education already.²⁰⁸

Ein barn ni

294. Nodwn y dystiolaeth a gafwyd ynglŷn â'r cynigion i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth gan rai ymatebwyr sy'n awgrymu y dylid gwneud penderfyniadau i gau chweched dosbarth ar lefel leol, lle bo modd. Rydym yn cydnabod hefyd dystiolaeth y Gweinidog ynglŷn ag ariannu'r ddarpariaeth chweched dosbarth a rôl strategol Gweinidogion Cymru o ran darparu addysg ôl-16. Argyhoeddwyd mwyafrif yr Aelodau gan ddadl y Gweinidog ac, yn hynny o beth, roeddent yn fodlon ar y darpariaethau ym Mhennod 5. Roedd Aelodau eraill yn cytuno â barn ymatebwyr ac yn teimlo y dylai penderfyniadau i gau'r chweched dosbarth ddigwydd ar lefel leol, yn unol â'r trefniadau ar gyfer penderfynu ynglŷn â chynigion eraill ym maes trefniadaeth ysgolion.

²⁰⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 214, 19 Gorffennaf 2012

6. Rhan 4 - Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

Cefndir

295. Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer cyflwyno Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, sy'n disodli'r cynllun gwirfoddol presennol. Rhaid i Awdurdodau Lleol baratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n nodi, ymhlith pethau eraill, gynigion yr awdurdodau yng nghyswllt gwella'r cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a dysgu Cymraeg yn eu hardal ynghyd â gwella safonau'r addysgu.

Tystiolaeth ymatebwyr

296. Roedd cefnogaeth gyffredinol yn y dystiolaeth o blaid rhoi sail statudol i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg .

297. Roedd ATL Cymru, UCAC, Llywodraethwyr Cymru, NUT Cymru, RhAG ac Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Wrecsam i gyd yn cytuno'n gyffredinol â bwriad yr adrannau hyn o'r Bil.²⁰⁹

298. Credai Llywodraethwyr Cymru y bydd cyflwyno Cynlluniau statudol o gymorth i awdurdodau lleol wella'u cynllunio er mwyn sicrhau digon o leoedd cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion.²¹⁰ Awgrymodd hefyd y dylai'r gwaith paratoi hwn fod yn rhan o bolisiau cynllunio ehangach awdurdodau lleol.²¹¹

299. Roedd barn CLILC a CCAC yn debyg i'r farn a fynegwyd gan Lywodraethwyr Cymru. Er ei bod yn cefnogi darpariaethau'r Bil, awgrymodd y dylid cynnwys cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yng nghynlluniau addysg ehangach yr awdurdod lleol.²¹²

300. Roedd Estyn hefyd o blaid rhoi sail statudol i'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Dywedodd:

I am confident that strengthening the Welsh unit within the [Welsh government] department and putting the plans on a statutory basis will lead to greater consistency, that the plans

²⁰⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO8, SSO9, SSO10, SSO6, SSO20 ac SSO13

²¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO10

²¹¹ *ibid*

²¹² Tystiolaeth ysgrifenedig SSO3

will be more thorough and that it will be necessary to respond to the need expressed by parents... Anything that is statutory is going to be more robust, and greater resources and more thought will be given to it.²¹³

301. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn poeni nad yw'r Bil, er ei fod yn darparu ar gyfer cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yn well a sicrhau gwell safonau, yn darparu'n benodol ar gyfer gwella mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg nac ar gyfer sicrhau bod unrhyw gynnydd yn y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddiwallu.²¹⁴

302. Ynglŷn â hyn, dywedodd RhAG:

...nid oes crybwyll yma dros sicrhau 'bod y ddarpariaeth yn ddigonol i ddiwallu y galw a amlygir trwy fesur y galw'.

[...]

...nid gwella cynllunio'r ddarpariaeth sydd ei angen, sef materion sy'n ymwneud â phrosesau, ond yn hytrach gwella'r ddarpariaeth ei hun.²¹⁵

303. Aeth RhAG yn ei flaen i awgrymu y dylid diwygio'r Bil i fynd i'r afael â hyn.²¹⁶

304. Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan Comisiynydd Plant Cymru a bwysleisiodd pa mor bwysig oedd gwella'r mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.²¹⁷

305. Soniodd nifer o ymatebwyr am ganlyniadau posibl peidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd i baratoi Cynllun, a'r ffaith nad oes darpariaeth benodol yn y Bil sy'n ymdrin â diffyg cydymffurfio.

306. Awgrymodd NUT Cymru ei bod yn debygol y byddai rhywfaint o amheuaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd y Cynlluniau ac ynglŷn â pha

²¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 242 a 244, 31 Mai 2012

²¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO20 ac SSO25

²¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO20

²¹⁶ ibid

²¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraffau 74 i 76, 11 Gorffennaf 2012

gynnydd ymarferol a wneir o dan y cynlluniau hyn a gynigir oni chyflwynir trefniadau cosbi i gyd-fynd â hwy.²¹⁸

307. Yn eu tystiolaeth, dywedodd RhAG:

Galwn am lunio darpariaethau a fydd yn egluro'n ddiamwys y camau arfaethedig a gymer y Llywodraeth wrth ddelio gydag awdurdod lleol na fyddai'n cydymffurfio â gofynion y Bil [gyda golwg ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg].²¹⁹

308. Pwysleisiodd y rheini a oedd yn cynrychioli llywodraeth leol fod angen darparu cyllid digonol er mwyn sicrhau bod y Cynlluniau'n cael eu cyflawni'n llwyddiannus.²²⁰

Tystiolaeth y Gweinidog

309. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, er bod Cynlluniau Cymraeg mewn Addysg wedi'u cyflwyno ac yn cael eu defnyddio gan awdurdodau lleol, mae problemau o hyd o ran diffyg cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.²²¹

310. Mae'n mynd rhagddo i ddweud oni roddir sail statudol i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg y "byddai'r agwedd ddarniog ac ymatebol at gynllunio a sicrhau darpariaeth yn debygol o barhau".²²²

311. Gan ymateb i gwestiynau ynglŷn â sut y bydd awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod wedi cymryd "pob cam rhesymol" i roi Cynllun Strategol ar waith, dywedodd y Gweinidog:

We expect local authorities to look at the future provision that they need locally, to take into account our transformation agenda and their own plans for capital investment in the future under the twenty-first century schools programme, and,

²¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig SS06

²¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SS020

²²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig SS03

²²¹ ME 3.68, t23

²²² ME 3.79, t24

obviously, to measure demand for Welsh-medium education going forward.²²³

312. O ran asesu'r galw, aeth y Gweinidog rhagddo i ddweud:

[Local authorities] will have a sense of progression from Welsh-medium nurseries right the way through, and they will be able to build their own projections on that basis.²²⁴

313. Roedd yn disgwyl i'r Bil sicrhau bod y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei fesur yn iawn, a bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod y galw'n cael ei gynnwys yn eu cynlluniau.²²⁵

314. Ychwanegodd y Gweinidog:

...we do not expect the planning of Welsh-medium provision to be tangential or additional to a local authority's overall approach to its planning of school provision in general. We expect it to be at the heart of it. Therefore, if they are taking into account the planning of school places, the demand for Welsh-medium education has to be one of the things that they are taking into account right at the outset.²²⁶

315. O ran diffyg cydymffurfio, dywedodd y Gweinidog:

We will have the power to approve or not the plan submitted by the local authority, to seek modifications to it, or to prepare a plan on behalf of a local authority if it fails to do that. So, we will retain the ability to intervene at that level.²²⁷

316. Wrth sôn am yr awgrym y dylai'r Bil gynnwys trefn gosbi ar gyfer diffyg cydymffurfio â'r gofynion statudol ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, dywedodd y Gweinidog:

I am broadly happy with what we have put into the Bill. I think that what we are doing here is sending quite a clear signal of our expectations to local authorities. It is an important area for us to get right. Bear in mind that the Bill allows me, of course,

²²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 103, 9 Mai 2012

²²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 107, 9 Mai 2012

²²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraffau 232 i 234, 19 Gorffennaf 2012

²²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 234, 19 Gorffennaf 2012

²²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 105, 9 Mai 2012

if I am not satisfied with the plan drawn up by the local authority, to impose a plan myself.²²⁸

Ein barn ni

317. Nodwn y gefnogaeth eang o blaid y dystiolaeth ar gyfer cyflwyno Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg statudol. Rydym yn cydnabod mai'r canlyniad y dymunir i'r Cynlluniau ei gael yw gwella'r cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Rydym yn cytuno â barn y Gweinidog ynglŷn â'r angen i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â diffyg cynllunio digonol ar gyfer darparu addysg cyfrwng Cymraeg Felly, rydym yn gyffredinol fodlon ar y pwerau a ddarperir yn Rhan 4 o'r Bil.

318. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd yn y dystiolaeth am yr angen i sicrhau bod y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddiwallu. Rydym yn nodi'r awgrym y dylai'r Bil fynd ymhellach i sicrhau bod awdurdodau lleol yn sicrhau darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ddigonol yn eu hardal.

319. Rydym yn nodi barn y Gweinidog am hyn ond yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd gan ymatebwyr, **rydym yn argymhell, cyn Cam 2, y dylai'r Gweinidog ystyried sicrhau bod y Bil yn darparu fel y gall Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg gynnwys cynigion awdurdodau lleol ynghylch sut y byddant yn sicrhau bod unrhyw gynnydd yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddiwallu'n ddigonol.**

320. Nodwn y pryder a godwyd yn y dystiolaeth nad yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cosbau ffurfiol am beidio â chydymffurfio â'r gofynion statudol ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Rydym yn nodi hefyd yr awgrym y dylai'r Bil gynnwys trefn gosbi. Rydym yn croesawu'r pwerau yn adran 86 o'r Bil sy'n galluogi'r Gweinidog i ddrafftio cynllun a'i orfodi ar awdurdod lleol os nad yw'n fodlon ar gynllun gwreiddiol yr awdurdod hwnnw. Gyda hyn mewn golwg, ac yn sgîl tystiolaeth y Gweinidog, rydym yn fodlon ar y darpariaethau, fel y'u drafftiodd.

²²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 226, 19 Gorffennaf 2012

7. Rhan 5 - Swyddogaethau amrywiol ysgolion

Brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd

Cefndir

321. Mae Adran 89 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddarparu brecwast am ddim i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd y mae'n eu cynnal os yw corff llywodraethu'r ysgol wedi gwneud cais ysgrifenedig i'r awdurdod lleol am ddarparu brecwast. Ni fydd y ddyletswydd yn gymwys os yw'r corff llywodraethu wedi gofyn i'r awdurdod lleol beidio â darparu brecwast, neu fod yr awdurdod lleol yn penderfynu y byddai darparu, neu barhau i ddarparu brecwast yn yr ysgol, yn "afresymol".

322. Mae'r Gweinidog wedi cadarnhau mai bwriad Llywodraeth Cymru yw trosglwyddo'r arian grant penodol sydd wedi'i neilltuo ar gyfer brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd i'r Grant Cynnal Refeniw.

Tystiolaeth ymatebwyr

323. Roedd cefnogaeth gyffredinol yn y dystiolaeth o blaid rhoi sail statudol i'r ddarpariaeth brecwast am ddim.

324. Er gwaethaf y gefnogaeth honno, roedd sawl ymatebwr yn poeni am effaith a geid ar dlefel a thegwch y ddarpariaeth wrth drosglwyddo'r arian penodol sydd wedi'i neilltuo, ac sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer darparu brecwast am ddim, i'r grant cynnal refeniw.

325. Yn hynny o beth, awgrymodd Cyngor Sir Caerfyrddin fod y gwasanaeth brecwast am ddim mewn ysgolion o dan fygythiad ac y gallai safon y gwasanaeth a ddarperid waethygu.²²⁹

326. Mynegwyd barn debyg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.²³⁰

327. Dywedodd Achub y Plant ei bod yn hollbwysig gochel rhag sefyllfa lle byddai symud yr arian ar gyfer y cynllun brecwast am ddim mewn

²²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO26

²³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO12

ysgolion i'r Grant Cynnal Refeniw yn effeithio ar lefel ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd.²³¹

328. Roedd Adran Addysg Dinas a Sir Abertawe yn ategu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gan ddweud ei bod yn hollbwysig trosglwyddo digon o arian i'r awdurdodau lleol i adlewyrchu gwir gost y cynllun.²³²

329. Dywedodd NUT Cymru fod peidio â neilltuo'r arian yn destun pryder difrifol.²³³

330. Yn eu tystiolaeth, dywedodd NASUWT Cymru ei bod yn rhaid dynodi'n glir yr arian sydd ar gael yn y grant cynnal refeniw ar gyfer y cynllun brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd drwy ei neilltuo.²³⁴

331. Dywedodd Cymdeithas Arlwywyr Awdurdodau Lleol, er ei bod yn derbyn y gallai trosglwyddo'r arian i'r Grant Cynnal Refeniw leihau biwrocratiaeth, ei bod yn poeni y gallai peidio â neilltuo'r arian, yn y sefyllfaoedd gwaethaf, olygu bod y ddarpariaeth yn diflannu.²³⁵

332. Gan sôn am fater cysylltiedig, nododd Plant yng Nghymru nad yw'r Bil yn rhoi cyfarwyddyd ynglŷn â sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y fenter brecwast am ddim mewn ysgolion, sut y bydd yn diogelu'r gwasanaeth wrth i'r grant presennol symud i'r Grant Cynnal Refeniw, na pha drefniadau a fydd ar waith i fonitro'r nifer sy'n manteisio ar frechwast am ddim.²³⁶

333. Cododd Achub y Plant hefyd fater monitro'r nifer a fanteisiai ar frechwast am ddim mewn ysgolion.²³⁷

334. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn ceisio eglurhad neu'n codi pryderon ynglŷn â sut y byddai awdurdodau lleol yn penderfynu ei bod yn "afresymol" darparu brecwast am ddim mewn ysgolion.

335. Roedd Barnardo's Cymru'n cwestiynu ystyr y gair "afresymol" gan ddweud y byddent yn hoffi gweld diffiniad yn y Bil. Aethant rhagddynt

²³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig SS019

²³² Tystiolaeth ysgrifenedig SS027

²³³ Tystiolaeth ysgrifenedig SS06

²³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig SS07

²³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig SS011

²³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig SS023

²³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig SS019

i ddweud ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol, wrth iddynt benderfynu ei bod yn afresymol darparu'r fenter brechwast am ddim mewn ysgolion, ddarparu tystiolaeth yn gefn i'w penderfyniad.²³⁸

336. Mynegwyd barn debyg gan nifer o ymatebwyr eraill, gan gynnwys UCAC, Adran Addysg Dinas a Sir Abertawe, Llywodraethwyr Cymru, Achub y Plant, Plant yng Nghymru ac NUT Cymru²³⁹.

337. Ceisiodd UCAC, Plant yng Nghymru ac Adran Addysg Dinas a Sir Abertawe ragor o eglurhad ynglŷn â sut y diffinnid "afresymol" gan ofyn am esboniad ynglŷn â pha amgylchiadau a allai arwain awdurdod lleol i benderfynu hynny.²⁴⁰

338. Awgrymodd Achub y Plant y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n cynnwys rhestr gyflawn a hollgynhwysol o feini prawf ar gyfer yr amgylchiadau lle y byddai'n "afresymol" i awdurdod lleol ddarparu'r gwasanaeth brechwast am ddim mewn ysgolion.²⁴¹

339. Yn groes i hynny, tynnodd NUT Cymru sylw at y ffaith bod angen hyblygrwydd gan ddweud:

We would not want to see the Minister try to dictate a particular set of criteria, because there has to be a degree of flexibility so that an authority can say that it has looked at the circumstances of a particular school and it does not feel that it is practical to continue.²⁴²

340. Awgrymodd Comisiynydd Plant Cymru y dylai canllawiau a gyhoeddiid o dan adran 89(5) gynnwys mecanwaith clir i ddisgyblion a rhieni herio sefyllfaoedd lle byddai awdurdod lleol yn penderfynu ei bod yn afresymol darparu gwasanaeth brechwast am ddim mewn ysgolion.²⁴³

²³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO22

²³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO9, SSO27, SSO10, SSO19, SSO23 ac SSO6

²⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO9, SSO23 ac SSO27

²⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO19

²⁴² Cofnod y Trafodion, paragraff 343, 27 Mehefin 2012

²⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO25

Tystiolaeth y Gweinidog

341. Gan gyfeirio at ddileu'r drefn neilltuo arian ar gyfer y fenter brecwast am ddim mewn ysgolion, mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud:

Disgwylir i hyn [y gostyngiad yn y nifer sy'n manteisio ar frechwast am ddim mewn ysgolion] barhau ac felly mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i drosglwyddo'r cyllid grant penodol i'r Grant Cynnal Refeniw.²⁴⁴

342. Wrth ymateb i bryderon a godwyd ynglŷn â throsglwyddo arian grant penodol i'r Grant Cynnal Refeniw, dywedodd y Gweinidog:

It is right that we seek to reduce the number of specific grants that we have in the system and ensure that more of those are within the revenue support grant, because that minimises the overall administrative costs that face us and local authorities.²⁴⁵

343. O ran ystyr y gair "afresymol" gyda golwg ar ddyletswydd awdurdod lleol i ddarparu gwasanaeth brecwast am ddim mewn ysgolion, dywedodd y Gweinidog:

There will be an obligation on local authorities to act reasonably in this process. They will understand the test that they have to make to satisfy that sort of judgement. (...) you could say that a lack of demand, disproportionate costs and staffing issues are factors that would affect the decision by a local authority. It is on that basis that the test of reasonableness would be made.²⁴⁶

344. Wrth sôn am ariannu unrhyw gynllun brecwast am ddim mewn ysgolion yn y dyfodol, dywedodd y Gweinidog:

In the course of preparing this legislation, we have budgeted for further modest growth in the free school breakfast scheme going forward on the basis of what we have seen in the past.²⁴⁷

²⁴⁴ ME 3.108, t29

²⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 257, 19 Gorffennaf 2012

²⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraffau 109 ac 111, 9 Mai 2012

²⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 115, 9 Mai 2012

345. A:

...the grant has risen consistently. It was £10.7 million in the last financial year, it is £12.7 million in this financial year, and, at the point of transfer, it is predicted to be £14.7 million, so I think that we have been quite generous in the provision that we have allocated.²⁴⁸

Ein barn ni

346. Rydym yn nodi'r rhesymwaith a gynigiwyd gan y Gweinidog dros drosglwyddo'r arian grant penodol a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer y Fenter Brechwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd i'r Grant Cynnal Refeniw.

347. Ac ystyried pwysigrwydd y fenter, rydym yn croesawu'r cam cyfatebol i ddeddfu yn y maes hwn er mwyn sicrhau parhad y ddarpariaeth brechwast am ddim mewn ysgolion ar ôl i'r arian gael ei drosglwyddo.

348. Rydym yn nodi bod mwyafrif y rheini a roddodd dystiolaeth yn cefnogi'r cynigion mewn egwyddor i'w gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu brechwast am ddim i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd. Felly, rydym yn gyffredinol fodlon ar y pwerau a ddarperir yn adrannau 89 i 91 o'r Bil.

349. Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod y pryder a godwyd yn y dystiolaeth y bydd drosglwyddo'r arian yn arwain at anghysonderau o ran darparu'r fenter ar draws awdurdodau lleol ac yn fygythiad i lefel y ddarpariaeth a'i hansawdd. Mae'n amlwg, o'r dystiolaeth a gafwyd, bod diffyg eglurdeb ynglŷn ag o dan ba amgylchiadau na fyddai'r ddyletswydd i ddarparu brechwast am ddim yn berthnasol (adran 89(2)), ac yn benodol ynglŷn ag ystyr y term "afresymol". Er bod dystiolaeth y Gweinidog ynglŷn â hyn yn tawelu ein meddyliau i raddau, oherwydd nerth y dystiolaeth gan ymatebwyr, **rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gynnwys yn y canllawiau o dan ba amgylchiadau y caiff awdurdod lleol benderfynu bod darparu gwasanaeth brechwast am ddim mewn ysgolion yn "afresymol"**.

²⁴⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 259, 19 Gorffennaf 2012

Pŵer i godi taliadau am brydau

Cefndir

350. O dan Ran 9 o Ddeddf Addysg 1996, wrth iddynt ddarparu llaeth, prydau bwyd a lluniaeth arall mewn ysgolion, mae'n rhaid i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu godi'r un tâl ar bob disgybl. Mae Adran 92 yn diwygio Deddf 1996 er mwyn caniatáu trefn codi taliadau hyblyg am brydau ysgol. Ni chaniateir i ysgolion ac awdurdodau godi mwy na chost darparu'r prydau bwyd i'r disgyblion.

351. Dywed y Memorandwm Esboniadol:

Mae'r diffyg hyblygrwydd yma i awdurdodau lleol wrth iddynt bennu eu prisiau yn eu hatal rhag cyflwyno polisiau a fyddai'n cynorthwyo teuluoedd â sawl plentyn yn yr ysgol neu a fyddai'n annog disgyblion i ddewis prydau ysgol.²⁴⁹

Tystiolaeth ymatebwyr

352. Roedd cefnogaeth gyffredinol o blaid y darpariaethau ynglŷn â chodi taliadau hyblyg am brydau bwyd a chyflwyno cap ar y taliadau.

353. Roedd Estyn, CLILC a CCAC yn cefnogi'n gryf y cynigion hynny yn y Bil a fydd yn caniatáu i awdurdodau lleol sefydlu systemau codi taliadau hyblyg ar gyfer prydau ysgol.²⁵⁰

354. Er eu bod yn cefnogi'r egwyddor, roedd nifer o ymatebwyr yn poeni am weinyddu'r trefniadau codi taliadau hyblyg a'r posibilrwydd y byddai hyn yn creu rhagor o fiwrocratiaeth.

355. O ran hyn, dywedodd NUT Cymru y byddai'n anodd gweinyddu'r cynllun hwnnw a bod sgîl-ffaith bosibl, sef y gallai'r drefn codi taliadau hyblyg hon stigmatiddio teuluoedd ar incwm isel.²⁵¹

356. Dywedodd Llywodraethwyr Cymru fod y cynigion i'w croesawu ond roeddent yn poeni am sut y gweinyddid y drefn. Yn eu tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, dywedasant:

²⁴⁹ ME 3.110, t30

²⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO2 ac SSO3

²⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 355, 27 Mehefin 2012

Flexibility is very important and it is a very interesting proposal that would be welcomed. The concern is the administration side of it within schools. Again, that is something that needs to be looked at—how that is going to work and whether it is going to be onerous and so on. The proposal is very commendable, but the devil is in the detail, is it not?²⁵²

357. Ategwyd y pryderon hyn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a chan LACA.²⁵³

358. Tynnodd Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Wrecsam sylw at bryderon y byddai capio'r swm y gellid ei godi ar ddisgyblion ar gost cynhyrchu'r pryd hwnnw roi baich biwrocraidd ychwanegol ar y darparwr i gyfrifo cost pob pryd.²⁵⁴

359. Mynegodd Cyngor Sir Caerfyrddin bryder hefyd y gallai fod goblygiadau negyddol i ddarparwyr y gwasanaeth. Eu hawgrym hwy oedd y gallai safonau ac ansawdd y prydau a ddarperir mewn ysgolion ddiodef petai bydd incwm arlwywyr yn gostwng.²⁵⁵

360. Awgrymodd Adran Addysg Dinas a Sir Abertawe y dylid cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â darparu prydau ysgol wrth benderfynu ar lefel y taliadau ar gyfer prydau ysgol.²⁵⁶

361. Yn y cyswllt hwn, roedd ATL Cymru yn poeni y gallai awdurdodau lleol, a fyddai'n gorfod ysgwyddo cost cynllun codi taliadau hyblyg, gynyddu'r pris sylfaenol i blant eraill nad ydynt yn elwa o'r cynllun, er mwyn adfer eu costau.²⁵⁷

362. Er bod Comisiynydd Plant Cymru yn croesawu'r cynigion ar gyfer trefniadau codi taliadau hyblyg, dywedasant fod angen bod yn ofalus o ran gweinyddu'r drefn. Dywedodd:

Non-stigmatising routes to ensure that this flexible benefit happens have to be given hard consideration.²⁵⁸

²⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff 212, 27 Mehefin 2012

²⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO12 ac SSO11

²⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO13

²⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO26

²⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO27

²⁵⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 112, 27 Mehefin 2012

²⁵⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 126, 11 Gorffennaf 2012

363. Codwyd pwyntiau tebyg gan Blant yng Nghymru. Cafwyd awgrym gan yr elusen honno hefyd y dylid datblygu ffigur meincnod er mwyn osgoi anghysonderau posibl a allai godi'n genedlaethol a bod y gostyngiad yn cael ei osod ar lefel resymol er mwyn iddo fod yn ddigon deniadol i rieni elwa o gael cyfradd is ar gyfer ail blentyn.²⁵⁹

364. Codwyd pryder yn y dystiolaeth y gallai codi taliadau hyblyg am brydau ysgol arwain at wahaniaethu anuniongyrchol ac y gallai rhieni plant a fyddai'n talu rhagor am brydau bwyd fynd i gyfraith ynghylch hynny.

365. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Sir Caerfyrddin ill dau'n dweud eu bod yn poeni y gallai rhieni disgyblion na fyddent yn elwa o'r cynllun codi taliadau hyblyg herio penderfyniad awdurdod lleol ar sail cydraddoldeb a gwahaniaethu.²⁶⁰

366. Yn yr un modd, dywedodd LACA y byddai'r gallu i godi gwahanol brisiau ar wahanol grwpiau o blant am yr un pryd o fwyd o bosibl yn groes i ddeddfwriaeth cydraddoldeb.²⁶¹

367. Roedd NASUWT Cymru yn poeni hefyd y gallai'r cynigion arwain at achosion cyfreithiol ac awgrymodd y byddai'r system yn frith o anawsterau. Yn ei dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, dywedodd:

I cannot tell you what form the litigation will take, but there needs to be an equality impact assessment of this... to look at how this will affect one group rather than another.²⁶²

Tystiolaeth y Gweinidog

368. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn dweud:

Oni chaiff y ddeddfwriaeth hon ei chyflwyno, byddai'n rhaid i'r awdurdodau lleol barhau â'r system gyfredol o brisio prydau ysgol. Byddai'r strwythur prisiau sefydlog, ar ei ffurf bresennol, yn atal unrhyw ddull arloesol o bennu prisiau y gallai awdurdod lleol ddymuno ei fabwysiadu, boed nawr neu yn y dyfodol. Os bydd awdurdod lleol yn dymuno defnyddio'r hyblygrwydd

²⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO23

²⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO12 ac SSO26

²⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO11

²⁶² Cofnod y Trafodion, paragraff 352, 27 Mehefin 2012

ynghylch prisiau, mae Llywodraeth Cymru yn hyderus y bydd o fudd sylweddol i rieni a phlant.²⁶³

369. Gan sôn am godi taliadau hyblyg am brydau ysgol, dywedodd y Gweinidog:

What we are trying to do overall in the provisions in relation to school meals is ensure that there is an opportunity for flexible charging, but that local authorities are not able to charge above the cost of the provision of the meals or milk.²⁶⁴

370. Gyda golwg ar bryderon a godwyd ynghylch gweinyddu'r trefniadau codi taliadau hyblyg, a'r potensial ar gyfer costau ychwanegol i rai disgyblion, dywedodd y Gweinidog:

We have taken the view that we are giving a power to charge flexibly to local authorities...this does not mean that they can levy unreasonable charges. In fact, we would see it as being a way of ensuring take-up by reducing the cost, rather than the other way around. There will be guidance that we will publish that will clarify the element that prevents schools and local authorities from charging more than the cost of providing the meal.²⁶⁵

371. Pan ofynnwyd iddo a fyddai'n ystyried yr awgrym ynglŷn â ffigur meincnod a fyddai'n pennu ffiniau'r taliadau y gallai awdurdodau lleol eu codi am brydau ysgol, dywedodd y Gweinidog y byddai hynny'n dibynnu ar natur y meincnod. Byddai'n barod i fynd ar drywydd yr awgrym yn fwy manwl drwy'r canllawiau a fydd yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn y Bil.²⁶⁶

372. Gan sôn am y pryder y gallai'r cynigion ar gyfer codi taliadau hyblyg fod yn wahaniaethol, dywedodd y Gweinidog:

I do not see why there should be any problem in relation to equalities legislation... What we are doing here is entirely in line with equalities legislation, and offers local authorities the

²⁶³ ME 3.116, t31

²⁶⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 117, 9 Mai 2013

²⁶⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 274, 19 Gorffennaf 2012

²⁶⁶ Cofnod y Trafodion, paragraffau 276 i 278, 19 Gorffennaf 2012

opportunity to demonstrate that they are implementing equalities legislation.²⁶⁷

Ein barn ni

373. Nodwn fod mwyafrif y rheini a roddodd dystiolaeth yn cefnogi mewn egwyddor y cynigion i roi pwerau i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu amrywio cost prydau ysgol. Felly, rydym yn gyffredinol fodlon ar y pwerau a ddarperir yn Rhan 92 o'r Bil.

374. Wedi dweud hynny, rydym ninnau hefyd yn poeni, fel yr oedd rhai a roddodd dystiolaeth, ynglŷn â'r anawsterau ymarferol a allai fod ynghlwm wrth roi system codi taliadau hyblyg ar waith. Mae'n bosibl y gallai'r anawsterau hyn atal awdurdodau lleol rhag dewis gweithredu system o'r fath ac, yn sgîl hynny, mae'n bosibl na fyddai amcan y polisi'n cael ei wireddu. Rydym yn rhannu pryderon nifer o'r ymatebwyr y gallai anghysonder godi yn y ffordd y bydd awdurdodau lleol yn gweinyddu ac yn gweithredu'r systemau codi taliadau hyblyg. Felly, rydym yn croesawu bwriad y Gweinidog o gyflwyno canllawiau a fydd yn gymorth i awdurdodau lleol weithredu system codi taliadau hyblyg.

375. Nodwn bryder rhai ymatebwyr y byddai system codi taliadau hyblyg o bosibl yn groes i ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Serch hynny, mae datganiad y Gweinidog yn ein sicrhau bod y Bil yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Cwmsela mewn ysgolion

Cefndir

376. Mae Adran 93 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud "darpariaeth resymol" am wasanaeth cwmsela annibynnol ac mae'n nodi'r gofynion y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu bodloni wrth iddynt wneud trefniadau cwmsela.

377. Mae'r Gweinidog wedi cadarnhau mai bwriad Llywodraeth Cymru yw trosglwyddo'r arian grant penodol sydd wedi'i neilltuo ar gyfer cwmsela mewn ysgolion i'r grant cynnal refeniw.

²⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 274, 19 Gorffennaf 2012

Tystiolaeth ymatebwyr

378. Roedd cefnogaeth gyffredinol yn y dystiolaeth o blaid rhoi sail statudol i gwnsela mewn ysgolion er mwyn gwarchod y ddarpariaeth ar ôl trosglwyddo'r arian i'r grant cynnal refeniw.

379. Roedd CLILC, CCAC, NAHT Cymru, NUT Cymru a Llywodraethwyr Cymru i gyd yn mynegi eu cefnogaeth gyffredinol o blaid adran 93 o'r Bil.²⁶⁸

380. Dywedodd Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Wreccsam, er eu bod yn croesawu'r adran benodol hon yn y Bil, ei fod yn poeni y byddai gofyn i awdurdodau ddarparu gwasanaethau cwnsela yn annibynnol ar awdurdodau lleol ac ysgolion.²⁶⁹

381. Dywedodd Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain ei fod yn credu bod angen y Bil er mwyn cynnal ansawdd y ddarpariaeth bresennol pan drosglwyddir y grant presennol ar gyfer y gwasanaeth i'r Grant Cynnal Refeniw. At hynny, dywedodd:

It is welcomed that the Bill places a duty for local authorities to compile information about the independent counselling services. This will enable the Welsh Government to continue to monitor the extent of counselling provision and the effectiveness of the provision.²⁷⁰

382. Soniodd Estyn hefyd fod angen i'r fenter cwnsela mewn ysgolion gael ei gwarchod gan ddeddfwriaeth gan awgrymu y byddai trosglwyddo'r arian grant penodol i'r Grant Cynnal Refeniw yn rhoi rhagor o hyblygrwydd i awdurdodau lleol.²⁷¹ Gwnaeth Comisiynydd Plant Cymru sylwadau tebyg yn ei dystiolaeth yntau i'r Pwyllgor.²⁷²

383. Clywodd y Pwyllgor ystod eang o dystiolaeth gan ymatebwyr ynglŷn ag effaith trosglwyddo arian grant wedi'i neilltuo i'r Grant Cynnal Refeniw ar ansawdd y ddarpariaeth cwnsela.

384. Dywedodd Achub y Plant ei bod yn hollbwysig nad yw trosglwyddo'r arian i'r Grant Cynnal Refeniw yn effeithio ar lefel ac

²⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig SS03, SS04, SS06 ac SS010

²⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SS013

²⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig SS015

²⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig SS02

²⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig SS025

ansawdd y gwasanaeth cwnsela a ddarperir mewn ysgolion ar hyn o bryd. Roeddent hefyd yn croesawu'r ddarpariaeth yn y Bil a fydd yn caniatáu ar gyfer estyn gwasanaethau cwnsela i grwpiau eraill o blant yn y dyfodol.²⁷³ Ategwyd y farn hon gan Blant yng Nghymru.²⁷⁴

385. Nododd Cyngor Sir Caerfyrddin ei fod yn poeni y gallai awdurdodau lleol esgeuluso'u cyfrifoldeb i ddarparu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion pe na bai'r arian yn cael ei neilltuo.²⁷⁵

386. Dywedodd Adran Addysg Dinas a Sir Abertawe ei bod yn hollbwysig, lle bydd arian grant penodol yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw, ei bod yn cael ei gwneud yn glir i awdurdodau lleol bod yr arian wedi'i drosglwyddo'n llawn.²⁷⁶

387. Awgrymodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Barnardo's Cymru a Phlant yng Nghymru, fod angen rhagor o eglurhad ynglŷn â sut y diffinnid "darpariaeth resymol" yn adran 93(1).²⁷⁷

388. Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn poeni am y cymal "darpariaeth resymol" hefyd, gan fod y term "rhesymol" yn anodd ei ddiffinio.²⁷⁸

Tystiolaeth y Gweinidog

389. Gan sôn am drosglwyddo arian grant i'r Grant Cynnal Refeniw, mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn dweud:

Gallai methu â deddfu yn y maes hwn olygu bod y grantiau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw heb fod y dyletswyddau angenrheidiol yn cael eu gosod ar yr awdurdodau lleol.. (...) Heb ddeddfwriaeth i ategu hyn, mae perygl y gallai awdurdodau lleol benderfynu peidio â pharhau â'r rhaglenni hyn.²⁷⁹

²⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO19

²⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO23

²⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO26

²⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO27

²⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO22 ac SSO23

²⁷⁸ Cofnod y Trafodion, paragraffau 104 i 107, 11 Gorffennaf 2012

²⁷⁹ ME 3.106, t29

390. Pan ofynnwyd iddo am yr arian a fydd ar gael i awdurdodau lleol er mwyn darparu gwasanaeth cwnsela annibynnol mewn ysgolion, dywedodd y Gweinidog:

The money that we are putting in will reflect the cost of continuing to provide counselling to secondary pupils, providing it to year 6 in primary schools, and, potentially, to 16 to 18-year-olds as well.²⁸⁰

391. Wrth sôn am y pryderon a godwyd ynglŷn ag ystyr "darpariaeth resymol" yn adran 92(1) o'r Bil, dywedodd y Gweinidog:

We will expect authorities to apply an objective test for reasonableness. Within guidance, we can certainly give them some expectations around the level of provision, and we can spell out in that that we would expect them to adhere to it.²⁸¹

Ein barn ni

392. Fel sy'n wir am y fenter brechwast am ddim mewn ysgolion, rydym yn nodi'r rhesymwaith a gynigiwyd gan y Gweinidog dros drosglwyddo'r arian grant penodol oedd wedi'i neilltuo ar gyfer cwnsela mewn ysgolion i'r grant cynnal refeniw.

393. Rydym yn croesawu'r cam cyfatebol i ddeddfu yn y maes hwn er mwyn sicrhau parhad y ddarpariaeth gwnsela mewn ysgolion ar ôl i'r arian gael ei drosglwyddo.

394. Nodwn fod mwyafrif y rheini a roddodd dystiolaeth yn cefnogi mewn egwyddor gyflwyno dyletswydd statudol i awdurdodau lleol darparu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion. Felly, rydym yn gyffredinol fodlon ar y pwerau a ddarperir yn Rhan 93 o'r Bil.

395. Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod y pryder a godwyd yn y dystiolaeth am effaith bosibl trosglwyddo'r arian ar lefel ac ansawdd y ddarpariaeth gwnsela.

396. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gafwyd bod diffyg eglurder ynglŷn â'r term "darpariaeth resymol" yn adran 93(1). Rydym yn croesawu bwriad y Gweinidog o gynhyrchu canllawiau a fydd yn sicrhau bod

²⁸⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 251, 19 Gorffennaf 2012

²⁸¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 283, 19 Gorffennaf 2012

awdurdodau lleol yn glir ynglŷn â lefel y ddarpariaeth a fyddai'n rhesymol er mwyn bodloni gofynion y Bil.

397. Mae tystiolaeth y Gweinidog yn tawelu ein meddwl i raddau ei fod wedi ymrwymo i sicrhau bod y rhaglenni cwnsela mewn ysgolion yn parhau o dan y drefn ariannu newydd. Wedi pwyso a mesur, rydym yn fodlon bod darpariaethau'r Bil yn darparu'n ddigonol ar gyfer hyn. Trafodir ein pryder penodol ynglŷn ag ariannu ehangu'r gwasanaeth ar ôl trosglwyddo'r arian ym Mhennod 9 o'r adroddiad.

Cyfarfodydd rhieni

Cefndir

398. Ar hyn o bryd, mae gofyn i gyrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod rhieni blynyddol. Mae Adran 95 yn diddymu'r gofyniad hwn ac yn rhoi dyletswydd i gyrff llywodraethu gynnal cyfarfod ar ôl deiseb gan rieni, a bwrw bod amodau penodol yn cael eu cyflawni.

Tystiolaeth ymatebwyr

399. Clywodd y Pwyllgor ystod eang o dystiolaeth gan ymatebwyr ynglŷn â'i gwneud yn ddyletswydd i gyrff llywodraethu gynnal cyfarfod ar ôl cael deiseb gan rieni. Soniodd ymatebwyr, ar y cyfan, am ymarferoldeb y system ddeisebau arfaethedig, a pha mor briodol oedd nifer y rhieni a fyddai'n ofynnol er mwyn sbarduno'r cais am gyfarfod.

400. Roedd cefnogaeth gyffredinol ymhlith yr ymatebwyr o blaid dileu'r gofyniad presennol sydd i gyrff llywodraethu gynnal cyfarfod rhieni blynyddol.

401. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CCAC a Phlant yng Nghymru yn croesawu'r ymrwymiad i gryfhau'r ymgysylltu â rhieni mewn ysgolion a dywedasant eu bod yn cefnogi'r cynigion a fydd yn caniatáu i rieni alw cyfarfodydd gyda llywodraethwyr.²⁸²

402. Dywedodd Estyn nad yw'r cyfarfod blynyddol gofynnol yn gweithio'n dda ac roedd yn teimlo bod rhoi'r hawl i rieni alw cyfarfod

²⁸² Tystiolaeth ysgrifenedig SSO3 ac SSO23

yn debygol o wella'r ymgysylltu â rhieni ac ysgafnhau beichiau diangen ar ysgolion.²⁸³

403. Dywedodd Cyngor Sir Caerfyrddin, er ei fod yn croesawu'r adrannau penodol hyn yn y Bil ac yn sylweddoli nad yw'r drefn bresennol yn effeithiol, ei bod yn rhaid bod yn ofalus wrth ddatblygu a mabwysiadu'r dull amgen a gynigir. Awgrymasant y byddai canllawiau ynglŷn â'r pynciau y dylid ac na ddylid eu trafod mewn cyfarfod rhieni yn werthfawr i ysgolion ac i awdurdodau lleol.²⁸⁴ Mynegwyd barn debyg gan Lywodraethwyr Cymru a awgrymodd y dylai'r Bil gynnwys hawl i'r corff llywodraethu wrthod cynnal cyfarfod o dan amgylchiadau penodol.²⁸⁵

404. Roedd Achub y Plant yn poeni y gallai trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ofyn am gyfarfod i'r rhieni, gau allan eto fyth y rhieni hynny sydd leiaf tebygol o ymwneud ag addysg eu plant. Felly, eu hawgrym hwy oedd y dylai fod yn ofyniad yn y Bil i'r ysgolion hysbysu rhieni am y trefniadau newydd ac atgoffa rhieni'n rheolaidd am eu hawl.²⁸⁶

405. Mynegwyd pryderon tebyg gan Barnardo's Cymru, Plant yng Nghymru a Michael Imperato.²⁸⁷

406. Er bod Llywodraethwyr Cymru yn cefnogi diddymu'r gofyniad i gynnal cyfarfod rhieni blynyddol, roedd yn sylweddoli pa mor bwysig oedd hi bod cyrff llywodraethu'n parhau i ddangos eu hatebolrwydd i rieni, er enghraifft drwy gyhoeddi adroddiadau blynyddol.²⁸⁸

407. Clywodd y Pwyllgor ystod eang o dystiolaeth gan ymatebwyr ynglŷn â nifer y rhieni yr oedd gofyn eu cael i sbarduno'r cais am gyfarfod, fel y'i nodir yn adran 95(3).

408. Er eu bod yn cefnogi'r cynigion yn gyffredinol, cododd NAHT Cymru bryder ynglŷn â'r ffigurau trothwy yr oedd gofyn eu cael i

²⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO2

²⁸⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO26

²⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO10

²⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO19

²⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO5, SSO22 ac SSO23

²⁸⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 187, 27 Mehefin 2012

sbarduno cyfarfod ac awgrymodd cael graddfa lithro h.y. bod angen canran uwch o rieni mewn ysgolion llai.²⁸⁹

409. Yn yr un modd, awgrymodd ATL Cymru hefyd y dylid cynnwys graddfa ostyngol o'r ganran o rieni yr oedd gofyn ei chael i gychwyn y cais am gyfarfod rhieni.²⁹⁰

410. Awgrymodd Michael Imperato y gallai'r trothwy fod yn rhy uchel ar gyfer ysgolion uwchradd ac y byddai gofyn cryn waith trefnu i gymell cynifer o rieni â hyn.²⁹¹

411. Roedd NUT Cymru yn poeni hefyd am y ffigurau a nodwyd yn y Bil ar gyfer sbarduno cyfarfod rhieni. O ran ysgolion uwchradd mawr, teimlai NUT Cymru fod y ffigur 10% neu 30 (pa un bynnag yw'r isaf) yn rhy uchel.²⁹² Aeth rhagddo i ddweud:

At the other end of the size scale, you also have a problem in that you could have a small number of parents in a small primary school with an axe to grind, who could generate a meeting and create huge problems, simply because they have met the threshold in a small school.²⁹³

412. Yn olaf, dywedodd NUT Cymru:

We would feel happy to scrap the parents' meeting completely and allow parents to make proper use of parent-governors.²⁹⁴

413. Roedd barn NASUWT Cymru yn gymysg ynglŷn â'r cynigion ynglŷn â system seiliedig ar ddeiseb ar gyfer gwneud cais am gyfarfod rhieni. Roeddent yn poeni y gallai grwpiau bychain nad oeddent o reidrwydd yn cynrychioli barn mwyafrif y rhieni ddefnyddio'r system newydd i wthio cynigion drwodd.²⁹⁵

414. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru ei fod yn cefnogi'r cynigion ar gyfer system seiliedig ar ddeisebau i ofyn am gyfarfod rhieni ond y bydd angen ymgynghori ac ymgysylltu

²⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO4, a Chofnod y Trafodion, paragraff 156, 13 Mehefin 2012

²⁹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO8

²⁹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 270, 13 Mehefin 2012

²⁹² Cofnod y Trafodion, paragraff 363, 27 Mehefin 2012

²⁹³ ibid

²⁹⁴ ibid

²⁹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 365, 27 Mehefin 2012

effeithiol â rhieni er mwyn gweld sut mae sicrhau bod dull o'r fath yn cael ei roi ar waith yn effeithiol.²⁹⁶

Tystiolaeth y Gweinidog

415. Dywed y Memorandwm Esboniadol:

Nid yw'r system gyfredol, ar ei ffurf bresennol, yn gwneud defnydd effeithiol o amser rhieni na llywodraethwyr. Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn gyfle i'r rhieni gael trafodaeth gyda'r llywodraethwyr ysgol ar yr adeg briodol. Hefyd, pe byddai corff llywodraethu yn dal i fod yn awyddus i ymgysylltu â'r rhieni fel y maent yn ei wneud ar hyn o bryd, gallent barhau i wneud hynny.²⁹⁷

416. Ategodd y Gweinidog hyn yn ei dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor gan ddweud:

...it has become apparent that the process is not working currently...We are trying to give more flexibility to governing bodies while, at the same time, creating a trigger mechanism whereby parents can ask for a meeting if they need it.²⁹⁸

417. Aeth rhagddo i ddweud:

There should be an onus on schools to find more innovative ways of engaging with parents. Some of the best practice that we have seen... is when schools have adopted other methods of going out to parents, rather than the traditional timetabled meeting, which can be an intimidating process when you are in an environment being run by professionals.²⁹⁹

418. A:

It is down to encouraging schools to find other means of communicating with parents. I point to schools that have done that, and we may need to specify more explicitly in the school

²⁹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraffau 83 i 87, 11 Gorffennaf 2012

²⁹⁷ ME 3.95, t27

²⁹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 127, 9 Mai 2012

²⁹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 287, 19 Gorffennaf 2012

improvement guidance the examples of good practice that we have in outreach to parents.³⁰⁰

419. Gan ymateb i bryderon a godwyd y gall fod gofyn i ysgolion a chyrff llywodraethu drafod materion amhriodol, h.y. ymddygiad staff, os gelwir cyfarfod rhieni, dywedodd y Gweinidog:

Governing bodies are clear on their responsibilities in respect of employment issues, data protection and those kinds of issues, which you would clearly not discuss in an open forum as such. We can put that in the guidance to address that.³⁰¹

Ein barn ni

420. Nodwn fod cefnogaeth gyffredinol yn y dystiolaeth o blaid disodli'r gofyniad presennol ar gyrff llywodraethu i gynnal cyfarfod rhieni blynyddol gyda'r system 'seiliedig ar ddeiseb' y darperir ar ei chyfer yn y Bil. Felly, rydym yn gyffredinol fodlon ar y pwerau a ddarperir yn adrannau 95 i 96 o'r Bil.

421. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd ynglŷn ag ymarferoldeb system seiliedig ar ddeiseb a'r effaith bosibl y gallai system o'r fath ei chael ar ymgysylltu â rhieni. Mae tystiolaeth y Gweinidog ynglŷn â'r materion hyn yn tawelu ein meddwl ac rydym yn croesawu bwriad y Gweinidog i gynnwys yn y canllawiau a gyhoeddir o dan adran 95(13) gyfarwyddyd ynglŷn â sut y gall ysgolion ymgysylltu'n well â rhieni .

422. Rydym ninnau, fel rhai o'r ymatebwyr yn poeni am nifer y rhieni y mae gofyn eu cael i sbarduno'r cais am gyfarfod. Yng ngoleuni hyn, **rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog adolygu priodoldeb y niferoedd a'r canrannau y mae gofyn eu cael i sbarduno'r cais am gyfarfod rhieni ac ystyried yr awgrym amgen ynglŷn â chael graddfa lithro.**

³⁰⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 287, 19 Gorffennaf 2012

³⁰¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 289, 19 Gorffennaf 2012

8. Rhan 6 - Cyffredinol

Adran 98 - Gorchmynion a rheoliadau

Cefndir

423. Yn Adran 98, nodir y pwerau gwneud gorchmynion a rheoliadau sydd yn y Bil. Ni chaiff gorchmynion a wneir o dan adran 58(2) (cyfarwyddiadau i wneud cynigion ar gyfer rhesymoli lleoedd ysgolion), adran 67 (cyfarwyddiadau i wneud cynigion ynghylch sicrhau darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig, ac o dan baragraff 34(1)(b) o Atodlen 5 (trosglwyddo tir) eu rhoi ar waith drwy offeryn statudol ac ni fyddant yn dod o dan weithdrefnau'r Cynulliad.

Tystiolaeth ymatebwyr

424. Er na chodwyd mater diffyg gweithdrefn Cynulliad ar gyfer gorchmynion a wneir o dan adrannau 58 a 67 yn benodol, pwysleisiodd nifer o ymatebwyr fod angen sicrhau bod y ffordd y bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi pwerau'r Bil ar waith yn destun lefel briodol o graffu.

Tystiolaeth y Gweinidog

425. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwysig cadw'r gallu i gyhoeddi'r gorchmynion hyn pan nad oedd y Cynulliad ar waith. At hynny, roedd yn amau a fyddai fawr o awydd ar y Cynulliad ystyried gorchmynion fel hyn.³⁰²

426. Aeth y Gweinidog rhagddo wedyn i bwysleisio y bydd penderfyniadau Gweinidogol fel hyn nad oeddent yn destun craffu gan y Cynulliad yn agored i broses graffu wedi hynny ac felly, byddant yn agored i broses gyfreithiol os byddant afresymol.³⁰³

³⁰² Cofnod y Trafodion, paragraff 129, 9 Mai 2012

³⁰³ Cofnod y Trafodion, paragraff 133, 9 Mai 2012

Ein barn ni

427. Nodwn fod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi gwneud gwaith manwl ac wedi adrodd am y pwerau dirprwyedig yn y Bil, yn enwedig am adrannau 58 a 67.³⁰⁴

³⁰⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Adroddiad ar Fil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)*, Hydref 2012

9. Goblygiadau ariannol y Bil

Rhan 2 - Safonau

Pennod 3 - Canllawiau Gwella Ysgolion

Cefndir

428. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, amcangyfrifir mai cost gyffredinol y Canllawiau Gwella Ysgolion statudol fydd £1.7 miliwn. Byddai angen i Lywodraeth Cymru dalu am hynny drwy'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae'n mynd rhagddo i awgrymu y gallai fod costau dilynol ychwanegol o ran darparu hyfforddiant i ysgolion a chymorth parhaus er mwyn rhoi pethau ar waith. Amcangyfrifir mai £500,000 y flwyddyn fyddai'r costau hynny (dros gyfnod o 3 i 5 mlynedd).³⁰⁵

429. At hynny, dywed y Memorandwm Esboniadol:

Bydd y fframwaith statudol ar gyfer gwella ysgolion yn cynnwys cyfres o ddogfennau canllawiau, yn hytrach nag un cyhoeddiad cyffredinol. Mae'r amcanestyniadau yn seiliedig ar gyhoeddi a gweithredu canllawiau statudol ynghylch un flaenoriaeth gwella ysgolion. Mae blaenoriaethau yn y dyfodol yn parhau i gael eu pennu drwy'r broses bandio ac archwiliadau, a bydd angen asesu'r costau ymhellach pan fydd manylion mwy penodol ar gael.³⁰⁶

Tystiolaeth ymatebwyr

430. Cafwyd ychydig o sylwadau gan ymatebwyr am y gost sy'n gysylltiedig â'r canllawiau gwella ysgolion.

431. Wrth sôn am yr amcan gostau sy'n gysylltiedig â'r canllawiau gwella ysgolion, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a CCAC:

It is difficult to say without a clear view of what the priorities are in the school improvement framework. It is assumed that any new burdens on local authorities will be fully funded, and

³⁰⁵ ME 8.24 i 8.26, tudalennau 64 i 65

³⁰⁶ ME 8.27, t65

that on-going work will continue to be funded via grants such as the SEG, and for more targeted work at school level through the [Pupil Deprivation Grant] PDG.³⁰⁷

Tystiolaeth y Gweinidog

432. Yn nhystiolaeth atodol y Gweinidog i'r Pwyllgor, esboniodd mai ar gyfer datblygu'r Canllawiau Statudol ar gyfer Gwella Ysgolion a'u rhoi ar waith mewn un maes pwysig sy'n flaenoriaeth yr oedd yr amcan gost o £1.7 miliwn. Seiliwyd y ffigur hwn ar y gwir gostau ar gyfer datblygu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'i roi ar waith.³⁰⁸ Aeth y Gweinidog rhagddo i ddweud:

Actual costs will depend on the number and scope/extent of school improvement strategies under development at a given time.

The £1.7 million is an estimate, by way of example, based on work done around the SEF. New guidance on other issues may not follow the same pattern but the principle exists that if significant costs are placed on schools or local authorities then these are funded by the Welsh Government.³⁰⁹

433. Esboniodd y Gweinidog fod gwaith ar y gweill i ganfod meysydd eraill a fyddai'n flaenoriaeth yn y dyfodol yng nghyswllt gwella ysgolion. Wrth sôn am ba bryd y byddai'r costau a fyddai'n gysylltiedig â chyflwyno canllawiau statudol yn y meysydd hyn yn hysbys ac ar gael, dywedodd:

Once this work is complete, we will consider the areas where evidence shows that statutory improvement guidance might be most effective and undertake a detailed impact assessment to support its introduction.³¹⁰

³⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO3A

³⁰⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog, 21 Awst 2012

³⁰⁹ *ibid*

³¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog, 21 Awst 2012

434. A:

... the costs and benefits for any specific statutory guidance will be assessed on introduction. We anticipate such guidance may very well be qualitative in nature and therefore of minimal/no financial cost.³¹¹

435. Cynigiodd y Gweinidog dybiaethau gweithio ar gyfer cost barhaus cefnogi'r broses rhoi ar waith, sef £0.5 miliwn ar gyfer pob maes blaenoriaeth. Roedd y rhain yn cynnwys cost hyfforddiant dilynol i'r ysgolion.³¹²

Ein barn ni

436. Nodwn fod y Gweinidog yn amcangyfrif mai cost datblygu'r canllawiau statudol ar gyfer gwella ysgolion a'u rhoi ar waith fyddai £1.7 miliwn. Yn ôl y Gweinidog, mae a wnelo hyn ag un maes pwysig sy'n flaenoriaeth, yn hytrach nag â chyfanswm y gost.

437. Serch hynny, mae tystiolaeth y Gweinidog yn dweud hefyd y gallai gwir gost datblygu'r canllawiau newydd a'u rhoi ar waith fod yn fychan iawn, a dibynnu ar natur y canllawiau.

438. Rydym yn poeni am gyfanswm cost rhoi'r canllawiau statudol ar gyfer gwella ysgolion ar waith a chofio'r ystod eang o gostau posibl a ddarparwyd gan y Gweinidog, ac nad yw meysydd polisi a fydd yn flaenoriaeth yn y dyfodol wedi'u nodi eto.

439. Ni chawsom ddim tystiolaeth nac i herio nac i gefnogi'r costau a nodwyd gan y Gweinidog. Ar y sail hon, ac oherwydd nad yw'r Gweinidog wedi cynnig dim costau cadarn, teimlwn na allwn gynnig argymhellion ynglŷn â goblygiadau ariannol datblygu'r canllawiau gwella ysgolion a'u rhoi ar waith.

440. Er hynny, rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ariannu, lle bo angen, unrhyw gostau gweithredu sylweddol sy'n gysylltiedig â'r canllawiau gwella ysgolion, a ddaw i ran ysgolion ac awdurdodau lleol.

³¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog, 21 Awst 2012

³¹² ME 8.26, t65

Rhan 3 - Trefniadaeth Ysgolion

Pennod 2 - Cynigion trefniadaeth ysgolion

Cefndir

441. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, byddai union gost y panelau dyfarnu Lleol yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau lleol ac yn ôl cymhlethdod y cynigion, ac felly, byddai'n anodd pennu swm ar ei gyfer. Serch hynny, amcangyfrifir yn y Memorandwm Esboniadol y byddai'r gost rhwng £500 a £5,000.³¹³

442. Mae'r amcangyfrif hwn yn cynnwys y gost sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd, lwfansau a threuliau aelodau'r panelau, costau clericio, cymorth gweinyddol a chynghor cyfreithiol.

Tystiolaeth ymatebwyr

443. Ychydig o sylwadau a gafwyd gan ymatebwyr am gostau'r Panelau Dyfarnu Lleol.

444. Esboniodd CLILC a CCAC y byddai cost y Panelau Dyfarnu Lleol yn dibynnu ar anghenion penodol y cynnig. Aeth rhagddo i ddweud:

...the ability of local authorities to absorb these costs will depend on the number, and complexity of panels that an individual local authority has to establish. This will be subject to on-going discussions with the Welsh Government.³¹⁴

445. Dywedodd Michael Imperato ei fod yn poeni bod y gost a fyddai'n gysylltiedig â'r Panelau Dyfarnu Lleol wedi'i thanamcangyfrif yn fawr. Dywedodd:

If this process is to be properly prepared, considered, clerked and staffed by able people, the cost would be far higher.³¹⁵

Tystiolaeth y Gweinidog

446. Wrth sôn am yr awgrym yn y dystiolaeth y byddai'r gost gysylltiedig â sefydlu'r Panelau Dyfarnu Lleol a'u rhoi ar waith yn

³¹³ ME 8.56, t71

³¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO3A

³¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO5

sylweddol uwch na'r amcangyfrif yn y Memorandwm Esboniadol, dywedodd:

Those questioning the estimates appear to have done so because they have misunderstood the nature of the local determination panel process. The local determination panel will not conduct expensive, tribunal style hearings involving legal representation and submissions.³¹⁶

447. Esboniodd y Gweinidog hefyd fod yr amcan gostau wedi'u seilio ar ddau neu dri o gyfarfodydd panel na fyddai disgwyl iddynt, yn ôl yr wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol gostio mwy na £2,500 ond a fyddai, gan amlaf, yn sylweddol lai. Yn ôl y Gweinidog, costau clericio a gweinyddu oedd y gweddill, ac ni ddisgwylid i'r rheini fod y tu hwnt i £2,500, a, gan amlaf, byddent yn sylweddol lai.³¹⁷

448. O ran y gost sy'n gysylltiedig â darparu cyngor cyfreithiol ar gyfer y Panelau Dyfarnu Lleol, dywedodd y Gweinidog:

The projected costs would allow for the provision of some legal advice where needed...

449. A:

Legal advice, if it is required at all, would have to be provided by the local authority. How they do so would be a matter for them.³¹⁸

450. Yn llythyr y Gweinidog a oedd yn nodi'r materion y mae'n bwriadu eu cynnwys yn y Cod drafft am Drefniadaeth Ysgolion, mae'n ei gwneud yn glir y bydd gofyn i awdurdodau lleol sicrhau bod holl aelodau'r Panelau'n cael hyfforddiant priodol cyn ystyried cynigion.³¹⁹ Mae'r Gweinidog yn mynd rhagddo i ddweud y gall awdurdodau lleol gydweithredu i ddarparu hyfforddiant er mwyn sicrhau arbedion ariannol posibl.³²⁰

³¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog, 21 Awst 2012

³¹⁷ ibid

³¹⁸ ibid

³¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog, y Cod Trefniadaeth Ysgolion, 21 Awst 2012

³²⁰ ibid

451. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol na thystiolaeth y Gweinidog yn ei gwneud yn glir a yw'r gost sy'n gysylltiedig â hyfforddi Aelodau'r panelau, rhai ohonynt efallai'n bobl leyg, wedi'i chynnwys yn yr amcangyfrif.

Ein barn ni

452. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd yn y dystiolaeth fod y costau a fyddai'n gysylltiedig â'r Panelau Dyfarnu Lleol wedi'u tanamcangyfrif yn fawr. Er ein bod yn nodi honiad y Gweinidog bod y pryder hwn yn seiliedig yn bennaf ar gamddealltwriaeth ynglŷn â natur y Panelau, rydym yn dal i gredu bod barn y Gweinidog ynglŷn â sut y byddant yn gweithio'n orsyml ac nid ydym wedi ein hargyhoeddi eto.

453. A chofio natur y penderfyniadau a wneir gan y Panelau, a chymhlethdod posibl yr achosion a lefel y gwrthwynebiadau, credwn fod y Gweinidog wedi tanamcangyfrif yn sylweddol y goblygiadau o ran amser ac adnoddau sy'n gysylltiedig â'u rhoi ar waith. I'r perwyl hwn, credwn fod y costau cysylltiedig â Phanelau Dyfarnu Lleol yn debygol o fod yn sylweddol uwch na'r amcangyfrif a gynigiwyd gan y Gweinidog. Ar y sail hon, ac yn sgîl ein pryderon mwy cyffredinol ynghylch y Panelau Dyfarnu Lleol a nodwyd ym Mhennod 5, **rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog, pan fydd yn adolygu sut mae'r Panelau Dyfarnu Lleol yn gweithio ac yn adrodd yn ôl am hynny, hefyd yn adrodd yn ôl am wir gostau'r Panelau Dyfarnu Lleol.**

Rhan 4 - Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

Cefndir

454. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, costau gweinyddu blynyddol y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yw oddeutu £468,000. Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol sydd ac a fydd yn ysgwyddo'r costau hyn.³²¹ At hynny, amcangyfrifir y bydd rhywfaint o gostau gweinyddu a chyfreithiol untro, oddeutu £110,000.³²²

³²¹ ME 8.67, t72

³²² ME 8.72, t73

Tystiolaeth ymatebwyr

455. Yn ei thystiolaeth, dywedodd CLILC y byddai awdurdodau lleol yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol a godai yn sgîl cyflwyno'r Cynlluniau Strategol statudol.

456. Yn sesiwn tystiolaeth Estyn am ei Adroddiad Blynyddol ar 29 Mawrth 2012, awgrymodd bod diffyg capasiti ar hyn o bryd o ran athrawon cyfrwng Cymraeg.³²³

Tystiolaeth y Gweinidog

457. Yn nhystiolaeth atodol y Gweinidog, rhoddodd ragor o fanylion am y tybiaethau y seilir y costau refeniw sy'n gysylltiedig â'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg arnynt.³²⁴

458. Esboniodd y Gweinidog mai'r gost gyfartalog uchaf debygol i awdurdodau lleol am gynnal arolygon i fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg fyddai £5,000 y flwyddyn. Dywedodd hefyd fod 15 o awdurdodau lleol eisoes yn mynd ati o'u gwirfodd i fesur y galw'n rheolaidd ac yn ariannu'r prosesau hyn eu hunain.³²⁵

459. Rhoddodd y Gweinidog ragor o dystiolaeth am y goblygiadau cyfalaf sy'n codi yn sgîl rhoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith ac yn sgîl unrhyw gynnydd a ddeuai oherwydd hynny yn y galw am athrawon cyfrwng Cymraeg.³²⁶

460. O ran y goblygiadau cyfalaf posibl, dywedodd y Gweinidog:

Capital funding implications have already become apparent in the current voluntary WESPs. These plans have included information from local authorities about their bids for 21st Century Schools Funding. Also, local authorities' bids for 21st Century Schools Funding need to consider the needs of Welsh-medium education....Meetings are currently being held with local authorities to discuss the next stage of the 21st century Schools Programme and in particular Welsh-medium was one of

³²³ Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, CYP (4) -11 - 12 Papur 1 - Adroddiad Blynyddol HMCI 2010-11 Paragraff 153

³²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog, 21 Awst 2012

³²⁵ ibid

³²⁶ ibid

the three key policy areas to which priority was given and on which authorities are being re-tested, along with Transformation and School Reorganisation.³²⁷

461. O ran y galw ychwanegol posibl am athrawon cyfrwng Cymraeg, dywedodd y Gweinidog:

The supply of newly qualified teachers being recruited by Welsh-medium schools currently meets demand. The number of vacancies within welsh-medium schools is monitored by the Welsh in Education Strategic Plans (WESPs) and we do not envisage the need for extra teacher training places.³²⁸

462. Dywedodd y Gweinidog hefyd:

The implementation of WESPs will be supported by the use of the Welsh in Education Grant which currently stands at around £5.6 million.³²⁹

Ein barn ni

463. Nodwn fod y Gweinidog yn amcangyfrif mai'r costau refeniw parhaus sy'n gysylltiedig â gweinyddu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg fydd oddeutu £0.5 miliwn. Rydym yn cydnabod na fyddai'r rhain, yn ôl y Gweinidog, yn rhoi baich ariannol ychwanegol ar awdurdodau lleol, oherwydd eu bod eisoes, gan mwyaf, yn paratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg o'u gwirfodd.

464. Nodwn o dystiolaeth y Gweinidog y telir am gostau rhoi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith drwy'r Grant Cymraeg mewn Addysg presennol ac na ddarperir arian ychwanegol at y diben hwn. Felly, rydym yn poeni y gallai arian gael ei ddargyfeirio o fentrau eraill a gefnogir gan y Grant Cymraeg mewn Addysg er mwyn talu'r costau sy'n gysylltiedig â rhoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith.

465. Ym Mhennod 6, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried cynnwys darpariaeth yn y Bil i sicrhau bod unrhyw gynnydd yn y galw

³²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog, 21 Awst 2012

³²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog, 21 Awst 2012

³²⁹ ibid

am addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddiwallu'n ddigonol. Ar y sail bod y Gweinidog yn derbyn yr argymhelliad hwn, **rydym yn argymhell hefyd ei bod yn rhaid iddo sicrhau bod arian digonol yn cael ei ddarparu at y diben hwn.**

Rhan 5 - Swyddogaethau Amrywiol Ysgolion

Y fenter brecwast am ddim a chwnsela mewn ysgolion

Cefndir

466. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

- mae'r gyllideb ar gyfer y fenter brecwast am ddim mewn ysgolion yn cynnwys darpariaeth o £10.7m £12.7m ac £14.7m y flwyddyn ar gyfer y cyfnod 2011-14,. Mae'r cynnydd yn y costau yn darparu ar gyfer cynnydd yn y galw dros y cyfnod o dair blynedd , gan ganiatáu ar gyfer parhau i ehangu'r ddarpariaeth brecwast,³³⁰ a
- bydd trosglwyddo'r cyllid ar gyfer cwnsela mewn ysgolion yn arbed tua £29,00 ar gostau gweinyddol.³³¹

467. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 9 Mai 2012, dywedodd y Gweinidog y byddai £4.5 miliwn yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw i dalu am gwnsela mewn ysgolion.³³²

Tystiolaeth ymatebwyr

468. Fel y dywedir ym Mhennod 7, roedd nifer o'r ymatebwyr yn poeni am yr effaith ar ansawdd ac ar lefel y ddarpariaeth brecwast am ddim a chwnsela mewn ysgolion ar ôl trosglwyddo'r arian grant penodol, a oedd wedi'i neilltuo, i'r Grant Cynnal Refeniw.

Tystiolaeth y Gweinidog

469. Yn nhystiolaeth atodol y Gweinidog, esboniodd fod y fenter brecwast am ddim wedi bod ar waith ers mis Medi 2004, a bod pob ysgol wedi cael gwahoddiad ffurfiol i ymuno â hi erbyn mis Ionawr 2007. Yn ôl y Gweinidog, roedd mwyafrif helaeth yr ysgolion a oedd

³³⁰ ME 8.118, t82

³³¹ ME 8.107, t79

³³² Cofnod y Trafodion, paragraff 137, 9 Mai 2012

am gymryd rhan yn y fenter wedi ymuno â hi eisoes. Esboniodd hefyd fod pob awdurdod lleol wedi penodi cydlynnydd brecwast am ddim i reoli'r cynllun yn lleol.³³³

470. Wrth sôn am drosglwyddo'r arian, dywedodd y Gweinidog:

In finalising the arrangements for the transfer to RSG, the Distribution Sub Group (involving Welsh Government and Local Government officials) have given consideration to the on-going funding required to be transferred into the settlement for 2013-14 and future years along with the distribution arrangements. It is accepted practice by local authorities and the Welsh Government that in some instances moving to a standardised formula for allocating funding to RSG some local authorities may have more funding that they currently receive via a specific grant and others less.³³⁴

471. Yn ei dystiolaeth lafar, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r fenter brecwast am ddim yn dal i gael ei monitro drwy gyfrwng cyfrifiad yr ysgol.³³⁵

472. Wrth sôn am gwnsela mewn ysgolion, dywedodd y Gweinidog:

The money that we are putting in will reflect the cost of continuing to provide counselling to secondary pupils, providing it to year 6 in primary schools, and, potentially, to 16 to 18-year-olds as well.³³⁶

473. Wrth sôn am bryderon ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai trosglwyddo'r arian amharu ar lefel y gwasanaeth, dywedodd y Gweinidog:

Section 94 contains requirements for information about independent counselling services... We can direct local authorities to compile information about the service secured by

³³³ Tystiolaeth ysgrifenedig - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog, 21 Awst 2012

³³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog, 21 Awst 2012

³³⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 255, 19 Gorffennaf 2012

³³⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 251, 19 Gorffennaf 2012

them and they will need to provide us with that information. So, we have powers on the face of the Bill to follow that through.³³⁷

Ein barn ni

474. Fel y nodwyd ym Mhennod 7, rydym yn cydnabod y pryder a godwyd yn y dystiolaeth am yr effaith bosibl a gâi trosglwyddo'r cyllid o grant wedi'i neilltuo i'r Grant Cynnal Refeniw ar ddarparu'r Fenter Brechwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd a'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion.

475. Rydym yn cydnabod bod y cyllid ar gyfer y fenter brechwast am ddim mewn ysgolion yn darparu £4 miliwn yn ychwanegol i dalu am gynnydd yn y galw dros y cyfnod o 3 blynedd o 2011 tan 2014, gan ganiatáu ar gyfer parhau i ehangu'r ddarpariaeth frechwast, ac rydym yn croesawu hynny.

476. Nodwn y caiff y ddarpariaeth brechwast am ddim mewn ysgolion ei monitro o hyd drwy gyfrwng y cyfrifiad ysgol, sydd ar gael drwy wefan Llywodraeth Cymru. Serch hynny, rydym yn nodi hefyd, er nad yw'r cyfrifiad o bosibl yn darparu gwybodaeth am y nifer sy'n manteisio ar y fenter, ei fod yn darparu gwybodaeth am geisiadau ar gyfer darparu gwasanaeth brechwast am ddim mewn ysgol ond sydd heb ei ddarparu o dan delerau'r Bil.

477. Rydym yn poeni nad yw'r costau a bennwyd gan y Gweinidog ar gyfer cwnsela mewn ysgolion, a hynny'n wahanol i'r cyllid ar gyfer y fenter brechwast am ddim mewn ysgolion, yn darparu o gwbl ar gyfer ehangu'r gwasanaeth, nac o ganlyniad i gynnydd yn y galw gan y rheini sy'n gymwys o dan delerau'r Bil, nac i gategoriau eraill o bobl, er enghraifft, y rheini sy'n cael addysg gynradd, ar yr amod bod Gweinidogion Cymru'n creu rheoliadau.

Pŵer i godi taliadau am brydau

Cefndir

478. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, bydd "rhywfaint o gostau sefydlu cychwynnol a chostau rheolaidd yn sgîl hynny" ynghlwm wrth

³³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 253, 19 Gorffennaf 2012

godu taliadau hyblyg am brydau ysgol.³³⁸ Mae'n mynd rhagddo i esbonio nad oes modd costio'r peth yn fanwl ac y byddai angen "asesu holl effeithiau'r cynlluniau yn unol â chynigion penodol".³³⁹

Tystiolaeth gan dystion

479. Fel y sonnir ym Mhennod 7 o'r adroddiad, roedd nifer o'r ymatebwyr yn poeni am oblygiadau ymarferol ac ariannol gweinyddu cynlluniau codi taliadau hyblyg.

Tystiolaeth y Gweinidog

480. Wrth sôn am y pryderon a godwyd yn y dystiolaeth ynglŷn â chost rhoi cynlluniau codi taliadau hyblyg ar waith, dywedodd y Gweinidog yn ei dystiolaeth atodol:

Increasing the take up of school meals by the use of flexible charging could make a positive contribution towards supporting specific local and national issues such as health, wellbeing and child poverty.

It would be for local authorities or governing bodies with delegated budgets to assess the implications of flexible charging from discounted meals and/or special offers, and then to fund these sales promotions from their budgets based on their contribution to these broader agendas.³⁴⁰

481. Gan ymateb i gais y Pwyllgor am gostau dangosol ar gyfer sefydlu cynlluniau codi taliadau hyblyg, dywedodd y Gweinidog:

Given the potential for wide variations in approaches taken by local authorities or governing bodies and their set up costs, any range of illustrative costs provided would be merely speculative and as such unlikely to assist committee members.³⁴¹

482. Ychwanegodd:

The Welsh Government will provide local authorities and governing bodies with guidance in relation to flexible charging

³³⁸ ME 8.143, t86

³³⁹ ME 8.144, t86

³⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog, 21 Awst 2012

³⁴¹ ibid

which will include information on issues to be considered before starting up, such as costs.³⁴²

Ein barn ni

483. Rydym ninnau hefyd yn poeni am y goblygiadau ariannol posibl i awdurdodau lleol wrth iddynt roi system codi taliadau hyblyg ar waith, fel y mynegir yn y dystiolaeth ym Mhennod 7. Rydym yn croesawu bwriad y Gweinidog o gyflwyno canllawiau, gan gynnwys canllawiau am gostau, i gynorthwyo awdurdodau lleol i benderfynu a yw system o'r fath yn hyfyw.

Cyfanswm cost y Bil

Tystiolaeth ymatebwyr

484. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn poeni'n gyffredinol am oblygiadau ariannol y Bil.

485. Dywedodd CLILC a CCAC fod costau cyffredinol rhoi'r Bil ar waith, gan gynnwys y sgîl-gostau, yn destun gwaith parhaus. Aeth rhagddo i ddweud y byddai unrhyw feichiau statudol ychwanegol ar awdurdodau lleol yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, yn unol â phrotocolau presennol.³⁴³

486. Yn gysylltiedig â'r uchod, awgrymodd ATL Cymru y dylai'r Gweinidog wneud rhagor o waith i asesu'n gywir beth fyddai goblygiadau'r costau a chynnig gwell darlun o'r gwir gostau.³⁴⁴

Tystiolaeth y Gweinidog

487. Yn ôl y Gweinidog, cyfanswm cost y Bil ar sail asesiad bras yw £20 miliwn, sy'n cynnwys £14.7 miliwn am frecwast am ddim mewn ysgolion a £4.5 miliwn am gwnsela mewn ysgolion.³⁴⁵ Byddai hyn yn gadael £0.8 miliwn i dalu am gostau rhoi'r darpariaethau sy'n weddill ar waith, gan gynnwys cymorth ar gyfer gweithredu'r Canllawiau

³⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog, 21 Awst 2012

³⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO3A

³⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig SSO8

³⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 136, 9 Mai 2012

Gwella Ysgolion a nifer o sgîl-gostau eraill, er enghraifft, rhoi'r panelau dyfarnu lleol ar waith.

488. Wrth ymateb i gais y Pwyllgor am amcangyfrif o gyfanswm y sgîl-gostau sy'n gysylltiedig â'r Bil, yn ei dystiolaeth atodol, dywedodd y Gweinidog:

In general, where [incidental] costs are described as modest these are such costs as could readily be absorbed by the body incurring them without harm to its delivery of objectives or financial position. Whilst they do not lend themselves to totalling, I am nonetheless satisfied that their cumulative effect will be similarly modest. Similar considerations arise where costs are not yet quantified due to being scalable according to the resource available...³⁴⁶

489. Rhoddodd y Gweinidog ragor o wybodaeth hefyd am oblygiadau ariannol gwahanol feysydd y Bil i awdurdodau lleol.

490. Dywedodd:

Overall, I would expect the fiscal impact on local authorities of the Bill provisions to be low and that local authorities would meet this from within their own resources including, in cases such as that relating to school organisation, by redirection of savings realised through the streamlining of related processes. Conversely, where the burdens could be substantial (as in the case of the hypothetical single major school improvement strategy costed within the EM...) I would anticipate providing additional funding.³⁴⁷

Ein barn ni

491. Nodwn mai amcangyfrif y Gweinidog ar gyfer cyfanswm cost y Bil yw oddeutu £20 miliwn a bod £0.8 miliwn o'r swm hwnnw ar gael i dalu am gostau rhoi darpariaethau ar waith ar wahân i'r rheini nad ydynt yn ymwneud â brecwast am ddim a chwmsela mewn ysgolion. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cost rhoi'r canllawiau gwella ysgolion ar

³⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig - Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog, 21 Awst 2012

³⁴⁷ *ibid*

waith, ac amcangyfrifir y byddai hynny'n costio £1.7 miliwn ar gyfer un maes polisi sy'n flaenoriaeth.

492. Rydym eisoes wedi mynegi ein pryder yn glir ynghylch cyfanswm cost gweithredu'r canllawiau gwella ysgolion a bod y Gweinidog wedi tanamcangyfrif yn sylweddol y costau sydd ynghlwm wrth roi'r Panelau Dyfarnu Lleol ar waith. Yn sgîl hyn, rydym yn poeni bod y Gweinidog wedi tanamcangyfrif cost gyffredinol y Bil.

10. Tystion

493. Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrif o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar i'w weld yn llawn yn:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=1305>

<i>9 Mai 2012</i>	
Leighton Andrews AC	Gweinidog Addysg a Sgiliau
<i>31 Mai 2012</i>	
Ann Keane	Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru:
Meilyr Rowlands	Estyn
Simon Brown	Estyn
Dr Chris Llewellyn	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
David Hopkins	CLILC
Ian Budd	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)
<i>13 Mehefin 2012</i>	
Gareth Jones	Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL)
Tim Pratt	ASCL
Anna Brychan	Y Gymdeithas ar gyfer Holl Arweinwyr Ysgol Cymru (NAHT)
Graham Murphy	NAHT Cymru
Michael Imperato	Cyfreithwr

<i>27 Mehefin 2012</i>	
Dr Philip Dixon	Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL)
Dr Alec Clark	ATL
Elaine Edwards	Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
Rebecca Williams	UCAC
Jane Morris	Llywodraethwyr Cymru
Terry O'Marah	Llywodraethwyr Cymru
Neil Foden	Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) Cymru
David Evans	NUT Cymru
Rex Phillips	Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau Cymru (NASUWT)
Hopkin Thomas	NASUWT Cymru
<i>11 Gorffennaf</i>	
Keith Towler	Comisiynydd Plant Cymru
<i>19 Gorffennaf 2012</i>	
Leighton Andrews AC	Gweinidog Addysg a Sgiliau

11. Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

494. Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl dystiolaeth ysgrifenedig i'w gweld yn llawn yn <http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=4092>

Enw / Sefydliad	Cyfeirnod
Phil McTague, Pennaeth, Ysgol Uwchradd Eirias, Conwy	SSO 1
Estyn	SSO 2, 2A
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)	SSO 3, 3A
Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) a'r Gymdeithas ar gyfer Holl Arweinwyr Ysgol Cymru (NAHT)	SSO 4
Michael Imperato	SSO 5
Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) Cymru	SSO 6
Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau Cymru (NASUWT) ac Atodiad	SSO 7
Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru (ATL Cymru)	SSO 8
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)	SSO 9
Llywodraethwyr Cymru	SSO 10
Cymdeithas Arlwywyr Awdurdodau Lleol (LACA)	SSO 11
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	SSO 12
Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	SSO 13
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	SSO14
Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP)	SSO15
Gwasanaeth Addysg Gatholig	SSO16
Grŵp Addysg GL	SSO 17

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr	SSO 18
Achub y Plant, Cymru	SSO 19
Rhieni dros Addysg Gymraeg	SSO 20
Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain	SSO 21
Barnardo's Cymru	SSO 22
Plant yng Nghymru	SSO 23, 23A
Adran Addysg yr Eglwys yng Nghymru	SSO 24
Comisiynydd Plant Cymru.	SSO 25
Cyngor Sir Caerfyrddin	SSO 26
Adran Addysg Dinas a Sir Abertawe	SSO 27

Tystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd gan yr Aelod â Chyfrifoldeb, Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau.

[Llythyr at y Gweinidog Addysg a Sgiliau: 11 Mai 2012](#)

[Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog: 24 Mai 2012](#)

[Llythyr at y Gweinidog Addysg a Sgiliau: 24 Gorffennaf 2012](#)

[Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog: 21 Awst 2012](#)

[Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog - Cod Trefniadaeth Ysgolion: 21 Awst 2012 \(Saesneg yn unig\)](#)